RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
20/2016
DYDDIAD CYHOEDDI:
24/03/2016

# Gwerthusiad o Brosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF):

## Adroddiad Crynodol Terfynol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-4734-6355-4

# Gwerthusiad o Brosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol ESF: Adroddiad Crynodol Terfynol

Dr James Downe, Dr Hadar Elraz, Ysgol Fusnes Caerdydd

Lorna Adams, Erica Garnett, Katie Spreadbury, IFF Research

Carol Hayden, John Houghton, Shared Intelligence

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cyfleu barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Jamie Smith
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 826850
E-bost: jamie.smith@wales.gsi.gov.uk

**Diolchiadau**

Rydym yn ddiolchgar i'r nifer fawr o bobl sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn, gan gynnwys swyddogion awdurdodau lleol a staff uwch o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill ledled Cymru. Carem ddiolch yn arbennig i swyddogion ym mhob un o'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB a fu'n darparu data ac adroddiadau, ac i'r rhai a gwblhaodd arolygon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfan. Yn olaf, rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a'r cyngor a gawsom gan Dr Jamie Smith, Ceri Thomas, Louise Bayliss-Chapman a'u cydweithwyr, sydd wedi rheoli'r gwerthusiad ar ran Llywodraeth Cymru.

**Tabl o'r cynnwys**

Rhestr o'r Tablau ... iii
Rhestr o'r Ffigurau ... iv
Geirfa ... vi

Crynodeb Gweithredol ... 1
1. Cyflwyniad ... 17
2. Cynnydd ac Allbynnau'r Prosiect ... 31
3. Meta-ddadansoddiad ac enghreifftiau o arfer da ... 44
4. Arolwg Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan ... 76
5. Casgliadau ac argymhellion ... 112
Cyfeiriadau ... 125
Anecs 1. Rhestr o brosiectau ESF-LSB ... 127

## Rhestr o'r tablau

Tabl 2.1: Dangosyddion Prosiect ESF-LSB............................................................35

Tabl 3.1: Prosiectau cyflenwi a ddefnyddiwyd ar gyfer y meta-ddadansoddiad ....45

**Rhestr o'r Ffigurau**

Ffigur 1.1: Fframwaith Gwerthuso'r Prosiect ESF-LSB ........................................20

Ffigur 1.2: Y prif gwestiynau ymchwil ar gyfer y gwerthusiad ffurfiannol ...............26

Ffigur 1.3: Y prif gwestiynau ymchwil ar gyfer meta-ddadansoddiad yn y cyfnod crynodol.........................................................................................28

Ffigur 4.1: Proffil o'r ymateb yn ôl y math o bartneriaeth ......................................78

Ffigur 4.2: Hanes y prosiect neu'r bartneriaeth a'r gefnogaeth a dderbyniwyd ......79

Ffigur 4.3: Prif ffocws prosiectau/partneriaethau ..................................................80

Ffigur 4.4: Prif ffocws prosiectau/partneriaethau ..................................................81

Ffigur 4.5: Prif ffocws prosiectau/partneriaethau ..................................................81

Ffigur 4.6: Rôl rheolwr y prosiect..........................................................................84

Ffigur 4.7: Rôl rheolwr y prosiect..........................................................................84

Ffigur 4.8: Natur gwaith partneriaeth ....................................................................86

Ffigur 4.9: Natur gwaith partneriaeth ....................................................................86

Ffigur 4.10: Natur gwaith partneriaeth ..................................................................87

Ffigur 4.11: Lefel a math yr integreiddio ..............................................................88

Ffigur 4.12: Lefel a math yr integreiddio ..............................................................89

Ffigur 4.13: Lefel a math yr integreiddio ..............................................................89

Ffigur 4.14: Cefnogaeth gan y BGLl a thîm cenedlaethol ESF-LSB......................91

Ffigur 4.15: Aelodau allweddol o'r prosiect...........................................................92

Ffigur 4.16: I ba raddau mae cyllid ESF wedi galluogi'r partneriaid i ychwanegu gwerth ....93

Ffigur 4.17: I ba raddau mae cyllid ESF wedi galluogi'r partneriaid i ychwanegu gwerth ....94

Ffigur 4.18: Cyrraedd nodau'r prosiect neu'r bartneriaeth ....95

Ffigur 4.19: Cyrraedd nodau'r prosiect neu'r bartneriaeth ....96

Ffigur 4.20: Cyrraedd nodau'r prosiect neu'r bartneriaeth ....96

Ffigur 4.21: Hanes y prosiect/bartneriaeth o ran rhannu adnoddau, cyllid a chael hyd i atebion a fydd o fudd i'r ardal leol ....97

Ffigur 4.22: Llwyddiant yr adroddwyd amdano yng nghyswllt blaenoriaethau'r prosiect....99

Ffigur 4.23: Cefnogaeth i ddysgu a newid mewn prosiectau cyflenwi ....100

Ffigur 4.24: Ffactorau sy'n cyfrannu at ddysgu a newid mewn prosiectau cyflenwi... ....101

Ffigur 4.25: Rhwystrau i ddysgu a newid mewn prosiectau cyflenwi ....102

Ffigur 4.26: Gwersi a ddysgwyd am gyflawni canlyniadau trwy gydweithio ....103

Ffigur 4.27: I ba raddau gallai'r dysgu fod o ddefnydd bartneriaethau/brosiectau a Llywodraeth Cymru ....104

Ffigur 4.28: Dulliau a ffafrir ar gyfer rhannu dysgu yn y dyfodol ....105

Ffigur 4.29: Agweddau ar brosiectau sy'n addas i'w hestyn yn ehangach....106

Ffigur 4.30: Rôl Llywodraeth Cymru ....107

Ffigur 4.31: Rôl Llywodraeth Cymru ....108

Ffigur 4.32: Rôl Llywodraeth Cymru ....108

## Geirfa

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Ychwanegedd | I ba raddau mae rhywbeth yn digwydd o ganlyniad i ymyrraeth na fuasai'n digwydd heb yr ymyrraeth honno |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| ESF-LSB | Prosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| LSB | Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| Meta-ddadansoddiad | Dull o gyfuno canfyddiadau un neu fwy o astudiaethau |
| CNPT | Castell-nedd Port Talbot (awdurdod lleol) |
| RhCT | Rhondda Cynon Taf (awdurdod lleol) |
| ToC | Damcaniaeth Newid |
| WCVA | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| WLGA | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

1. Yr adroddiad crynodol terfynol hwn yw trydydd prif allbwn gwerthusiad tair blynedd (2012-2015) o Brosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol ESF (o hyn allan Prosiect ESF-LSB) a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[1]. Ariannwyd Prosiect ESF-LSB o dan Flaenoriaeth Pedwar, Thema 1 o Raglen Weithrediadol Cydgyfeiriant ESF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n ceisio gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus trwy weithio'n fwy effeithiol ar y cyd a thrwy feithrin gallu gwasanaethau cyhoeddus i gyflenwi gwasanaethau o ansawdd uwch. Rhoddwyd y gwerthusiad ar waith er mwyn asesu:


   - a yw Prosiect ESF-LSB wedi arwain at well gwasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau i ddinasyddion;
   - sut mae'r prosesau a ddefnyddiwyd i weithredu a rheoli'r Prosiect wedi cyfrannu at y canlyniadau hyn;
   - a yw'r Prosiect wedi cyfleu a lledaenu dysgu o'r prosiectau cyflenwi, a sut, ar lefel genedlaethol a lleol; a
   - sut mae'r Prosiect wedi gwella'r broses o integreiddio'r trydydd sector a Byrddau Gwasanaethau Lleol, a yw hynny wedi arwain at well gwasanaethau a chanlyniadau, ac a yw'r cynnydd hwnnw'n gynaliadwy.

2. Defnyddiodd y gwerthusiad fframwaith damcaniaethol, fel y dangosir isod. Yn sgîl hynny roedd modd i ni ganfod a chyfuno tystiolaeth o wahanol fathau o brosiectau cyflenwi mewn modd oedd yn ein galluogi i gynnal asesiad cyffredinol o ganlyniadau'r Prosiect ESF-LSB a sut mae'r prosesau wedi cyfrannu atynt. Bu'r fframwaith hefyd yn llywio patrwm yr holl offerynnau ymchwil, fel bod modd gofyn cwestiynau ynghylch pwysigrwydd ffactorau cyd-destunol, gwahanol weithgareddau, i ba raddau mae capasiti a gallu i gydweithio yn bwysig, sut mae dysgu'n cael ei ledaenu, a gynhyrchir newid

[1] Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad gwerthuso ffurfiannol interim ym mis Mehefin 2014, a dilynwyd hynny gan adroddiad ffurfiannol terfynol ym mis Ionawr 2015, ochr yn ochr ag atodiad oedd yn cynnwys astudiaethau achos manwl o saith prosiect cyflenwi.

sefydliadol ac i wasanaethau, a sut mae hynny'n creu canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth – ac o bosib i'r gymuned ehangach.

**Fframwaith Gwerthuso Prosiect ESF-LSB**




3. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys cyfnod ffurfiannol a chrynodol. Roedd methodoleg cyfnod ffurfiannol y gwerthusiad yn cynnwys y canlynol:

- adolygiad o'r llenyddiaeth a datblygu'r fframwaith damcaniaethol;
- cyfweliadau rhychwantu gyda'r holl brosiectau cyflenwi;
- dau gylch o gyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol;
- gwaelodlin ar gyfer Arolwg dwy don Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru-gyfan ar gydweithio:
- astudiaethau achos manwl o saith prosiect cyflenwi; a
- dadansoddiad o'r trafodaethau mewn tri digwyddiad dysgu.

4. Cyflwynwyd canfyddiadau'r cyfnod hwn yn yr Adroddiad Ffurfiannol Terfynol (Llywodraeth Cymru 2015) ac maent wedi'u crynhoi ym Mhennod 2 o'r adroddiad crynodol hwn.

5. Nod cyfnod crynodol y gwerthusiad oedd darparu asesiad cyffredinol er mwyn canfod a gyflawnwyd canlyniadau'r Prosiect ESF-LSB, a sut. Bwriad methodoleg y cyfnod hwn oedd ein galluogi i adeiladu ar ganfyddiadau'r Adroddiad Ffurfiannol Terfynol, ac roedd yn cynnwys y canlynol:
   - dadansoddiad eilaidd o ddangosyddion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) oedd yn darlunio data allbwn o'r holl brosiectau cyflenwi;
   - adolygiad o'r dystiolaeth ynghylch sut mae'r Prosiect wedi cyfrannu at themâu polisi trawsbynciol (cydraddoldeb, craffu a chynaliadwyedd amgylcheddol);
   - meta-ddadansoddiad o ddeunydd gwerthuso o sampl o 17 prosiect cyflenwi. Roedd hyn yn tynnu ar adroddiadau gwerthuso lleol ac adroddiadau terfynu a gynhyrchwyd gan y prosiectau cyflenwi i ychwanegu mewnwelediad i ganfyddiadau'r dadansoddiad thematig o'r astudiaethau achos, fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad ffurfiannol;
   - cynhyrchu set o 'bortreadau arfer da' a dynnwyd o'r meta-ddadansoddiad. Mae'r rhain yn cwmpasu themâu 'cyfraniad y trydydd sector', 'rôl rheolwr y prosiect' ac 'etifeddiaeth', yn ogystal â chyflenwi canlyniadau dau brosiect; ac
   - ail don Arolwg Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru-gyfan ar gydweithio. Anfonwyd yr arolwg hwn at uwch-reolwyr ar draws holl wasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, iechyd, yr heddlu, tân ac achub, Cymunedau yn Gyntaf a'r trydydd sector. Daeth cyfanswm o 312 o ymatebion i'r arolwg i law – cyfradd ymateb o 25%.

**Cynnydd ac allbynnau'r Prosiect**

6. Yn sgîl canfyddiadau'r gwerthusiad ffurfiannol, daethom i'r casgliad bod cryn bellter i'w deithio cyn y byddem ni'n gallu asesu a oedd Prosiect ESF-LSB wedi arwain at well gwasanaethau cyhoeddus a gwell canlyniadau i ddinasyddion (er bod rhai prosiectau cyflenwi enghreifftiol), ac roedd cwestiynau ynghylch a fyddai'n bosibl arddangos y canlyniadau hyn.
7. Darganfuwyd hefyd fod angen i fwyafrif y prosiectau cyflenwi wella'u cydweithio – trwy wella'r capasiti i gydweithio a newid sefydliadol – cyn gallu cyflenwi'r math o welliannau i wasanaethau cyhoeddus a fyddai'n arwain at well

canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Roedd hyn yn codi cwestiynau ynghylch a fyddai modd cyflawni'r rhain o fewn oes y prosiectau cyflenwi oedd yn cael eu hariannu.

8. Amlygodd ein detholiad o saith astudiaeth achos rai patrymau cyffredin o ran effeithiau, prosesau (gan gynnwys ffactorau galluogi a rhwystrau i gyflawni effeithiau) a dysgu. Defnyddiwyd y rhain i nodi saith thema graidd yn brif benderfynyddion ar gyfer asesu a oedd prosiect yn gwneud cynnydd o ran cydweithio a chyflawni canlyniadau gwasanaeth a/neu broses, sef: natur y cydweithio; safle'r Prosiect mewn sefydliad; rôl rheolwr y prosiect; sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu; arweinyddiaeth a rôl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol; pennu canlyniadau uchelgeisiol ac ymarferol; a chynaliadwyedd y Prosiect.

9. Roedd yr un ffactorau yn berthnasol i alluogi dysgu o fewn a rhwng prosiectau ynghylch 'beth sy'n llwyddo' wrth gyflawni canlyniadau.

10. Roedd rôl y trydydd sector a'i integreiddio i'w weld yn bennaf yn y prosiectau cyflenwi a oedd naill ai'n cael eu harwain gan y trydydd sector a/neu oedd yn dibynnu'n drwm ar y trydydd sector. Nid oedd fawr ddim tystiolaeth bod y trydydd sector yn chwarae rhan lawn yn y broses o lunio gwasanaethau cydweithredol yn ogystal â chyflenwi.

11. Er bod y prosiectau cyflenwi, mewn rhai achosion yn profi dulliau gweithredu arloesol wrth gyflenwi gwasanaeth penodol, ac yn rhannu hynny trwy ddysgu dealledig ac ad hoc o fewn a rhwng prosiectau, nid oedd hynny'n cael ei ledaenu'n systematig ar draws Cymru gan y prosiectau eu hunain, na chan Lywodraeth Cymru.

12. Defnyddiwyd y canfyddiadau hyn i greu cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid eu hystyried er mwyn ymdrin â'r materion hyn mewn modd oedd yn mwyafu ac yn lledaenu'r dysgu o'r Prosiect. Buom hefyd yn eu defnyddio i lywio cyfnod crynodol y gwerthusiad.

13. Defnyddiodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) bedwar dangosydd i asesu llwyddiant y Prosiect – nifer y mentrau lledaenu; cytundebau cydweithio rhwng cyrff gwasanaethau cyhoeddus; y lleoliadau ar secondiad a ddarparwyd; a'r strategaethau dysgu a datblygu sefydliadol a gynhyrchwyd.

14. Dengys ein dadansoddiad fod y prosiectau, o'u crynhoi, wedi cyflawni eu targedau yn y pedwar dangosydd. Mewn dau achos (mentrau lledaenu a dysgu

a datblygu sefydliadol), mae'r cyfansymiau a gyflawnwyd dros bum gwaith yn fwy na'r targed. Syniad y secondiadau oedd caniatáu croesffrwythloni syniadau ar draws y sector cyhoeddus a meithrin profiad rheolwyr prosiect (at y dyfodol). Oherwydd y drafferth a gafwyd yn recriwtio rheolwyr prosiect, bu oedi (mawr) wrth gychwyn mwyafrif y prosiectau.

15. Mae nifer o broblemau gyda dangosyddion WEFO sy'n effeithio ar eu defnyddioldeb. Yn gyntaf, oherwydd mai gweithgareddau ac allbynnau yw'r dangosyddion, nid yw'n eglur a ydynt yn gysylltiedig â'r canlyniadau arfaethedig neu'n cyfrannu atynt, na sut mae hynny'n digwydd. Yn ail, mae anawsterau wrth ddiffinio a mesur dangosyddion WEFO. Yn drydydd, mae'r dangosyddion yn cael eu crynhoi ar gyfer datganiadau ESF, ond collir peth o'r ystyr os nad edrychir ar berfformiad o fewn a rhwng prosiectau unigol. Yn bedwerydd, mae'n bwysig bod ffocws ar fwy na'r rhifau. Mae'n bosibl bod un prosiect wedi cyflenwi llawer iawn o fentrau lledaenu, ond gallai nifer y digwyddiadau fod yn llai pwysig ac effeithiol nag un fenter a luniwyd yn ofalus mewn prosiect arall. Yn bumed, gallai fod rhai enghreifftiau o 'arfer da' wedi'u darparu yn dystiolaeth o gyrraedd targedau yn yr adroddiadau terfynu, ond nid yw'r rheiny wedi cael eu distyllu na'u rhannu. Yn olaf, er bod amrywiaeth y prosiectau wedi cynhyrchu amrywiaeth o wahanol ganlyniadau, collodd WEFO gyfle drwy beidio â cheisio llunio dangosyddion a fyddai'n mesur y canlyniadau mwy generig neu lefel uchel drwy ddefnyddio adborth gan y rhai y cafodd y prosiectau effaith arnynt.

16. Amlinellodd Llywodraeth Cymru nifer o themâu trawsbynciol (neu generig) sy'n gyffredin i bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol, a lle roedd angen dull gweithredu cyson i sbarduno gwelliant. Y themâu dan sylw oedd: ymgysylltu â dinasyddion; craffu; cydraddoldebau; a datblygu cynaliadwy. Roedd cryn dipyn o drafod rhethregol ar y themâu trawsbynciol yn y cynnig am arian gan yr UE ac yn y cynigion ariannu gan brosiectau cyflenwi, ond ni ddaeth y rhain i'r amlwg fel themâu arwyddocaol.

17. Bu Llywodraeth Cymru'n holi ynghylch y materion trawsbynciol hyn yn eu hymweliadau â phrosiectau, ond ymddangosai fod pwyslais ar sicrhau bod polisïau allweddol yn eu lle at ddibenion archwilio, e.e. asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Gan fod y rhain yn allbynnau, roedd modd eu mesur. Yn achos mwyafrif y Byrddau Gwasanaethau Lleol, fodd bynnag, roedd hynny'n rhan o'u

‘gwaith arferol’, a chan eu bod eisoes yn gwneud y pethau hyn, nid oedd fawr ddim ‘gwerth ychwanegol’, os o gwbl.

**Meta-ddadansoddiad ac enghreifftiau o arfer da**

18. Defnyddiwyd y meta-ddadansoddiad o werthusiadau lleol ac adroddiadau eraill gan 17 o brosiectau cyflenwi i nodi’r themâu neu’r ffactorau allweddol sy’n effeithio ar lwyddiant prosiectau cyflenwi i gyflawni eu nodau a’r canlyniadau a ddymunir. Dyma oedd ein canfyddiadau yn y cyswllt hwn:
    - rôl, sgiliau a chapasiti rheolwr y prosiect;
    - a oes partneriaethau cydweithio’n bodoli eisoes;
    - ymgysylltiad gweithredol yr holl sefydliadau partner;
    - ymwneud staff ar bob lefel, ac o wahanol rolau;
    - ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth trwy gyd-gynhyrchu ac adborth;
    - nodau prosiect clir wedi’u cysylltu â rhesymeg dros gydweithio;
    - meddu ar ganlyniadau uchelgeisiol, ymarferol a mesuradwy; a
    - chynllun etifeddiaeth wedi’i ariannu, i gynnal cynnydd a chanlyniadau.
19. Pan fu’r ffactorau llwyddiant hyn yn eu lle, maent wedi helpu prosiectau i oresgyn nifer o heriau allanol a amlygwyd fel rhwystrau i gynnydd gan werthusiadau prosiect ac adroddiadau terfynu.
20. Nododd y meta-ddadansoddiad rai themâu cyffredin sydd o bosib wedi lleihau cynnydd prosiectau neu gyfyngu ar eu cyfleoedd i gyflawni rhai o amcanion allweddol Prosiect Datblygu a Blaenoriaeth Cyflenwi ESF-LSB. Y gyntaf o’r rhain oedd diffyg arweinyddiaeth strategol mewn llawer o brosiectau, gan gynnwys oddi mewn i’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae hyn yn eironig, o ystyried ffocws y Prosiect ar feithrin gallu i gydweithio. Mae hefyd yn debygol o effeithio ar allu Byrddau Gwasanaethau Lleol i ddysgu o arfer da, ei wreiddio a’i efelychu yn sgîl dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd gan y prosiectau.
21. Yn ail, dysgwyd nad oedd y trydydd sector wedi ymwneud â phrosiectau i’r graddau a ragwelwyd yn wreiddiol naill ai gan Lywodraeth Cymru a WCVA, na chan y prosiectau eu hunain.
22. Dangosodd y meta-ddadansoddiad, er bod y prosiectau wedi ymgysylltu â dysgu, bod hynny wedi digwydd yn bennaf trwy rannu gwybodaeth a

dealltwriaeth o'r prosiect mewn modd anffurfiol, dealledig, oddi mewn i dîm y prosiect. Ni chafwyd fawr ddim tystiolaeth o ymdrechion i rannu dysgu gydag ardaloedd eraill neu randdeiliaid cenedlaethol, ac eithrio lle hwyluswyd hynny gan Lywodraeth Cymru. Mewn achosion lle roedd prosiectau neu Fyrddau Gwasanaethau Lleol wedi sbarduno cyfleoedd strwythuredig i rannu dysgu am eu prosiectau yn eu hardaloedd neu eu rhanbarthau lleol, ymddangosai fod hynny wedi helpu i gynllunio etifeddiaeth a fyddai'n cynnal y prosiect a/neu'n gwreiddio'i ddull gweithredu fel 'gwaith arferol'.

**Arolwg Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan**

23. Mae canlyniadau'r arolwg wedi ein galluogi i archwilio sut mae prosiectau cyflenwi ESF-LSB wedi newid dros gyfnod o ddwy flynedd, a sut maen nhw'n cymharu â 'phartneriaethau eraill'.
24. At ei gilydd, barnwyd bod rheolwyr prosiect yn cyflawni eu rôl yn effeithiol, yn arbennig o ran sicrhau bod partneriaid yn parhau'n ymroddedig i'r prosiect ac annog y Prosiect i ystyried syniadau newydd.
25. Teimlai'r cyfranogwyr eu bod wedi dysgu nifer o wersi ynghylch cyflawni canlyniadau trwy gydweithio. Y gwersi mwyaf cyffredin a ddysgwyd oedd 'pwysigrwydd rhannu nodau/cynllun prosiect clir' a 'phwysigrwydd cyfathrebu rheolaidd/rhannu arfer da'.
26. O ran ymddygiad, adroddwyd bod mwy o ymddiriedaeth rhwng aelodau o brosiectau cyflenwi ESF-LSB nag mewn partneriaethau eraill. Mae tystiolaeth o fodel gweithredu mwy cydweithrediadol oddi mewn i'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB na'r partneriaethau eraill, gan eu bod yn dangos lefelau sylweddol uwch o gytundeb bod gan y Prosiect hanes da o 'Gael hyd i atebion i broblemau sy'n wynebu'r ardal', 'rhannu adnoddau' neu 'grynhoi cyllid'.
27. Ymddangosai fod lefel yr integreiddio ymhlith prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn uwch nag ymhlith partneriaethau eraill. Cafwyd y lefel uchaf o gytundeb yng nghyswllt rhannu gwybodaeth (62% o brosiectau cyflenwi ESF-LSB a 43% o bartneriaethau eraill), ond cam cyntaf yn unig yw hyn at integreiddio, ac roedd y lefelau'n is na 50% ar gyfer yr agweddau eraill ar integreiddio, megis datblygu prosesau newydd i gyfuno gwasanaethau neu weithrediadau, neu gyflwyno mecanweithiau rhannu atebolrwydd.

28. Gwelwyd awdurdodau lleol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill fel aelodau allweddol o’r prosiect; bernid hefyd yn gyffredinol eu bod wedi cael amser i ymgysylltu’n llawn â’r Prosiect. Gwelid cyrff trydydd sector, cynrychiolwyr cymunedol a chyrff sector preifat fel rhai llai tebygol o fedru ymgysylltu’n llawn neu gael eu hystyried yn aelodau allweddol o’r prosiect, a hynny er gwaethaf y ffaith mai un o nodau allweddol cyllid ESF oedd cynyddu’r cydweithio â’r trydydd sector.

29. Y prif rwystrau i ddysgu a newid yn y prosiectau oedd gwahanol ddiwylliannau’r sefydliadau (61%), gyda diffyg amser yn dilyn (48%) ac wedyn methu â gwybod ble mae cael hyd i’r wybodaeth (26%). Y ffactorau a gyfrannodd fwyaf at ddysgu a newid oedd rhannu enghreifftiau o arfer da (74%), arweinyddiaeth reoli (63%), data seiliedig ar dystiolaeth (61%) a gwerthuso (61%).

30. Traean yn unig o’r prosiectau cyflenwi ESF-LSB oedd yn cytuno’n bendant bod tîm cenedlaethol ESF-LSB yn dda am ledaenu arfer da (34%). Mae’r ffaith bod y prosiectau bellach wedi dod i ben yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru (a’r prosiectau eu hunain) wedi colli cyfle i ledaenu’r dysgu.

31. O ran prosesau cydweithredol a chanlyniadau, sgoriodd prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn fwy cadarnhaol na phartneriaethau o ran llwyddiant i ‘rannu gwybodaeth' (66% o’i gymharu â 46%), 'cyfuno sgiliau ac adnoddau gwahanol sefydliadau' (61% o’i gymharu â 40%), 'ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid' (51% o’i gymharu â 35%), 'cael hyd i atebion newydd i’r problemau sy’n wynebu’r ardal' (45% o’i gymharu â 33%) a 'chyflenwi gwasanaethau mwy cydlynus' (44% o’i gymharu â 31%). Gwelid y prosiectau cyflenwi hefyd fel rhai mwy tebygol na phartneriaethau eraill o lwyddo i gyflawni rhai neu’r cyfan o’r elfennau a nodwyd fel blaenoriaethau pwysig i’w prosiectau.

32. Yn gyffredinol, ymddangosai nad oedd prosiectau cyflenwi ESF-LSB wedi cael y gefnogaeth a ddymunid. Roedd ychydig dros hanner cyfranogwyr prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn cytuno’n bendant bod eu Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi cefnogi’r Prosiect. Gan fod y prosiectau’n canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth allweddol i’r BGLl, roeddem yn disgwyl y buasai lefel uwch o gytundeb ynghylch y gefnogaeth a gafwyd.

33. O ran cynaliadwyedd, adroddodd bron saith o bob 10 (68%) cyfranogwr mewn prosiect cyflenwi ESF-LSB fod o leiaf rai elfennau o’r Prosiect wedi parhau;

ymatebodd 16% fod y Prosiect wedi parhau fel yr oedd, ac adroddodd 52% fod elfennau o'r Prosiect wedi parhau. Roedd y cyfranogwyr yn fwyaf tebygol o gytuno bod y cyllid wedi galluogi partneriaid i gyflawni canlyniadau yn gynt nag y buasai'n bosibl heb gyllid, cyflawni canlyniadau na fuasent yn bosibl o gwbl heb gyllid (ychwanegedd) a gwella'r ymddiriedaeth a'r ddealltwriaeth rhwng partneriaid wrth gyflenwi ar y cyd (roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cytuno'n bendant â phob un o'r cyflawniadau hyn). Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu barn 82 o gyfranogwyr prosiect cyflenwi ESF-LSB, oedd yn cwmpasu 32 o wahanol brosiectau.

**Casgliadau ac argymhellion**

34. Rydym wedi strwythuro ein casgliadau yn unol â phedwar nod y Prosiect. Dilynir y rhain gan grynodeb o'n hargymhellion, sy'n dangos y prif feysydd lle rydym ni'n teimlo gallai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ddylanwadu ar welliannau. Mae argymhellion manwl i'w gweld ym Mhennod 5 o'r adroddiad hwn.

*Gwell gwasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau i ddinasyddion*

35. Mae'r dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg ers i'r prosiectau cyflenwi ddod i ben yn dangos, er bod prosesau wedi'u rhoi ar waith a bod allbynnau wedi'u cyflawni, ei bod hi'n dal yn anodd asesu'r canlyniadau o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth.
36. Roedd ymatebwyr prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn fwy tebygol o gytuno eu bod wedi cyflenwi eu nodau na'u cymheiriaid o bartneriaethau eraill. Roedd llawer o'r nodau hyn, fodd bynnag, yn brosesau (rhannu gwybodaeth, ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ac ati), yn hytrach na chanlyniadau. Traean yn unig o'r ymatebwyr yn 2015 oedd yn cytuno'n bendant bod eu prosiect wedi 'cyflenwi gwasanaethau gwell'.
37. Ceisiodd Llywodraeth Cymru sicrhau bod prosiectau'n datblygu fframweithiau gwerthuso lleol, fel eu bod yn deall sut bu gweithgareddau'n arwain at allbynnau a chanlyniadau, ond roedd y defnydd o fethodolegau o'r fath yn anghyson.

38. Roedd nifer fawr o brosiectau'n cael trafferth llunio a phennu dulliau o fesur canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a/neu'r boblogaeth ehangach. Ychydig iawn o ddangosyddion canlyniadau ariannol neu arbedion effeithlonrwydd a bennwyd gan brosiectau, a hyd yn oed mewn prosiectau lle roedd yn ymarferol bosibl casglu adborth gan ddefnyddwyr ynghylch effaith newidiadau, ni feddyliwyd yn ddigonol ynghylch casglu data na neilltuo digon o amser i wneud hynny.

39. Bu'n anodd, felly, i werthuswyr, ar lefel prosiect a strategol, asesu 'llwyddiant' cymharol prosiectau lle na phennwyd canlyniadau realistig a mesurau cysylltiedig.

40. Rydym yn cydnabod y gall materion amseru a phriodoli achosi anawsterau wrth ganfod newid yn y canlyniadau i ddinasyddion. Fodd bynnag, er na ddaw effaith rhai prosiectau i'r amlwg ond yn y dyfodol o bosib, yn achos mwyafrif y prosiectau, bu digon o amser i asesu'r effaith, ond nid oes tystiolaeth ddigonol ar gael i weld a fu cyflawniadau o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth.

41. Yn hytrach, ymddangosai mai'r prif rwystrau oedd yn llesteirio canlyniadau i ddinasyddion oedd lefel arloesedd y prosiectau cyflenwi, a oeddent yn alluog i sbarduno newid systemau, ac a oedd yr arweinyddiaeth reoli a gwleidyddol uwch angenrheidiol ar waith, fel bod y prosiectau cyflenwi'n cael proffil a statws digon uchel, ac er mwyn eu galw i gyfrif am gyflawni canlyniadau.

42. Mae ein gwerthusiad crynodol yn dod i'r casgliad cyffredinol mai canlyniadau proses a gyflawnwyd yn bennaf (yn hytrach na chanlyniadau gwasanaeth/dinesydd). Gydag ambell eithriad amlwg, nid oes fawr ddim tystiolaeth o'r mwyafrif o brosiectau bod gwell prosesau wedi arwain at well canlyniadau i'r cyhoedd.

*Prosesau gweithredu a rheoli*

43. Dangosodd arolygon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan fod ymatebwyr prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn llawer mwy cadarnhaol na'r rhai o bartneriaethau eraill ynghylch amrywiaeth o brosiectau cydweithredol megis 'cyfuno sgiliau ac adnoddau gwahanol sefydliadau', 'cael hyd i atebion newydd i'r problemau sy'n wynebu'r ardal' a 'chyflenwi gwasanaethau mwy cydlynus'. Roeddent hefyd yn arddangos lefelau uwch o gydweithio ariannol, megis

rhannu adnoddau a chrynhoi cyllid, sy'n argoeli'n dda o safbwynt gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol os bydd cyllidebau'n parhau i grebachu.

44. Mae'r holl dystiolaeth ynghylch rôl rheolwyr prosiect yn gadarnhaol. Buont yn defnyddio sgiliau generig meithrin perthynas (e.e. sgiliau cyfathrebu a chyd-drafod) yn ogystal â sgiliau rheoli prosiect. Y mae pryder, fodd bynnag, ynghylch a oedd gan reolwyr prosiect, ar eu pennau eu hunain, ddylanwad digonol i sicrhau bod pethau'n cael eu cyflawni, yn enwedig yn absenoldeb arweiniad strategol, fel y trafodwyd uchod.

45. O ystyried yr adnoddau a fuddsoddwyd yn y rheolwyr prosiect, ymddengys na wnaed ymdrech ddigonol i ddatblygu'r unigolion hyn i'r eithaf. Er bod y prosiectau rhanbarthol, a oedd yn derbyn cyllid gan WLGA yn ogystal ag ESF, yn gallu cyrchu digwyddiadau hyfforddiant WLGA sydd wedi'u cyfeirio'n benodol at wella sgiliau rheolwyr prosiect yng nghyswllt cydweithredu, nid ydym yn gwybod i ba raddau mae'r sgiliau hyn wedi cael eu cadw a'u defnyddio gan awdurdodau lleol a BGLlau ar ôl i'r prosiectau cyflenwi a ariannwyd gan ESF ddod i ben.

46. Er bod rhaid i'r prosiectau gynhyrchu adroddiadau blynyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid oedd bob amser yn glir sut roedd perfformiad y prosiectau'n cael ei alw i gyfrif. Nid oedd rôl craffu wedi'i gwreiddio yn systemau atebolrwydd prosiectau cyflenwi, ac roedd yr hyn a ddarparwyd gan y BGLl yn ddarniog.

*Dysgu o'r prosiectau cyflenwi*

47. Dangosodd arolwg Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan fod modd trosglwyddo'r dysgu o brofiadau prosiectau cyflenwi o gydweithio i amrywiaeth o gyd-destunau a lleoliadau sefydliadol. Mae'r rhain yn cynnwys Llywodraeth Cymru – o ran pennu cyfeiriad a llunio polisi ynghylch gweithio ar y cyd o fewn y sector – ac i bartneriaethau eraill lleol yn ardal neu ranbarth yr un awdurdod lleol yn ogystal ag yn ehangach.

48. Y prif rwystrau i ddysgu a newid yr adroddodd y prosiectau cyflenwi amdanynt oedd 'gwahanol ddiwylliannau sefydliadol' a diffyg amser. Y dulliau o rannu gwybodaeth oedd yn cael eu ffafrio yn y dyfodol oedd digwyddiadau dysgu rhanbarthol, wedi'u dilyn gan gylchlythyr neu grynodeb e-bost.

49. Mae'r ymatebion hyn yn codi cwestiynau ynghylch gwahanol ffyrdd o ddeall 'dysgu' a 'lledaenu'. Er y gall yr olaf fod yn weithgaredd a luniwyd i rannu'r dysgu ynghylch prosiect, nid oes gwarant bod cyfranogwyr yn dysgu o brosiectau eraill mewn modd sy'n eu helpu i ddefnyddio'r wybodaeth hon mewn cyd-destunau eraill.

50. Mae'r dystiolaeth ynghylch dysgu yn codi cwestiwn ynghylch pwy sy'n derbyn cyfrifoldeb – neu pwy ddylai fod yn gwneud hynny – ac yn rhoi arweiniad o ran rhannu'r dysgu. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod arweinyddiaeth gref, gydag awdurdod a hygrededd i ymgysylltu â phartneriaid a'u sbarduno i weithredu, yn hollbwysig er mwyn hwyluso'r dysgu o fewn a rhwng ardaloedd lleol *ac i* drosglwyddo gwybodaeth am gydweithio i Lywodraeth Cymru.

51. Heb yr arweiniad penodol hwn, mae'r gwerthusiad yn awgrymu y bydd llawer o'r dysgu sy'n digwydd ynghylch cydweithio er mwyn cyflawni canlyniadau yn digwydd mewn modd ad hoc, dealledig, a all fod yn broses hwylus, naturiol, ond mae'n fregus oherwydd ei fod yn dibynnu ar unigolion, yn annhebygol o fod ar gael yn ehangach i brosiectau eraill a gweithwyr proffesiynol, ac mae'n bosib na chaiff ei gynnal.

52. Mae angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o bwyslais ar ddysgu a rhannu arfer da ym maes gwasanaethau cyhoeddus, ond mae cyfrifoldeb hefyd ar y rhai sy'n derbyn cyllid i rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu gydag eraill.

*Integreiddio'r trydydd sector a Byrddau Gwasanaethau Lleol*

53. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw cyllid ESF-LSB na chyllid Creu'r Cysylltiadau wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran gwella perthynas BGLl gyda'r trydydd sector trwy gydweithio ar brosiectau penodol. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pa mor ddylanwadol yw cynrychiolwyr trydydd sector ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol, yn arbennig gan i ganfyddiadau'r arolwg ddangos bod llai na hanner y prosiectau cyflenwi'n cytuno bod y trydydd sector yn aelod allweddol o'u partneriaeth a/neu'n meddu ar y gallu i ymgysylltu â'r bartneriaeth.

54. Mae'r meta-ddadansoddiad yn bwrw goleuni ar y pwynt hwn ac yn awgrymu nad yw'r Prosiect wedi arwain at well ymwneud ag integreiddio o ran y trydydd sector ond yn yr ychydig brosiectau cyflenwi a oedd naill ai wedi'u harwain gan y trydydd sector a/neu'n dibynnu'n helaeth ar y trydydd sector i'w cyflenwi.

55. Er mai'r bwriad oedd bod y trydydd sector lleol yn chwarae rhan lawn yn y broses o lunio gwasanaethau cydweithredol – yn ogystal â'u cyflenwi – nid yw hynny wedi bod yn digwydd cymaint ag y dylasai ar draws y Prosiect.

56. Cadarnheir y casgliad mai ychydig o gynnydd a welwyd, a bod ymwneud effeithiol y trydydd sector â BGLl a phrosiectau cyflenwi yn ystod cyfnod ariannu'r ESF o bosib wedi gwaethygu i ryw raddau, gan werthusiad Creu'r Cysylltiadau.

57. Ymhlith y rhesymau posibl am y sefyllfa hon mae meddylfryd oddi mewn i rai gwasanaethau statudol nad yw'n gweld rôl ddylunio a chynllunio strategol i'r trydydd sector, ac nad yw'n ystyried cynnwys y sector ond pan fydd ganddo ran amlwg i'w chwarae yn y broses o gyflenwi gwasanaeth. Mynegodd rhai prosiectau bryderon hefyd ynghylch gallu'r trydydd sector i ymgysylltu â phartneriaethau lleol.

58. O ystyried bod Creu'r Cysylltiadau wedi cael ei gynnal ochr yn ochr â'r Prosiect ESF-LSB i gynyddu capasiti'r trydydd sector yn hyn o beth, mae awgrym yma bod angen dysgu mwy am y diffyg cynnydd o ran integreiddio'r trydydd sector a'i gynnwys wrth wella gwasanaethau cyhoeddus, ac ystyried dulliau mwy radical o ymdrin â'r blaenoriaeth polisi hwn.

*Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:*

- **Gwella prosesau asesu ceisiadau** trwy wneud y canlynol:
  - cyflwyno her a thrylwyredd yn gynnar iawn
  - rhoi mwy o bwyslais ar werthuso'r prosiect a chymhellion i wneud hynny
  - cefnogi prosiectau i ddiffinio nodau a phennu dangosyddion a chanlyniadau
  - amlinellu meini prawf clir ar gyfer arloesedd a newid systemau
  - rhoi mecanweithiau ar waith sy'n golygu bod gofyn i brosiectau rannu canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru a phrosiectau eraill.
- **Bod yn realistig** yn yr ystyr nad yw rhai prosiectau wedi'u sefydlu i gael effaith uniongyrchol ar ddefnyddwyr gwasanaeth ac y gallai eraill fethu
- **Ystyried dylunio a datblygu rhaglen strwythuredig i feithrin capasiti gwerthuso a dadansoddi** pob Bwrdd Gwasanaethau Lleol/Bwrdd

Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn gwella'u ffocws ar bennu ac arddangos canlyniadau a defnyddio tystiolaeth ansoddol.

- Mynnu bod y **gweithdrefnau llywodraethu a chraffu** ar gyfer prosiectau yn gadarn, bod y disgwyliadau ynghylch **arweinyddiaeth** yn glir, a'u bod yn cynnwys cynhyrchu a gweithredu **'cynllun etifeddiaeth'** i gynnal y cynnydd o ran canlyniadau a gwreiddio arfer da trwy ffyrdd newydd o weithio wedi i'r cyllid ddod i ben.
- Cytuno ar **raglen ddysgu a lledaenu** i annog a chymell BGLl/BGC i gefnogi prosiectau cyflenwi (a phrosiectau a mentrau cysylltiedig) a dysgu oddi wrthynt mewn modd prydlon, amserol, gan ystyried eu haddasrwydd ar gyfer ehangu i gyflenwi gwasanaeth yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol.
- Sicrhau bod 'perchnogaeth' ar bob prosiect a/neu themâu generig gan uwch **swyddogion Llywodraeth Cymru** er mwyn datblygu ac ehangu'r gwaith hyd yma i ledaenu'r dysgu am ganlyniadau a dulliau cydweithredu effeithiol ar themâu polisi penodol.
- Cipio a lledaenu'r dysgu a gynhyrchwyd yn sgîl defnyddio cyllid ESF i ddefnyddio **rheolwyr prosiect cydweithredol** yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru
- **Gweithio gyda WCVA** ac eraill i wneud y canlynol:
  - adfyfyrio ar ganfyddiadau gwerthusiadau prosiect ESF-LSB a Creu'r Cysylltiadau er mwyn tynnu allan y prif bwyntiau dysgu ynghylch cynllun a gweithrediad y rhaglenni hyn yng nghyswllt integreiddio a chynnwys y trydydd sector gyda BGLlau
  - ystyried ffyrdd newydd o annog BGLlau a'u partneriaid i wneud mwy i integreiddio'r trydydd sector wrth gyflenwi, dylunio a chynllunio gwasanaethau

*Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid:*

- Rhoi **mwy o bwyslais ar ddylunio prosiectau y gellir eu gwerthuso**, gan sicrhau bod data monitro ar gael a sicrhau darpariaeth ddigonol o adnoddau i gynnal y gwerthusiad, gan gynnwys trwy bennu canlyniadau mesuradwy a chasglu tystiolaeth ansoddol ynghylch yr effeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

- Sicrhau bod **mecanweithiau atebolrwydd clir** ar gyfer perfformiad y prosiect trwy'r broses graffu neu yn nhrefniadau adrodd y BGLl.
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu clir ar waith, gan gynnwys uwch-swyddog cyfrifol sydd â 'pherchnogaeth' ffurfiol ar y prosiect.
- **Ymdrin mewn modd strwythurol â lledaenu canlyniadau a dysgu prosiectau cyflenwi lleol** a chytuno ar sut dylid defnyddio hynny i lywio cynlluniau etifeddiaeth a chydweithio yn y dyfodol mewn meysydd gwasanaeth eraill.
- Defnyddio'r **adnodd ar-lein** presennol (sy'n cael ei letya gan WLGA, Swyddfa Archwilio Cymru ac eraill) i rannu'r dysgu a throsglwyddo gwybodaeth am sut gall cydweithio wella'r broses o gyflenwi gwasanaeth a'r canlyniadau i ddinasyddion.
- Ystyried y ffordd orau o **gynnwys y trydydd sector fel mater o drefn** ym mhob gwaith cydweithredol er mwyn ceisio gwella'r broses o gyflenwi gwasanaeth a'r canlyniadau i ddinasyddion, yn unol â'r Papur Gwyn 'Grymuso Pobl Leol'.
- Adolygu capasiti'r trydydd sector yn lleol i ymgysylltu â BGLlau a phartneriaethau eraill a gweithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) a phartneriaid eraill i gynllunio ffyrdd o gynyddu'r capasiti hwn os bydd angen.

59. Yn ogystal â'r argymhellion penodol uchod, rydym yn gwneud rhai **argymhellion trosfwaol i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid** ynghylch sut mae lledaenu a defnyddio canfyddiadau'r gwerthusiad crynodol hwn, sef:
    - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r gwerthusiad hwn, y gwerthusiad o Weithio ar y Cyd yn Rhanbarthol sydd ar waith ar hyn o bryd, a gwerthusiadau eraill perthnasol, megis Creu'r Cysylltiadau, i ganfod gwersi cyffredinol ynghylch cydweithio effeithiol a all arwain at newid systemau a chanlyniadau i'r boblogaeth. Mae cryn gyfleoedd i gyfuno'r dysgu ar draws gwahanol lifoedd ariannu, fel nad yw'r dysgu'n digwydd yn ynysig.
    - Yn unol â'i hegwyddorion ymchwil a gwerthuso, dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar sut mae am ddefnyddio canfyddiadau'r gwerthusiad hwn i helpu i sicrhau bod etifeddiaeth i'r Prosiect. Mae pwyntiau dysgu i Lywodraeth

Cymru ym mhob un o gyfnodau'r broses, o gefnogi prosiectau i lunio fframwaith gwerthuso cadarn a phennu mesurau canlyniadau er mwyn gwella sut rhennir dysgu ac arfer da o'r Prosiect. Dylid rhannu'r cyfrifoldeb am wreiddio'r gwersi hyn a gweithredu yn eu sgîl ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir y gwerthusiad

1.1 Yr adroddiad crynodol terfynol hwn yw trydydd prif allbwn gwerthusiad tair blynedd (2012-2015) o Brosiect Datblygu a Blaenoriaethau Cyflenwi Byrddau Gwasanaethau Lleol ESF (o hyn allan Prosiect ESF-LSB). Cynhyrchwyd adroddiad gwerthuso interim ffurfiannol ym mis Mehefin 2014 (Llywodraeth Cymru 2014) a dilynwyd hynny gan adroddiad ffurfiannol terfynol ym mis Ionawr 2015 (Llywodraeth Cymru 2015). Ochr yn ochr â hynny cafwyd anecs o astudiaethau achos oedd yn cynnwys astudiaethau achos manwl o saith prosiect cyflenwi.

1.2 Ariannwyd Prosiect ESF-LSB o dan Flaenoriaeth Pedwar, Thema 1 o Raglen Weithrediadol Cydgyfeiriant ESF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n ceisio gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus trwy weithio mwy effeithiol ar y cyd a meithrin capasiti gwasanaethau cyhoeddus i gyflenwi gwasanaethau o ansawdd uwch.

1.3 Nod y gwerthusiad oedd asesu:

- a yw Prosiect ESF-LSB wedi arwain at well gwasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau i ddinasyddion, a sut;
- sut mae'r prosesau a ddefnyddiwyd er mwyn rhoi'r Prosiect ar waith a'i reoli wedi cyfrannu at y canlyniadau hyn;
- a yw'r Prosiect wedi cyfathrebu a lledaenu'r dysgu o'r prosiectau cyflenwi, a sut, ar lefel genedlaethol a lleol; a
- sut mae'r Prosiect wedi gwella'r integreiddio rhwng y trydydd sector a BGLlau, a yw hynny wedi arwain at well gwasanaethau a chanlyniadau, ac a yw'r cynnydd hwnnw'n gynaliadwy[2].

1.4 Mae maint a chwmpas y Prosiect ESF-LSB yn sylweddol. Derbyniodd y Prosiect gyfanswm cyllid o £17 miliwn[3], y dyrannwyd 53% ohono i'r prosiectau cyflenwi. Dyrannwyd y 47% arall i wahanol lifoedd, a'r mwyaf arwyddocaol o'r rheiny oedd: rheoli'r Prosiect, cyfres o werthusiadau o wahanol linynnau'r

[2] Yn wreiddiol roedd y gwerthusiad wedi'i fwriadu i asesu i ba raddau roedd canlyniadau'r Prosiect ESF-LSB yn cael effaith ar y boblogaeth hefyd, ond fel y trafodir yn ddiweddarach yn y bennod hon, nid oedd hynny'n ymarferol bosibl.
[3] Yr union wariant gros terfynol ar y prosiect oedd £13,850,276.

Prosiect ac ariannu swyddogion cynnal (BGLlau, Creu'r Cysylltiadau a Chymunedau yn Gyntaf).

1.5 Roedd 38 o 'brosiectau cyflenwi', fel y'u gelwid, ar draws Cymru (mae rhestr lawn o'r prosiectau i'w gweld yn Anecs 1 i'r adroddiad hwn). Roeddent yn cwmpasu ystod eang o feysydd polisi, megis: gofal cymdeithasol a iechyd, cyflogaeth, trafnidiaeth a pheirianneg, yr amgylchedd, tai, datblygiad cymunedol a gwasanaethau cefnogi (TGCh a chyfreithiol). Daeth y prosiectau cyflenwi a ariannwyd i gyd i ben erbyn 31 Rhagfyr 2014, ar ddiwedd eu cyfnod ariannu ESF[4].

## Dyluniad a methodoleg yr ymchwil

*Fframwaith gwerthuso*

1.6 Cytunwyd mai dull gwerthuso seiliedig ar ddamcaniaeth a fyddai'n cael ei fabwysiadu, oherwydd bod hynny'n addas ar gyfer deall nid yn unig a oedd prosiect yn gweithio, ond hefyd *sut* a *pham*. Roedd bwriad i Brosiect ESF-LSB gyflawni nifer o ganlyniadau, ac roedd y math hwn o ddull gweithredu yn fodd i ni gyflwyno dilyniant rhesymegol, o gyd-destun gweithrediad y Prosiect, i'r mewnbynnau a ddefnyddiwyd i gynnal y gweithgareddau, gyda'r nod o gyflawni'r allbynnau. Os oedd yr allbynnau hynny wedi'u cynhyrchu, roedd ein damcaniaeth ni'n awgrymu y dylai hynny olygu bod canlyniadau arfaethedig y Prosiect wedi'u gwireddu.

1.7 Nod y dull gweithredu seiliedig ar ddamcaniaeth, felly, oedd modelu'r ffordd o feddwl (neu'r rhagdybiaethau) oedd yn darparu sylfaen ar gyfer y Prosiect ESF-LSB, fel bod modd i ni ganfod y dystiolaeth angenrheidiol i brofi a oedd y Prosiect yn gweithio yn y modd arfaethedig ac yn cyflawni'r canlyniadau roedd y noddwyr yn gobeithio amdanynt. Elfen bwysig oedd bod mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar ddamcaniaeth hefyd yn caniatáu i ni nodi rhagdybiaethau a wnaed ynghylch sut roedd mewnbynnau, gweithgareddau ac allbynnau'r Prosiect yn cyfrannu at ei ganlyniadau. Fel sy'n digwydd yn aml yn achos prosiectau cymunedol cymhleth, efallai na fydd y ddamcaniaeth ei hun yn dal dŵr o'i harchwilio ochr yn ochr â'r dystiolaeth wirioneddol. Ond mae edrych ar y dystiolaeth yng ngoleuni'r ddamcaniaeth yn cynhyrchu gwersi

[4] Roedd rhaid i'r prosiectau cyflenwi ddod i ben erbyn 31 Rhagfyr 2014, fel bod modd i Lywodraeth Cymru brosesu hawliadau trwy WEFO. Diwedd cyfnod ariannu ESF ar gyfer y Prosiect trosfwaol oedd Mai 2015.


pwysig ynghylch sut gall gweithrediad Prosiect yn y byd go iawn fod yn wahanol i'r gred gychwynnol ynghylch sut disgwylid iddo weithio.

1.8 I gychwyn, buom ni'n archwilio tystiolaeth o ddogfennau swyddogol, i bennu nodau ac amcanion y Prosiect ESF-LSB, cyn trafod y rheiny mewn cyfweliadau un-i-un gyda llunwyr polisi cenedlaethol. Bu adolygiad o'r llenyddiaeth hefyd yn bwydo i'r broses o ddatblygu Damcaniaeth Newid trwy ddarparu tystiolaeth o ganlyniadau tebygol gweithgareddau ar y cyd, penderfynyddion capasiti cydweithredol, a dysgu mewn rhwydweithiau gwasanaeth cyhoeddus. Ar ôl ein harfogi ein hunain â'r wybodaeth hon, aethom ati i ddechrau mapio'r holl gysylltiadau achosol posibl rhwng gwahanol rannau o'r Ddamcaniaeth Newid.

1.9 Dengys Ffigur 1.1 fframwaith gwerthuso'r Prosiect ESF-LSB. Mae'n cynnwys chwe phrif elfen.

- **Cyd-destun**: Mae'n bwysig bod y gwerthusiad yn rhoi sylw i heterogenedd prosiectau cyflenwi a'r gwahanol gyd-destunau sosio-economaidd, diwylliannol a gwleidyddol sydd iddynt. Mae'r blwch 'cyd-destun' yn cwmpasu amrywiaeth o'r cyfryw ffactorau ar lefel genedlaethol a lleol, ac yn cynnwys newidynnau sy'n gwahaniaethu rhwng gwahanol Fyrddau Gwasanaethau Lleol, e.e. meddu ar wahanol hanes a llwybrau o safbwynt gweithio mewn partneriaeth.

**Ffigur 1.1: Fframwaith Gwerthuso'r Prosiect ESF-LSB**




- **Mewnbynnau:** Mae angen i'r gwerthusiad asesu'r adnoddau (ariannol, amser, pobl) y mae eu hangen er mwyn i'r Prosiect weithio, y cyllid a ddyrannwyd i Brosiect ESF-LSB ar gyfer y prosiectau cyflenwi, a'r adnoddau a fuddsoddwyd yn lleol i roi'r prosiectau ar waith. Mae'r fframwaith polisi ac unrhyw ddeddfwriaeth newydd a bennir gan Lywodraeth Cymru hefyd yn fewnbwn sylweddol. Ymhlith y mewnbynnau eraill mae'r adnoddau y mae eu hangen i reoli'r Prosiect ar lefel genedlaethol a'r arweinyddiaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru, a all gynnwys helpu'r prosiectau cyflenwi i ddeall y gall eu prosiectau unigol gyfrannu at welliant ar raddfa genedlaethol.
- **Trwybynnau**: Mae'r rhain yn digwydd ar ddwy brif lefel:
    - Cenedlaethol – gweithgareddau fel y broses o wneud cais, yr argymhellion ynghylch cyllido gan Fwrdd Ymgynghorol ESF-LSB, y monitro chwemisol ar y prosiectau cyflenwi, a'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r prosiectau.

    - Lleol/rhanbarthol – gweithgareddau fel sefydlu trefniadau llywodraethu, creu cynlluniau prosiect, llofnodi protocolau a threfniadau cydweithio, rhwydweithio anffurfiol, lleoliadau ar secondiad, gweithgareddau lledaenu ac adrodd i Lywodraeth Cymru. Disgwylir i'r gweithgareddau hyn arwain at allbynnau, y mesurir rhai ohonynt gan ddangosyddion WEFO, fel y trafodir ym Mhennod 2.

- **Allbynnau:** Nodwyd dau brif fath o allbwn: gwelliannau o ran capasiti/gallu i gydweithio a newidiadau yn y sefydliadau a'r gwasanaethau a gyflawnwyd o ganlyniad i'r prosiectau cyflenwi. Mae'r ddau fath yn cynnwys allbynnau diriaethol (e.e. protocolau ysgrifenedig) ac allbynnau haniaethol (e.e. newid yn lefelau ymddiriedaeth). Ymhlith yr elfennau sy'n nodi capasiti i gydweithio mae:
    - protocolau cyfathrebu rhwng partneriaid y prosiect;
    - arweinyddiaeth;
    - gwerthoedd;
    - gweledigaeth (blaenoriaethau ac amcanion);
    - cydlyniad (biwrocratiaeth, dyblygu, ac ati);
    - sefydlogrwydd/trosiant staff allweddol; a'r
    - lefelau ymddiriedaeth a grewyd ymhlith partneriaid.

  Ymhlith y newidiadau gwasanaeth a sefydliadol mae:
    - symleiddio prosesau sy'n osgoi dyblygu rhwng partneriaid;
    - mwy o rannu adnoddau;
    - lefelau integreiddio gwell;
    - modelau cyflenwi gwasanaeth mwy effeithlon;
    - creu cytundebau cyfreithiol;
    - ailddylunio sefydliadol (h.y. mwy o bwyslais ar ddulliau gweithredu ataliol a darparu gwasanaethau wedi'u targedu); a
    - gwell ymgysylltiad â'r cyhoedd, yn arbennig yng nghyswllt cynnwys defnyddwyr a dinasyddion wrth ddylunio a chyflenwi gwasanaethau.
- **Canlyniadau:** Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau sy'n cyflenwi gwelliant i wasanaethau cyhoeddus, er enghraifft:
    - arbedion cost;

- gwell mynediad at wasanaethau;
  - ehangu'r gwasanaeth a ddarperir;
  - gwasanaethau sydd wedi'u targedu'n well;
  - gwasanaethau sy'n ymateb yn fwy i anghenion dinasyddion; a
  - mwy o foddhad ymhlith defnyddwyr.
- **Effeithiau:** Nid oes ffordd sicr o ynysu effaith y prosiectau cyflenwi (heb sôn am y Prosiect ESF-LSB) oddi wrth ffactorau eraill allanol neu gyd-destunol, megis ffynonellau cyllid eraill, a allai gael effaith gyfartal ar y boblogaeth leol. Ac yn fwy na hynny, mae'n bosibl na wireddir llawer o'r effeithiau arfaethedig nes bod y prosiect a ariannwyd wedi dod i ben.
- **Dysgu***:* Dysgu yw sylfaen llawer o ddyluniad y Prosiect ESF-LSB, ac felly cwestiynau allweddol ar gyfer y gwerthusiad oedd:
  - sut rhennir dysgu ac 'arfer da';
  - pa fath o randdeiliaid sy'n ymgysylltu â'r dysgu; a
  - pha effaith mae'r dysgu'n ei chael.

*Datblygu a phrofi'r Fframwaith*

1.10 Roedd patrwm y fframwaith damcaniaethol yn ymateb i ofynion gwerthusiad y Prosiect, h.y. asesu canlyniadau Prosiect ESF-LSB; edrych ar gynllunio, gweithredu a rheoli'r prosiect; asesu sut mae'r wybodaeth a gasglwyd yn cael ei chyfleu a'i lledaenu; asesu canlyniadau'r Prosiect i'r boblogaeth lle bynnag y bo modd; a gwerthuso i ba raddau mae integreiddio'r trydydd sector yn arwain at well canlyniadau.

1.11 Mae angen i unrhyw ddamcaniaeth ynghylch newid fod yn gredadwy, yn gyflawnadwy ac yn brofadwy (Connell a Kubisch, 1998). Er mwyn profi a oedd y rhagdybiaethau oedd yn darparu sylfaen ar gyfer dyluniad y Prosiect yn gwneud synnwyr ac yn ymarferol i'w defnyddio'n fframwaith ar gyfer y gwerthusiad hwn, cynhaliwyd gweithdy gyda rhanddeiliaid allweddol o dîm cenedlaethol ESF-LSB, gweision sifil eraill o Lywodraeth Cymru, ac aelodau o Grŵp Llywio ESF-LSB ym mis Ionawr 2013, i drafod eu barn a diwygio'r model. Yna buom yn cyflwyno'r fframwaith damcaniaethol drafft yn y Gweithdy Gwerthuso Prosiectau cenedlaethol ym mis Chwefror 2013.

1.12 Roedd y ddwy drafodaeth hon yn awgrymu bod angen i'r gwerthusiad cydnabod anhawster cyflenwi canlyniadau poblogaeth. Dywedwyd wrthym fod llawer o'r canlyniadau hyn yn debygol o ddigwydd ar ôl oes y prosiectau, a'u bod o ganlyniad i ffactorau ac ymyriadau lluosog, nid dim ond cyllid ESF-LSB. Yn gysylltiedig â hyn, clywsom hefyd fod angen deall yr amgylchedd cyfnewidiol y mae prosiectau cyflenwi'n gweithredu oddi mewn iddo o ganlyniad i newidiadau sefydliadol, ariannu, amgylcheddol a pholisi.

1.13 Cawsom ein hatgoffa hefyd am rôl amrywiol y trydydd sector mewn gwahanol brosiectau, yn dibynnu ar natur y prosiect a'i rôl/capasiti/berthynas â'r trydydd sector yn lleol. Ar ben hynny, cafodd Prosiect 'Creu'r Cysylltiadau', rhaglen meithrin capasiti'r trydydd sector a arweiniwyd gan WCVA, a oedd hefyd yn rhan annatod o Brosiect Datblygu a Blaenoriaeth Cyflenwi ESF-LSB ei werthuso'n annibynnol (Old Bell 3, 2015). Roedd yn bwysig peidio â dyblygu'r gwerthusiad hwn, a rhoi sylw i'w ganfyddiadau lle bynnag roedd hynny'n berthnasol i'n gwaith.

1.14 Roedd y fframwaith gwerthuso yn darparu sylfaen ar gyfer nodi a chyfuno'r dystiolaeth o wahanol fathau o brosiectau cyflenwi mewn modd sy'n caniatáu asesiad cyffredinol o ganlyniadau'r Prosiect ESF-LSB a sut mae'r prosesau wedi cyfrannu at y rhain. Mae'r fframwaith hefyd yn llywio patrwm yr holl offerynnau ymchwil, fel bod cwestiynau'n cael eu gofyn ynghylch pwysigrwydd ffactorau cyd-destunol, gwahanol weithgareddau, i ba raddau mae capasiti a gallu i gydweithio yn bwysig, sut mae'r dysgu'n cael ei ledaenu ac a gynhyrchir newid sefydliadol ac i wasanaethau.

1.15 Mae'r canfyddiadau ar sail y dystiolaeth a grynhowyd gennym yn ystod cyfnodau ffurfiannol a chrynodol y gwerthusiad wedi cael eu defnyddio i brofi'r rhagdybiaethau sy'n darparu sylfaen ar gyfer y Prosiect, a sicrhau bod yr hypotheses yn cael eu hadolygu'n barhaus.

1.16 Cynorthwywyd y broses hon trwy 'gyfuno'r' broses a'r gwerthusiad o'r canlyniadau a dyluniad ymchwil integredig, er bod y ddwy agwedd honno'n wreiddiol ar ffurf dau gontract ar wahân gan Lywodraeth Cymru.

**Tystiolaeth a Dulliau**

1.17 Nawr byddwn yn troi ein sylw at yr amrywiol ddulliau casglu data a ddefnyddiwyd yng nghyfnodau ffurfiannol a chrynodol y gwerthusiad, er mwyn archwilio'r materion hyn.

*Gwerthusiad ffurfiannol*

1.18 Roedd y fethodoleg ar gyfer cyfnod ffurfiannol y gwerthusiad yn cynnwys:

- adolygiad o'r llenyddiaeth a datblygu'r fframwaith damcaniaethol;
- cyfweliadau rhychwantu gyda'r holl brosiectau cyflenwi;
- dau gylch o gyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol;
- gwaelodlin ar gyfer Arolwg Gwasanaethau Cyhoeddus dwy don ar draws Cymru gyfan ar gydweithio:
- astudiaethau achos manwl o saith prosiect cyflenwi; a
- dadansoddiad o'r trafodaethau mewn tri digwyddiad dysgu.

1.19 Roedd cyfnod ffurfiannol y gwerthusiad hefyd yn cynnwys peth ymchwil a dadansoddi data er mwyn archwilio cynnwys posibl gwaelodlinau sosio-economaidd yr astudiaethau achos ESF-LSB. O ystyried yr anawsterau wrth gipio'r effaith ar y boblogaeth a drafodwyd uchod, lluniwyd yr ymarferiad hwn i'n galluogi i sefydlu elfennau gwrthffeithiol er mwyn asesu ychwanegedd y Prosiect ESF, gan ganolbwyntio ar y saith astudiaeth achos. Y dull arfaethedig o wneud hyn oedd trwy gymariaethau cyn/wedi a dadansoddi'r canlyniadau a gyflawnwyd gan y partneriaethau prosiectau cyflenwi o'u cymharu â'r rheiny mewn ardaloedd ehangach (anghymwys).

1.20 Dangosodd yr ymchwil fod datblygu gwaelodlinau o ddata sosio-economaidd a gyhoeddwyd yn rheolaidd ar gyfer yr amrywiol brosiectau ESF-LSB yn eitha anodd. Hyd yn oed pan fydd deunydd ystadegol ar gael sy'n ymwneud ag amcanion prosiectau ESF-LSB, mae hynny'n aml yn destun llawer o ddylanwadau amgylcheddol sy'n golygu bod adnabod ychwanegolrwydd y cyllid ESF yn broblematig. Am y rhesymau hyn roedd hi'n well ystyried llawer o'r data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd fel data cyd-destunol at ddibenion nodau prosiectau ESF-LSB.

1.21 Yn wreiddiol roeddem ni'n bwriadu defnyddio ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol, BGLlau a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) i ddatblygu cyfres o ddangosyddion proses a fyddai'n caniatáu cymharu a pheth crynhoi ar draws prosiectau, gan ganiatáu hyblygrwydd ar yr un pryd i adlewyrchu amodau lleol. Yn ymarferol, roedd yr amrywiaeth eang o ran cwmpas y prosiectau cyflenwi a'u gallu i gasglu data yn golygu na allem ddatblygu dangosyddion proses y gellid eu mesur a'u crynhoi ar draws yr holl brosiectau. Fodd bynnag, fe wnaeth ein trafodaethau lywio dangosyddion proses ansoddol ar, er enghraifft, gapasiti i gydweithio, rôl rheolwr y prosiect a'r arweinyddiaeth, a ddefnyddiwyd ar gyfer canllawiau pynciol yr astudiaethau achos (ac ar gyfer y meta-ddadansoddiad yn y gwerthusiad crynodol). Roedd hynny'n golygu bod modd cynnal dadansoddiad thematig o ffactorau llwyddiant allweddol ar draws prosiectau cyflenwi.

1.22 Fel y bwriadwyd, bu'r cyfweliadau rhychwantu gyda'r prosiectau cyflenwi, y cyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol, a datblygiad y Ddamcaniaeth Newid i gyd o gymorth i fireinio'r prif gwestiynau ymchwil ar gyfer y gwerthusiad ffurfiannol, a ddefnyddiwyd wedyn i ddatblygu'r trywyddau ymholi a'r canllawiau pynciol manwl ar gyfer yr astudiaethau achos. Dangosir y rhain yn Ffigur 1.2 isod.

**Ffigur 1.2: Y prif gwestiynau ymchwil ar gyfer y gwerthusiad ffurfiannol**

1. I ba raddau mae Prosiect ESF-LSB wedi gwella gwasanaethau, neu i ba raddau y gallai wella gwasanaethau yn y dyfodol?
    a. Os felly, pa wasanaethau, ym mha ffyrdd a sut?
2. Ym mha ffyrdd mae rheolwyr prosiect y prosiectau cyflenwi a swyddogion cymorth BGLlau yn cyfrannu at well gwasanaethau, neu sut byddan nhw'n cyfrannu at welliannau yn y dyfodol?
3. I ba raddau mae'r gwasanaethau gwell hyn wedi effeithio ar y buddiolwyr?
    a. Os felly, pwy sydd wedi elwa a sut?
4. Pa arbedion effeithlonrwydd mae bwriad i'w cyflenwi – i ba raddau maen nhw wedi'u cyflawni? Sut cawsant eu cyflawni?
5. I ba raddau mae Prosiect ESF-LSB wedi cryfhau gweithio ar y cyd – ac ym mha ffyrdd?
    a. Beth oedd y galluogwyr allweddol ar gyfer hyn?
    b. Beth oedd y rhwystrau neu'r cyfyngiadau?
6. Beth fu manteision gweithio ar y cyd?
7. Beth fu anfanteision gweithio ar y cyd?
8. I ba raddau mae Prosiect ESF-LSB wedi helpu i leihau gweithio'n ynysig:
    a. o fewn a rhwng sefydliadau ar lefel leol; ac
    b. o fewn Llywodraeth Cymru?
9. A oes mecanweithiau heblaw cydweithio ar gyfer cyflawni'r un math o ganlyniadau sy'n cael eu cyflenwi/y mae bwriad i'w cyflenwi?
10. Beth yw rôl y trydydd sector? I ba raddau – a sut – mae Prosiect ESF-LSB wedi cryfhau cyfranogiad y trydydd sector?
11. I ba raddau mae cyfranogiad cryfach y trydydd sector wedi cyfrannu at wella gwasanaethau (ac effeithio ar fuddiolwyr)?
    a. Sut gallai'r manteision a'r anfanteision amrywio?
12. Sut mae Prosiect ESF-LSB wedi rhannu dysgu ac 'arfer da'?
    a. Gyda pha randdeiliaid/gynulleidfaoedd?
    b. Pa effaith mae hyn wedi'i chael?
13. A oes elfennau o'r Prosiect ESF-LSB y gallai fod yn ddefnyddiol i eraill ddysgu oddi wrthynt?

1.23 Cyflwynir crynodeb o ganfyddiadau dadansoddi'r data hyn yn yr Adroddiad Ffurfiannol Terfynol, ym Mhennod 2 o'r adroddiad hwn.

*Gwerthusiad crynodol*

1.24 Nod cyfnod crynodol y gwerthusiad oedd darparu asesiad cyffredinol o ran a oedd canlyniadau Prosiect ESF-LSB wedi cael eu cyflawni, a sut. Lluniwyd methodoleg y cyfnod hwn i'n galluogi i adeiladu ar ganfyddiadau'r Adroddiad Ffurfiannol Terfynol, ac roedd yn cynnwys:

- dadansoddiad eilaidd o ddangosyddion WEFO, yn dangos data allbwn yr holl brosiectau cyflenwi;
- adolygu tystiolaeth ynghylch sut mae'r Prosiect wedi cyfrannu at themâu polisi trawsbynciol (cydraddoldeb, craffu a chynaliadwyedd amgylcheddol);
- meta-ddadansoddiad o ddeunydd gwerthuso o sampl o 17 prosiect cyflenwi. Roedd hyn yn tynnu ar adroddiadau gwerthuso lleol ac adroddiadau terfynu a gynhyrchwyd gan y prosiectau cyflenwi i ychwanegu mewnwelediad i ganfyddiadau'r dadansoddiad thematig o'r astudiaethau achos, fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad ffurfiannol. Dangosir prif gwestiynau ymchwil y meta-ddadansoddiad hwn yn Ffigur 1.3 isod;
- cynhyrchu set o 'bortreadau arfer da cryno', a dynnwyd o'r meta-ddadansoddiad. Mae'r rhain yn cwmpasu themâu 'ymwneud y trydydd sector', rôl rheolwr y prosiect' ac 'etifeddiaeth', yn ogystal â chyflenwi canlyniadau dau brosiect; ac
- ail don Arolwg Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfan ar gydweithio. Anfonwyd yr arolwg hwn at uwch-reolwyr ar draws holl wasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, iechyd, yr heddlu, tân ac achub, Cymunedau yn Gyntaf a'r trydydd sector. Derbyniwyd cyfanswm o 312 o ymatebion i'r arolwg – cyfradd ymateb o 25%.

**Ffigur 1.3: Y prif gwestiynau ymchwil ar gyfer meta-ddadansoddiad yn y cyfnod crynodol**

1. **Natur y cydweithio**
   - I ba raddau roedd diwylliant sefydledig o weithio ar y cyd yn yr ALl/ardal wasanaeth dan sylw?
   - Beth oedd y symbyliad wrth chwilio am arian ar gyfer y Prosiect/cydweithio?
   - Pa drefniadau llywodraethu a rheoli prosiect sydd ar waith?
2. **Diwylliant o gydweithio ac ymgysylltu**
   - Beth yw cwmpas a lefel yr ymgysylltu â chydweithio?
   - Pa mor agored yw'r cyfathrebu rhwng partneriaid? (e.e. lefel yr ymddiriedaeth, tensiwn gwleidyddol, gwrthdaro rhwng diwylliannau sefydliadol)
   - Sut mae'r Prosiect wedi gwella cydweithio?
3. **Ymwneud y Trydydd Sector**
   - Pa mor weithredol a dylanwadol fu'r trydydd sector yn ymarferol? Os bu'n llai gweithredol/dylanwadol na'r bwriad/disgwyl, beth oedd y rhesymau am y gwahaniaeth?
   - Beth fu rôl y trydydd sector yn y broses o wneud penderfyniadau strategol a/neu gyflenwi gwasanaethau gweithrediadol?
4. **Rôl Rheolwr y Prosiect**
   - Pa sgiliau ac ymddygiad mae rheolwr y prosiect wedi'u defnyddio i gydlynu/sbarduno cydweithio?
   - A yw Rheolwr y Prosiect wedi dilyn hyfforddiant/wedi derbyn cefnogaeth a sut mae hynny wedi gwella'i sgiliau o ran cydweithio?
   - A yw ef/hi wedi aros yn y sefydliad ar ôl i'r Prosiect ddod i ben?
5. **Arweinyddiaeth a rôl y BGLl**
   - Pa rolau arweinyddiaeth mae'r BGLl a'r ALl(au) wedi'u chwarae yn y Prosiect?
   - Pa rôl mae gwleidyddion wedi'i chwarae?
6. **Canlyniadau**
   - Sut pennwyd canlyniadau'r Prosiect a sut y bwriedid eu mesur?
   - I ba raddau mae'r Prosiect wedi cyflawni'r canlyniadau a ddymunid? A fu unrhyw ganlyniadau annisgwyl?
   - I ba raddau mae'r Prosiect wedi gwella prosesau a chapasiti i gydweithio/isadeiledd?
   - Oedd y Prosiect yn pennu canlyniadau uchelgeisiol ac ymarferol?
7. **Cynaliadwyedd**
   - Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y Prosiect yn parhau wedi i'r cyllid ESF ddod i ben?
   - I ba raddau mae cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol wedi effeithio ar y Prosiect (a/neu'r gweithgareddau olynu/etifeddiaeth)?
   - Pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau bod y Prosiect yn cael effaith hirhoedlog?
8. **Dysgu o'r Prosiect**
   - Beth fu'r agwedd at ddysgu/arddull ddysgu o fewn y Prosiect?
   - Beth sydd wedi helpu i rannu'r dysgu?
   - Beth sydd wedi llesteirio faint o ddysgu sy'n digwydd?
9. **Galluogwyr a rhwystrau i weithio'n effeithiol ar y cyd**
   - Beth fu'r prif alluogwyr a rhwystrau i gyflawni canlyniadau trwy gydweithio?

**Strwythur yr adroddiad hwn**

1.25 Mae **Pennod 2** yn cychwyn trwy ddarparu crynodeb o ganfyddiadau a chasgliadau cyfnod ffurfiannol y gwerthusiad o'r Prosiect ESF-LSB, fel y'i cyflwynwyd yn yr Adroddiad Ffurfiannol Terfynol. Yna mae'r bennod yn cyflwyno dadansoddiad eilaidd o allbynnau'r prosiect fel y'u mesurwyd gan ddangosyddion WEFO, cyn trafod y cyfraniad mae'r Prosiect wedi'i wneud i themâu polisi trawsbynciol Llywodraeth Cymru, sef cydraddoldeb, craffu a chynaliadwyedd amgylcheddol.

1.26 Mae **Pennod 3** yn adrodd ar y meta-ddadansoddiad o ddeunydd gwerthusol o 17 prosiect cyflenwi. Mae'r dadansoddiad thematig yn nodi galluogwyr (ffactorau llwyddiant) o blaid cyflawni canlyniadau trwy weithio ar y cyd, a ffactorau sy'n rhwystro hynny. Defnyddir portreadau cryno o 'arfer da' o ddau brosiect cyflenwi yn enghreifftiau ar gyfer y drafodaeth hon, a chwmpasir tair thema – 'ymwneud y trydydd sector', rôl rheolwr y prosiect' ac 'etifeddiaeth'. Lluniwyd y rhain i annog a galluogi efelychu ehangach ar ymarfer y prosiectau cyflenwi a'r hyn a ddysgwyd ohonynt – i feysydd eraill a/neu wahanol fathau o bartneriaethau.

1.27 Mae **Pennod 4** yn cyflwyno canfyddiadau arolygon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfan, a gynhaliwyd yn ystod hafau 2013 a 2015. Defnyddir canlyniadau arolwg 2015 i asesu newid o ran y gweithio ar y cyd mewn prosiectau cyflenwi a phartneriaethau eraill ers 2013, yn ogystal â darparu ffynhonnell o dystiolaeth i brofi rhagdybiaethau'r Ddamcaniaeth Newid ynghylch cydweithio ac ymdrin â nodau cyffredinol y gwerthusiad.

1.28 Mae **Pennod 5** yn cyfuno ein canfyddiadau o'r holl ffynonellau hyn i ddod i gasgliadau ynghylch canlyniadau ac effeithiolrwydd y Prosiect ESF-LSB. Mae'n gwneud hynny trwy ymdrin â phob un o'r pedwar cwestiwn gwerthuso allweddol:

- a yw Prosiect ESF-LSB wedi arwain at well gwasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau i ddinasyddion;
- sut mae'r prosesau a ddefnyddiwyd i roi'r Prosiect ar waith a'i reoli wedi cyfrannu at y canlyniadau hyn;

- a yw'r Prosiect yn cyfathrebu ac yn lledaenu'r dysgu o'r prosiectau cyflenwi, a sut, a hynny ar lefel genedlaethol a lleol; a
- sut mae'r Prosiect wedi gwella integreiddiad y trydydd sector a BGLlau, ac a yw hynny wedi arwain at well gwasanaethau a chanlyniadau

1.29 Yna mae Pennod 5 yn adolygu'r argymhellion i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid o'r Adroddiad Ffurfiannol Terfynol – a'u hymateb i'r rhain – ac yn eu defnyddio i gynhyrchu set derfynol o argymhellion fel bod modd efelychu'r dysgu o'r Prosiect ESF-LSB y tu hwnt i oes y prosiectau mewn modd sy'n llywio polisi ac ymarfer, yn genedlaethol ac yn lleol.

## 2. Cynnydd ac allbynnau'r Prosiect

### Cyflwyniad

2.1 Mae'r gwerthusiad o'r Prosiect ESF-LSB wedi bod yn casglu ac yn dadansoddi data ynghylch allbynnau a chanlyniadau o'r prosiectau cyflenwi er mwyn ymdrin â'r cwestiynau gwerthuso allweddol, a phrofi ac adolygu'r fframwaith gwerthuso.

2.2 Mae cyfnod crynodol y gwerthusiad wedi cael ei lywio gan ganfyddiadau'r cyfnod ffurfiannol ac mae'n adeiladu arnynt, gan gynnwys adolygiad o'r allbynnau ar draws y prosiectau cyflenwi, fel y mesurwyd trwy ddangosyddion WEFO, a thystiolaeth ynghylch eu cyfraniad i faterion polisi trawsbynciol Llywodraeth Cymru.

### Canfyddiadau'r cyfnod ffurfiannol

2.3 Roedd y canfyddiadau yn yr Adroddiad Ffurfiannol Terfynol yn tynnu ar bedair brif ffynhonnell o dystiolaeth, fel yr amlinellwyd yn y fethodoleg a ddisgrifiwyd ym Mhennod 1 uchod:

- dau gylch o gyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol;
- arolwg Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfan ar gydweithio:
- astudiaethau achos manwl o saith prosiect cyflenwi; a
- dadansoddiad o'r trafodaethau mewn tri digwyddiad dysgu.

2.4 Yn sgîl canfyddiadau'r gwerthusiad ffurfiannol daethom i'r casgliad fod peth ffordd i fynd cyn gallu asesu a oedd y Prosiect ESF-LSB wedi arwain at well gwasanaethau cyhoeddus a gwell canlyniadau i ddinasyddion (er bod rhai prosiectau cyflenwi oedd yn esiampl), ac roedd cwestiynau ynghylch a fyddai'n bosibl dangos y canlyniadau hyn.

2.5 Canfuwyd hefyd fod angen i fwyafrif y prosiectau cyflenwi wella'u cydweithio – trwy wella'u capasiti i gydweithio a newid sefydliadol – cyn gallu cyflenwi'r mathau o welliannau i wasanaethau cyhoeddus a fyddai'n arwain at well canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Roedd hyn yn codi cwestiynau ynghylch a fyddai modd cyflawni'r rhain yn ystod oes y prosiectau cyflenwi a ariannwyd.

2.6 Ar ben hynny, roedd mwyafrif y prosiectau cyflenwi wedi profi anawsterau wrth nodi canlyniadau uchelgeisiol, realistig, datblygu mesurau i ddarparu tystiolaeth ynghylch y rhain a chasglu, dadansoddi a defnyddio data monitro a gwerthuso i adolygu cynnydd yn erbyn y canlyniadau.

2.7 Datgelodd ein detholiad o saith astudiaeth achos rai patrymau cyffredin o ran effeithiau, prosesau (gan gynnwys ffactorau galluogi a rhwystrau i gyflawni effeithiau) a dysgu. Defnyddiwyd y rhain i nodi saith thema graidd oedd yn brif benderfynyddion o ran a oedd prosiect yn gwneud cynnydd ym maes cydweithio ac yn cyflawni canlyniadau gwasanaeth a/neu broses, sef:

- natur y cydweithio;
- lleoliad y prosiect mewn sefydliad;
- rôl rheolwr y prosiect;
- sut rhennir gwybodaeth;
- arweinyddiaeth a rôl y BGLl;
- pennu canlyniadau uchelgeisiol, ymarferol; a
- chynaliadwyedd y prosiect.

2.8 Hwyluswyd trafodaeth ynghylch ‘beth sy’n llwyddo’ (wrth gyflawni canlyniadau) yn y digwyddiadau dysgu yn haf 2014, a chafwyd bod prosiectau cyflenwi wedi nodi nifer o ffactorau galluogi cyffredin, sy’n adleisio’r rhai yn y detholiad o astudiaethau achos. Yn arbennig, nododd prosiectau’r canlynol:

- arweinyddiaeth gref, gan rywun â’r awdurdod a’r hygrededd i ymgysylltu â phartneriaid a’u sbarduno i weithredu;
- ymwneud gweithredol gan bartneriaid, nid dim ond ‘ymuno’ mewn modd oddefol; ac
- amcanion clir a rennir, sy’n golygu bod yr holl bartneriaid yn ymrwymo i weithredu.

2.9 Roedd ymwneud ac integreiddiad y trydydd sector yn amlwg yn bennaf yn y prosiectau cyflenwi a oedd naill ai’n cael eu harwain gan y trydydd sector a/neu a oedd yn dibynnu’n drwm ar y trydydd sector i’w cyflenwi. Nid oedd yn syndod nad oedd fawr ddim rôl, i bob golwg, i’r trydydd sector mewn prosiectau oedd yn ymwneud yn llai â chanlyniadau dinasyddion ac yn fwy â gwelliannau swyddfa gefn a newid mewnol.

2.10 Roedd rhanddeiliaid cenedlaethol o’r farn bod angen cynnwys y trydydd sector lleol yn llawn wrth ddylunio gwasanaethau sy’n cydweithio – yn ogystal â’u cyflenwi – ac nad oedd hynny’n digwydd gymaint ag y dylasai ar draws y Prosiect na gwasanaethau cyhoeddus ehangach Cymru. Trafodir y dystiolaeth ynghylch y materion hyn yn fanylach yn y gwerthusiad o elfen Creu’r Cysylltiadau Prosiect ESF-LSB, oedd yn anelu’n benodol at wella integreiddiad y trydydd sector (Old Bell 3, 2015).

2.11 Er bod y prosiectau cyflenwi, mewn rhai achosion, yn profi dulliau gweithredu arloesol wrth gyflenwi gwasanaeth penodol, ac yn rhannu hynny trwy ddysgu dealledig ac ad hoc o fewn a rhwng prosiectau, nid oedd hynny’n cael ei ledaenu’n systematig ledled Cymru gan y prosiectau cyflenwi eu hunain, na chan Lywodraeth Cymru.

2.12 Roedd rhanddeiliaid cenedlaethol yn awyddus i ddefnyddio’r dysgu o’r prosiectau cyflenwi mewn canllawiau polisi i Fyrddau Gwasanaethau Lleol ac awdurdodau lleol. Yn eu barn nhw roedd angen y math hwn o ddysgu i lywio’r hyn y gellir ei efelychu ar draws gwahanol ardaloedd a chyd-destunau, a gweld sut mae creu prosiectau ar raddfa fwy er mwyn cyflenwi er cynaliadwyedd trwy brif-ffrydio.

2.13 Defnyddiwyd y canfyddiadau hyn i greu cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru a’i phartneriaid eu hystyried er mwyn ymdrin â’r materion hyn mewn modd oedd yn mwyafu ac yn lledaenu’r dysgu o’r Prosiect. Trafodir y rhain ymhellach ym mhennod olaf yr adroddiad crynodol hwn.

### Dadansoddiad o ddata monitro WEFO

2.14 Defnyddiodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) bedwar dangosydd i asesu llwyddiant y Prosiect, sef nifer y canlynol:

- mentrau lledaenu – i rannu arfer gorau ar sail thematig a daearyddol;
- trefniadau cydweithio rhwng cyrff gwasanaeth cyhoeddus – gan gwmpasu partneriaid BGLl yn defnyddio adnoddau a rennir, crynhoi cyllidebau neu ddarparu gwasanaeth a rennir;
- lleoliadau ar secondiad a ddarparwyd – i wella’r broses o drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau rhwng cyrff sector cyhoeddus; a

- strategaethau dysgu a datblygu sefydliadol a gynhyrchwyd – mentrau sy'n cefnogi Byrddau Gwasanaethau Lleol (a chyrff sector cyhoeddus sy'n rhan o'r BGLl) i reoli a chyflenwi newid.

2.15 Bu pob prosiect cyflenwi yn gosod targedau yn eu cynnig cyllido, ac roedd gofyn eu bod yn cadw tystiolaeth ac yn amlinellu eu perfformiad yn erbyn y dangosyddion WEFO bob chwarter. Roedd perfformiad yn cael ei fonitro gan y tîm cenedlaethol trwy ymweliadau cydymffurfiaeth ac adroddiadau cynnydd y prosiectau cyflenwi. Roedd pob prosiect cyflenwi yn adrodd am y ffigurau terfynol yn eu hadroddiad terfynu.

2.16 Roedd rhaid i Lywodraeth Cymru fodloni gofynion ESF trwy adrodd am berfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn ar lefel grynodol Prosiect ESF-LSB i WEFO. Nid oeddent yn adrodd am berfformiad ar lefel y prosiect cyflenwi. Ar gyfer ein gwerthusiad, fodd bynnag, mae'n ddiddorol asesu pam roedd rhai prosiectau'n gallu rhagori ar eu targedau, gan fod yn rhain yn 'allbynnau' yn ein fframwaith gwerthuso.

2.17 Roedd ein cyfweliadau gyda rhai aelodau o'r Bwrdd Ymgynghorol a'r tîm cenedlaethol yn mynegi pryder bod dangosyddion WEFO yn rhy gul, ac yn rhoi pwyslais ar weithgareddau yn hytrach na chanlyniadau. Mae hynny'n golygu ei bod hi'n anoddach dysgu o'r Prosiect hwn nag o brosiectau ESF eraill sydd â dangosyddion WEFO mwy diriaethol, sy'n cipio'r canlyniadau i fuddiolwyr – e.e. nifer y bobl sy'n mynd i waith neu nifer y bobl sy'n cyflawni cymwysterau.

2.18 Gall y dangosyddion hyn sy'n troi o gwmpas gweithgareddau anfon neges gamarweiniol hefyd i brosiectau bod gweithgareddau'n bwysig oherwydd eu bod yn cael eu mesur, yn hytrach na chanolbwyntio mewn modd priodol ar ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth. Gan fod y 38 prosiect mor wahanol, roedd y dangosyddion o leiaf yn darparu mesur crynodol o berfformiad, er nad o'r canlyniadau.

2.19 Mae Tabl 2.1 isod yn rhestru sut perfformiodd y 38 prosiect cyflenwi o ran y dangosyddion hyn, gan ddefnyddio ffigurau a ddilyswyd gan Lywodraeth Cymru.

**Tabl 2.1: Dangosyddion y Prosiect ESF-LSB**

| Dangosydd | Targed | Cyfanswm a ddilyswyd |
|---|---|---|
| Allbynnau | | |
| Mentrau lledaenu | 35 | 182 |
| Canlyniadau | | |
| Cytundebau cydweithio rhwng cyrff gwasanaeth cyhoeddus | 30 | 62 |
| Lleoliadau ar secondiad sydd ar gael | 42 | 54 |
| Dysgu a datblygiad sefydliadol | 5 | 27 |

2.20 Dengys Tabl 2.1, at ei gilydd, fod y prosiectau wedi cyflawni eu targedau ym mhob un o'r pedwar dangosydd. Mewn dau achos (mentrau lledaenu a dysgu a datblygu sefydliadol), mae'r cyfansymiau a gyflawnwyd yn fwy na phum gwaith yn fwy na'r targed. Ni hawliwyd y gweithgareddau a gynhaliwyd mewn prosiectau cyflenwi ond os oedd Llywodraeth Cymru yn sicr bod tystiolaeth yn ei lle.

2.21 O ran mentrau lledaenu, mae perfformiad nifer o brosiectau yn sefyll allan. Cyflawnodd prosiect Llwybrau Ymgysylltu Cynyddol Sir Ddinbych 37 o fentrau lledaenu (y mae'r mwyafrif mawr ohonynt yn 13 digwyddiad ymgynghori gyda phobl ifanc ac yn 17 cyflwyniad i bartneriaid), er mai pedwar yn unig oedd y targed cychwynnol. Roedd gan brosiect y Dull Cydlynol o Ddatblygu'r Gweithlu yng Nghonwy darged o dair menter, ond llwyddwyd i gyflawni 17. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys dau gyflwyniad i'r BGLl ac un arall i'r Bwrdd Gwelliant, yn ogystal â chael stondin yng nghynhadledd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru. Gwireddodd y Prosiect bwysigrwydd cynnwys pobl ifanc a phrentisiaethau trwy gyfres o ddigwyddiadau, gan y gallent ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r ddarpariaeth a gynigir gan

sefydliadau cyhoeddus yn well. Roedd yr ymgysylltiad gweithredol hwn yn helpu i wella profiadau pawb – yn bobl ifanc ac yn rheolwyr, gan ddefnyddio prentisiaethau.

2.22 Mae'r canlyniadau hyn yn dibynnu'n eglur ar sut mae prosiectau wedi diffinio'r mesur, h.y. gellid dosbarthu cyfarfod gyda'r BGLl fel menter ledaenu gan un prosiect (fel y gwelwyd uchod), er ei fod yn cael ei ystyried yn rhan o gynnal prosiect arall. Mae problem mesur allbynnau yn anhawster sylweddol. Yn y prosiect yn Sir Ddinbych y cyfeiriwyd ato uchod, y nod oedd pedwar math o fenter, ond agwedd ar eu harfer da oedd eu bod wedi llunio pob menter i ymgynghori ac ymgysylltu â phobl ifanc a phartneriaid mewn amrywiaeth eang o leoliadau.

2.23 Ni ddarparodd rhai prosiectau dystiolaeth ddigonol i Lywodraeth Cymru iddynt fedru dilysu'r perfformiad a hawliwyd. Er enghraifft, pennodd prosiect Capasiti a Galluedd Castell-nedd Port Talbot darged o wyth menter ledaenu, hawliwyd naw, ond dim ond dwy a ddilyswyd. Pennodd Tîm o Gwmpas y Teulu Abertawe darged o dair menter ledaenu, hawliwyd eu bod wedi cyflawni 39, ond dim ond pump ohonynt a ddilyswyd at safon ddigonol i Lywodraeth Cymru eu hawlio'n hyderus er mwyn adrodd i WEFO.

2.24 Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch a gasglwyd tystiolaeth ynghylch dangosyddion WEFO mewn modd cyson ar draws y prosiectau. Gallai hynny fod yn rhannol oherwydd bod y targedau, mewn llawer o achosion, wedi'u sefydlu'n gynnar iawn yn natblygiad y prosiect, ac yn aml gan bobl na fuont yn ymwneud wedi hynny â chyflenwi'r prosiectau. Wrth i'r prosiectau ddatblygu dros amser, mae'n bosibl bod y dangosyddion wedi dod yn llai perthnasol, ac â llai o gysylltiad â'u hamcanion a'u gweithgareddau. Gallai hefyd adlewyrchu'r ffaith nad oedd angen i Lywodraeth Cymru ddilysu'r holl ddangosyddion a hawliwyd gan y prosiectau; roedd hawliadau Llywodraeth Cymru i WEFO wedi'u seilio ar ddata a grynhowyd ar draws y prosiectau, felly nid oedd gofyn dilysu ond cyfran o weithgareddau cyfunedig y prosiectau.

2.25 Cyfanswm o 30 cytundeb cydweithio rhwng cyrff gwasanaethau cyhoeddus oedd y targed ar gyfer y 38 prosiect, ond cyflawnwyd mwy na dwywaith hynny. Llwyddodd nifer o brosiectau i ragori ar eu targed o ran cytundebau cydweithio. Pennodd prosiect cydweithio TGCh Gogledd Cymru darged o un cytundeb, ond cyflawnwyd chwech trwy ddefnyddio cytundebau fframwaith i sicrhau gwerth

am arian wrth gaffael caledwedd, meddalwedd a systemau rheoli cynnwys ar y we. Datgelodd ein hastudiaeth achos o'r Prosiect hwn fod dogfennau cychwyn prosiectau (PIDs) wedi cael eu defnyddio. Nid cytundebau cyfreithiol rwymol oedd y rhain; i bob pwrpas roeddent yn 'gytundebau bonheddig', ond yn rhoi hyblygrwydd i bartneriaid oedd yn ymwneud â'r Prosiect ymuno neu ymadael ar unrhyw adeg cyn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig. Cyflawnodd prosiect y Dull Cydlynol o Ddatblygu'r Gweithlu yng Nghonwy bum cytundeb cydweithio (targed o ddau) ac roedd y cytundebau lefel gwasanaeth hyn yn bwysig er mwyn cynnal y Prosiect yn llwyddiannus, gan fod gan y sefydliadau dan sylw drefniadau mor wahanol ar waith (e.e. telerau ac amodau, gwyliau ac ati).

2.26 Mae mwy o enghreifftiau yma, o'u cymharu â'r mentrau lledaenu, o brosiectau'n methu â chyflenwi'r hyn a addawyd. Er enghraifft, yn 'Torfaen Powering Up', dim ond un cylch gorchwyl a gynhyrchwyd, er bod targed o bedwar cytundeb cydweithio wedi'i bennu. Roedd y gwahaniaeth hwn yn deillio o newidiadau a wnaed i'r Prosiect ar ôl cyllido'r cynnig. Y cynllun gwreiddiol oedd y byddai'r cynllun yn llofnodi cytundebau gyda chymdeithasau tai ac aelodau o Bartneriaeth Ynni Torfaen. Mewn gwirionedd, cynhaliwyd y Prosiect gan Melin Homes a bu Partneriaeth Ynni Torfaen ynghwsg i raddau helaeth ar hyd oes y prosiect.

2.27 Yn drydydd, roedd perfformiad prosiectau cyflenwi o ran y lleoliadau ar secondiad a ddarparwyd yn well na'r targed (54 yn hytrach na 42), ond roedd y targed hwn yn isel, gan ei fod yn cyfateb i ryw un secondiad i bob prosiect. Syniad y secondiadau oedd caniatáu trawsbeillio syniadau ar draws y sector cyhoeddus a meithrin profiad rheolwyr prosiect (yn y dyfodol). Bu Llywodraeth Cymru yn gwthio am ddefnyddio secondiadau, gan ofyn bod pob swydd yn cael ei hysbysebu fel secondiad cyn dilyn opsiynau eraill. Gwelai rhai'r syniad o symud o swydd barhaol i un am gyfnod penodol yn ystod cyfnod o ddirwasgiad fel risg nad oedd yn werth ei chymryd, ac felly dim ond chwe phrosiect ragorodd ar eu targed. Yn sgîl anawsterau recriwtio rheolwyr prosiect, bu oedi (mawr) wrth gychwyn y rhan fwyaf o'r prosiectau.

2.28 Y dangosydd terfynol oedd nifer y strategaethau dysgu a datblygu sefydliadol a gynhyrchwyd. Diffiniwyd y rhain fel cyfres o fentrau dysgu sy'n cefnogi BGLlau yn benodol i reoli newid ar y cyd a chyflenwi blaenoriaethau'r BGLl. Pennwyd targed o bum strategaeth, a dilyswyd 27 gan Lywodraeth Cymru. Cynhyrchodd

dau brosiect dystiolaeth eu bod wedi cyflenwi mwy nag un strategaeth dysgu a datblygu sefydliadol. Cyflenwodd Rhaglen Newid Merthyr, er enghraifft, bum strategaeth oedd yn cynnwys darparu hyfforddiant rheoli newid i holl staff y prosiect; gweithdy cynyddu ymwybyddiaeth oedd yn targedu gwasanaethau presennol er mwyn hyrwyddo nodau a gweledigaeth y prosiect; defnyddio canlyniadau gwerthusiad gwaelodlin i newid eu dull gweithredu; a menter ddigidol i gipio a rhannu arfer da a gwybodaeth ynghylch amrywiaeth o bynciau cyflogadwyedd.

**Crynodeb**

2.29 O ystyried bod dangosyddion WEFO wedi cael eu defnyddio'n un ffynhonnell o dystiolaeth i asesu llwyddiant y Prosiect ESF-LSB, roedd yn syndod na chyfeiriwyd atynt ond mewn tair o'n saith astudiaeth achos, ac roedd barn gymysg ynghylch eu defnyddioldeb. Mewn un prosiect, soniwyd bod y dangosyddion yn ddefnyddiol iawn, gan eu bod yn atgoffa o ble roedd yr arian yn dod, a beth yw canolbwynt y prosiect. Mewn prosiect arall, disgrifiwyd dangosyddion WEFO fel 'dibwrpas – mater o roi tic yn y blwch'. Roedd yr ymatebwyr yn ansicr beth oedd bwriad y dangosyddion o ran cyflawniad. Gan fod gofyn bod prosiectau'n adrodd ar y dangosyddion i Lywodraeth Cymru bob chwarter, mae'n debygol eu bod wedi helpu rhai prosiectau i ganolbwyntio ar sicrhau eu bod yn cyflenwi'r hyn a addawyd.

2.30 Mae nifer o faterion sy'n effeithio ar ddefnyddioldeb dangosyddion WEFO. Yn gyntaf, oherwydd bod y dangosyddion yn weithgareddau ac yn allbynnau, nid yw'n eglur a oes perthynas rhyngddynt â'r canlyniadau arfaethedig, a ydynt yn cyfrannu atynt, a sut mae hynny'n digwydd. Yn ail, mae materion sy'n ymwneud â diffinio a mesur dangosyddion WEFO. Mae hyn yn digwydd ar ddwy lefel – o ran y prosiectau, pennu a ydynt wedi cynhyrchu, er enghraifft 'strategaeth dysgu a datblygu sefydliadol' wirioneddol, ac o ran Llywodraeth Cymru, sicrhau bod ganddynt ddigon o dystiolaeth ategol i gyflwyno'r hawliad hwnnw i WEFO. Gallai mwy o ymdrech fod wedi cael ei wneud i wella'r ddealltwriaeth o'r hyn roedd y dangosyddion yn ei fesur, pam roedd hynny'n bwysig, a pha dystiolaeth roedd angen ei chasglu i ddangos bod targed wedi cael ei gyflawni.

2.31 Yn drydydd, mae'r dangosyddion wedi'u crynhoi ar gyfer adroddiadau i ESF, ond collir yr ystyr heb fynd ati i archwilio perfformiad i ryw raddau o fewn a rhwng prosiectau unigol. Er bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn adrodd bod y dangosyddion wedi hwyluso peth trafodaeth ar weithgareddau y gellid eu darlunio ag enghreifftiau o brosiectau, mae ein tystiolaeth o'r astudiaethau achos yn awgrymu eu bod yn llai defnyddiol i'r prosiectau eu hunain.

2.32 Yn bedwerydd, mae'n bwysig canolbwyntio ar fwy na'r niferoedd. Mae'n bosibl bod un prosiect wedi cyflenwi nifer fawr o fentrau lledaenu, ond gallai nifer y digwyddiadau fod yn llai pwysig ac effeithiol nag un fenter a luniwyd yn ofalus mewn prosiect arall. Yn bumed, gallai fod rhai enghreifftiau o 'arfer da' wedi'u darparu yn dystiolaeth o gyflawni targedau yn yr adroddiadau terfynu, ond nid yw'r rhain wedi cael eu distyllu na'u rhannu gan Lywodraeth Cymru. Yn olaf, er i amrywiaeth y prosiectau gynhyrchu amrywiaeth o wahanol ganlyniadau, collodd WEFO gyfle trwy beidio â cheisio llunio dangosyddion a oedd yn mesur y canlyniadau mwy cyffredinol neu lefel uchel trwy ddefnyddio adborth gan y rhai yr effeithiodd y prosiectau arnynt.

**Materion trawsbynciol**

2.33 Amlinellodd Llywodraeth Cymru nifer o themâu trawsbynciol (neu gyffredinol) sy'n gyffredin i bob BGLl, a lle roedd angen dull gweithredu cyson i sbarduno gwelliant. Y themâu hynny oedd:

- ymgysylltiad dinasyddion;
- craffu;
- cydraddoldebau; a
- datblygu cynaliadwy.

2.34 Y cynllun oedd y byddai Llywodraeth Cymru'n cydlynu'r camau gweithredu ac yn hwyluso cyfleoedd dysgu (megis rhwydweithiau) ar y themâu hyn er mwyn sicrhau bod dolen ddysgu effeithiol yn bodoli rhwng datblygiad polisi cenedlaethol a'i roi ar waith yn lleol. Y gobaith oedd y byddai hyn yn lleihau'r posibilrwydd o ddyblygu ymdrechion petai gwahanol weithgareddau'n cael eu cynnal ym mhob BGLl, gan wella effeithiolrwydd yr adnoddau oedd ar gael ac arwain at fwy o ddysgu a rennid. Byddai'r adnodd ESF yn helpu i gryfhau capasiti ac yn ehangu cyrhaeddiad rhwydweithiau presennol yn y maes. Yn y

pen draw, y gobaith oedd y byddai'r rhwydweithiau'n hunangynhaliol erbyn diwedd y Prosiect.

2.35 Datgelodd ein cyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol ddarlun cymysg o ran pwysigrwydd y themâu cyffredinol hyn. Yn achos un o swyddogion Llywodraeth Cymru, mae'r themâu'n elfen hollbwysig o lywodraethu unrhyw sefydliad (y BGLl yn yr achos hwn). Er enghraifft, mae angen gwneud craffu'n rhan o'r trefniadau llywodraethu, mae clywed 'llais' y dinasyddion yn hanfodol, ac ni ddylai asesiad effaith ar gydraddoldeb fod yn gam olaf yn y broses. Adroddodd ein gwerthusiad ffurfiannol am bryderon mai "ufuddhau i lythyren y ddeddf yn unig oedd yn digwydd yn achos cydraddoldeb" a phryder ynghylch a yw "craffu ac atebolrwydd democrataidd yn cael eu gwneud yn rhan o drefniadau llywodraethu ['r prosiectau]". Ymddangosai fod un arall o swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymagweddu'n fwy pragmataidd trwy awgrymu, er bod themâu cydraddoldeb a chynaliadwyedd yn flaenoriaeth i WEFO, ei bod hi'n anodd i brosiectau cyflenwi ddangos sut maen nhw'n cael effaith gadarnhaol ar y themâu hyn. Roedd y cyfwelai'n teimlo y byddai cydymffurfio â thargedau WEFO ar gyfer y Prosiect yn gyffredinol yn ddigonol.

2.36 I hwyluso integreiddiad y themâu hyn, gofynnwyd i'r prosiectau ymdrin â sut roedd pob un o'r themâu hyn wedi'u gwreiddio yn eu cynnig, ac yna adrodd am gynnydd dros amser. Adroddwyd am berfformiad ar y themâu hyn i Fwrdd Ymgynghorol ESF-LSB ac i WEFO. Nid oes fawr ddim tystiolaeth ynghylch y themâu hyn, ac mae'r mwyafrif ohoni'n gysylltiedig â'r sefydliad, yn hytrach na'r prosiect, ond isod rydym yn crynhoi sut mae'r pedwar mater hyn wedi derbyn sylw.

*Ymgysylltiad Dinasyddion*

2.37 Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio Cyfranogiad Cymru i gyflenwi hyfforddiant i staff sector cyhoeddus er mwyn cefnogi thema ymgysylltiad dinasyddion ac mae'r holl Fyrddau Gwasanaethau Lleol wedi mabwysiadu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Roedd un prosiect yn arbennig yn canolbwyntio ar y dinesydd – Ymgynghori ac Ymgysylltu (Merthyr a RhCT) – sydd wedi cyflenwi dull cydlynus o ymdrin â gweithgaredd ymgynghori ar draws a rhwng y ddau Fwrdd Gwasanaethau Lleol.

*Craffu*

2.38 Comisiynodd Llywodraeth Cymru y Ganolfan Craffu Cyhoeddus i ddarparu cefnogaeth gyffredinol ynghylch craffu i gynghorau. Hefyd penodwyd cydlynydd craffu ar secondiad i roi cyngor ac arweiniad ar graffu i Fyrddau Gwasanaethau Lleol. Lluniwyd cyfres o ddigwyddiadau wedi'u teilwra (e.e. seminarau ar gyfer swyddogion a chynghorwyr) i helpu i hybu craffu'n gyffredinol fel sbardun i wella gwasanaethau cyhoeddus.

2.39 Roedd llai o ffocws ar graffu'n benodol ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol, gydag ambell eithriad, Er enghraifft, gwnaed gwaith gyda gweithgor BGLl Craffu ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd i ddatblygu trefniadau craffu cydweithredol. Roedd hynny'n golygu rhoi arweiniad, cyngor, nodiadau briffio ac adnoddau eraill mewn gweithdai gydag aelodau a phartneriaid, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Parc Cenedlaethol Eryri a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae perfformiad craffu BGLl yn dal yn ddarniog (Horton, 2013). Y gobaith yw y bydd y gefnogaeth hon ar gyfer craffu yn darparu sylfaen ar gyfer craffu statudol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

*Cydraddoldebau*

2.40 Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun cydraddoldeb strategol yn ei le sy'n darparu sylfaen ar gyfer ei gwaith yn y maes hwn, a mesurir perfformiad yn erbyn amcanion y cynllun. Mae'r cynnig yn awgrymu y byddai rhwydwaith ar y thema hon yn cael ei sefydlu, ond nid yw hynny wedi cael ei gyflenwi. Mae'r prosiectau'n adrodd yn bennaf am ymatebion sefydliadol i gydraddoldeb, megis awgrymu bod Polisi Cyfle Cyfartal yn ei le. Ar lefel y prosiect, adroddir bod Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal. Mae nifer o'r prosiectau wedi targedu grwpiau penodol yn y boblogaeth – o'r rhai sy'n dioddef eithrio ariannol yng Nghonwy a Sir Ddinbych i deuluoedd agored i niwed ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae tystiolaeth ein harolwg yn dangos gwelliant pendant dros amser, gan fod 35% o'r ymatebwyr yn 2015 yn cytuno bod yr adnodd ESF-LSB wedi galluogi partneriaid i hyrwyddo cydraddoldeb (wedi codi o sylfaen isel o 22% yn 2013).

*Datblygiad cynaliadwy*

2.41 Mae gan bob BGLl Gynllun Sengl Integredig sy'n cynnwys ffocws ar ddatblygu cynaliadwy. I raddau helaeth roedd y prosiectau'n adrodd eu bod yn cydymffurfio â pholisïau'r cyngor yn y maes hwn, e.e. mae gan y sefydliad Bolisi Amgylcheddol ar waith, ond ni fu'n sbardun ar gyfer llawer o brosiectau. Dim ond tua 20% o ymatebwyr yr arolwg sy'n adrodd bod cyllid ESF wedi caniatáu i bartneriaid hybu cynaliadwyedd amgylcheddol. Mae llond dwrn o brosiectau wedi troi o gwmpas cynaliadwyedd amgylcheddol, gan gynnwys 'Powering up Torfaen', oedd yn ceisio lleihau'r defnydd o ynni a'r costau i aelwydydd trwy osod mesurau arbed ynni, ac Abertawe Carbon Isel, a ddatblygodd agwedd gynaliadwy at leihau allyriadau carbon yn y ddinas.

**Crynodeb**

2.42 Roedd cryn dipyn o rethreg am y themâu trawsbynciol yn y cynnig ar gyfer cyllid UE ac yn y cynigion ar gyfer cyllid gan brosiectau cyflenwi, ond nid yw'r rhain wedi dod i'r amlwg fel themâu arwyddocaol.

2.43 Gofynnodd Llywodraeth Cymru am y materion trawsbynciol hyn yn eu hymweliadau monitro â phrosiectau, ond ymddangosai fod pwyslais ar sicrhau bod polisïau allweddol ar waith at ddibenion archwilio, e.e. asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Gan fod y rhain yn allbynnau, roedd modd eu mesur. Yn achos mwyafrif y Byrddau Gwasanaethau Lleol, fodd bynnag, mater o'r 'drefn arferol' oedd hyn, a chan eu bod eisoes yn gwneud y pethau hyn, nid oedd fawr ddim 'gwerth ychwanegol', os o gwbl.

2.44 Roedd angen bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud mwy i gynyddu ymwybyddiaeth o'r themâu ar ddechrau'r cyfnod ariannu trwy ddefnyddio gweithdai, a dylasai'r prosiectau roi mwy o ystyriaeth i sut roedd y rheiny'n ymgysylltu â'r prosiect dan sylw. Er bod y themâu trawsbynciol yn cael sylw yn yr adroddiadau blynyddol ac mewn adolygiadau blynyddol, nid oeddent yn rhan o werthusiadau prosiectau, ac ni ofynnodd Llywodraeth Cymru i brosiectau adrodd amdanynt yn eu hadroddiadau terfynu prosiect.

2.45 Nid oes fawr ddim tystiolaeth o amrywiaeth o ddogfennau bod prosiectau wedi cymryd y themâu cyffredinol o ddifri. Fel yr awgrymwyd uchod yn achos dangosyddion WEFO, mae'n aneglur a rannwyd unrhyw 'arfer gorau' mewn

unrhyw un o’r meysydd thematig hyn. Gallasai hynny fod yn rhan o ddigwyddiad ehangach ar rannu gwybodaeth o’r Prosiect ESF-LSB.

# 3. Meta-ddadansoddiad ac enghreifftiau o arfer da

## Cyflwyniad

3.1 Mae'r bennod hon yn trafod canfyddiadau meta-ddadansoddiad o ddeunydd gwerthuso lleol o 17 o'r prosiectau cyflenwi, gan ei ddefnyddio i ganfod enghreifftiau o arfer da y gellid eu hefelychu ar lefel ehangach.

3.2 Dewiswyd y prosiectau ar gyfer y meta-ddadansoddiad i ddarparu gwasgariad daearyddol a thematig o brosiectau. Buom yn sicrhau hefyd bod y prosiectau'n cynnwys digon o dystiolaeth o werthusiadau lleol i ni ei defnyddio, a oedd hynny'n dod o werthusiad mewnol neu allanol, felly eithriwyd y prosiectau hynny nad oeddent ond yn gallu cyflwyno adroddiadau terfynu i Lywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, buom yn hepgor prosiectau a oedd eisoes wedi'u defnyddio'n astudiaethau achos ar gyfer cyfnod ffurfiannol y gwerthusiad, ac eithrio dau brosiect[5] lle cynhyrchwyd tystiolaeth werthuso ychwanegol ers ein hymweliadau. Hepgorwyd hefyd y naw prosiect cydweithio rhanbarthol, a oedd wedi derbyn cyllid ychwanegol gan WLGA, ac a adolygwyd ar gyfer gwerthusiad o Weithio ar y Cyd Rhanbarthol waith i Lywodraeth Cymru[6].

3.3 Mae Tabl 3.1 isod yn rhestru'r prosiectau cyflenwi yn y meta-ddadansoddiad.

3.4 Cynhaliwyd y meta-ddadansoddiad gan ddefnyddio meini prawf a oedd yn seiliedig ar y 'themâu craidd' a nodwyd ar sail y detholiad o astudiaethau achos yn yr adroddiad gwerthuso ffurfiannol. Cafwyd bod y themâu hyn, sy'n cynnwys cyd-destunau a phrosesau, yn bwysig er mwyn i brosiect gyflawni'r canlyniadau a ddymunid (neu y gallent weithredu fel rhwystrau pe na baent yn bresennol mewn prosiect). Nodwyd saith thema graidd ar draws ein hastudiaethau achos, sef:

- natur y cydweithio;
- lleoliad y prosiect mewn sefydliad;
- rôl rheolwr y prosiect;
- sut rhennir gwybodaeth;
- arweinyddiaeth a rôl y BGLl;
- pennu canlyniadau uchelgeisiol, ymarferol; a
- chynaliadwyedd y prosiect.

[5] Prosiect Gwrthdlodi Sir Ddinbych a Phrosiect Pasbort Caerffili
[6] Mae hyn i gael ei gwblhau yn gynnar yn 2016.

| **Tabl 3.1. Prosiectau cyflenwi a ddefnyddiwyd ar gyfer y meta-ddadansoddiad** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Prosiect** | **Rhanbarth** | **Thema Polisi** | **Grant** | **Disgrifiad cryno o'r nodau** |
| **Cysylltu Teuluoedd Pen-y-bont ar Ogwr** | Y de-orllewin | Plant a theuluoedd | £372,147.60 (amcan)<br><br>3 blynedd + | Darparu gwasanaeth cymorth integredig sy'n helpu teuluoedd i wneud newidiadau a fydd yn gwella'r sefyllfa i'r teulu cyfan, yn ogystal ag i'r plentyn. |
| **Tîm o Gwmpas y Teulu Abertawe** | Y de-orllewin | Plant a theuluoedd | £406,151<br>Haf 2011-Rhag 2014 | Newid diwylliant ac arferion gwaith gwasanaethau aml-asiantaeth er mwyn gwella'r canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd |
| **Adeiladu Capasiti CNPT** | Y de-ddwyrain | Iechyd a gofal cymdeithasol | £558,940<br><br>2011-2014 | Creu capasiti a gallu a rennir ar gyfer BGLI CNPT er mwyn gallu cyflymu'r broses o drawsnewid gwasanaethau lleol ar sail arbedion effeithlonrwydd a chynnig gwell gwasanaethau i bobl hŷn |
| **Integreiddio Ardaloedd Lleol RhCT** | Y de-ddwyrain | Iechyd a gofal cymdeithasol | £965,088.10<br>Ebrill 2013 – Rhag 2014 | Sicrhau bod dogfennau polisi allweddol LIC yn cael eu cyflenwi'n lleol, gan hybu integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol trwy weithio'n effeithiol yn yr ardal leol |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhybudd Aer CNPT** | Y de-orllewin | Yr Amgylchedd | £75,000 dros 3 blynedd<br>2011-2014 | Profi a all gwybodaeth unigolion am ansawdd aer gwael helpu gyda hunan-reolaeth yr unigolyn, gan leihau'r cyswllt â systemau gofal iechyd |
| **Cyngor a Chymorth Sir Gâr** | Y de-orllewin | Gwrthdlodi | £173,298<br>2011-14 | Gwella'r cydlyniad rhwng cyrff sy'n cefnogi pobl mewn tlodi â chyngor a chefnogaeth |
| **Rhannu Gwybodaeth Bersonol Caerffili** | Y de-ddwyrain | Iechyd a gofal cymdeithasol | £209,517<br>2012/3-2014 | Creu Protocolau Rhannu Gwybodaeth rhwng y cyngor, y bwrdd iechyd, y sector gwirfoddol, iechyd meddwl ac addysg |
| **Pasbort Caerffili** | Y de-ddwyrain | Cyflogaeth a sgiliau | £372,220<br>2012-2014 | Darparu rhaglen gydlynus, gyfannol o gymorth i bobl ifanc (16-24), gan ddod â phersbectif y cyflogwr a chymorth cyflogaeth at ei gilydd |
| **Prosiect y Dull Cydlynol o Ddatblygu'r Gweithlu - Conwy** | Y gogledd | Cyflogaeth a hyfforddiant | £168,640<br>2012-14 | Datblygu agwedd ar y cyd at ddatblygu'r gweithlu, prentisiaethau a strategaethau hyfforddi ar draws cyrff sector cyhoeddus |
| **Llwyddiant Sir Gaerfyrddin** | Y de-orllewin | Cyflogaeth a sgiliau | £47,289 dros 2 flynedd<br>Ion13 - Rhag14 | Datblygu, hyrwyddo a chydlynu 40 o brentisiaethau a/neu gyfleoedd eraill i bobl ifanc gyrchu hyfforddiant yn sector cyhoeddus a gwirfoddol Sir Gaerfyrddin |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Broceriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol Trydydd Sector Gorllewin Cymru** | Y de-orllewin | Iechyd a gofal cymdeithasol | £398,000<br>prosiect 2 flynedd | Defnyddio’r trydydd sector i hybu iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion |
| **Partneriaethau Iach Abertawe** | Y de-orllewin | Iechyd a gofal cymdeithasol | £73,976 dros 12 mis | Cynyddu’r cyfeirio ymlaen a gwybodaeth gyhoeddus/broffesiynol am y ddarpariaeth trydydd sector trwy weithio ar y cyd |
| **Llwybrau Ymgysylltu Cynyddol Sir Ddinbych** | Y gogledd | Cyflogaeth a sgiliau | £64,000 dros 12 mis | Gwella’r gefnogaeth a’r ddarpariaeth gydlynus i bobl ifanc NEET |
| **Rhaglen Newid Merthyr** | Y de-ddwyrain | Cyflogaeth a sgiliau | £538,100 (gan gynnwys oddi wrth WLGA a WCVA) dros 2 flynedd | Datblygu a gwreiddio diwylliant ar draws cyrff sector cyhoeddus mewn pum awdurdod (Merthyr Tydfil, Pen-y-bont, Torfaen, Blaenau Gwent, RhCT) sy’n cydnabod pwysigrwydd gwaith ar iechyd a llesiant |
| **Gwrthdlodi Sir Ddinbych** | Y gogledd | Gwrthdlodi | £241,300 o fis Mai 13 – Rhag 14 | Ymdrin ag eithrio ariannol trwy gydlynu’r gwasanaethau cyngor a gwybodaeth a gyflenwir a hyfforddi staff ar y cyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Partneriaeth Amgylcheddol Sir Gaerfyrddin** | Y de-orllewin | Yr amgylchedd | £150,500<br>3 blynedd Rhag 2011 – 14 | Sicrhau deialog a rhannu arfer da mewn materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd |
| **Ymgynghori ac Ymgysylltu RhCT** | Y de-ddwyrain | Ymgysylltu â dinasyddion | £282,481<br>Hyd 2012 - Rhag 2014 | Sefydlu prosiect ymgynghori ar y cyd a fyddai'n caniatáu dull gweithredu cydlynus mewn partneriaeth yng nghyswllt gweithgaredd ymgynghori ar draws a rhwng BGLlau Merthyr Tydfil a RhCT |

3.5 Mae canfyddiadau'r meta-ddadansoddiad wedi darparu tystiolaeth ychwanegol ynghylch pwysigrwydd y themâu craidd hyn ac maent wedi nodi rhai eraill. Byddwn yn trafod pob un o'r rhain yn eu tro isod.

**Natur y cydweithio**

3.6 Dangosodd yr adroddiad ffurfiannol fod amrywiaeth o ffactorau sy'n helpu i bennu llwyddiant gwaith prosiect ar y cyd. Roedd y rhain yn cynnwys a oedd diwylliant sefydledig o weithio ar y cyd; a oedd dull gweithredu strategol ar waith; agweddau sefydliadau partner unigol at y cydweithio; a sut mae sefydliadau'n gweithio ar y cyd â'r sector cyhoeddus neu'r trydydd sector. Ar ben hynny, roedd pwysigrwydd ymddiriedaeth a chyfathrebu agored rhwng partneriaid y prosiect yn helpu i bennu a oedd y cydweithio'n 'ychwanegu gwerth', h.y. sut roedd yn gwella gwasanaethau mewn modd na allai'r sefydliadau partner unigol fod wedi'i ddarparu.

3.7 Mae ein meta-ddadansoddiad yn cefnogi'r canfyddiadau hyn ac yn ychwanegu enghreifftiau a dirnadaeth ychwanegol.

3.8 Ymddangosai fod y prosiectau hynny oedd yn adeiladu ar **gydweithio oedd eisoes yn digwydd**, megis Rhannu Gwybodaeth Bersonol Caerffili, Integreiddio Ardaloedd Lleol RhCT a Broceriaid Trydydd Sector Gorllewin Cymru, yn gallu gwneud cynnydd yn gynt. Cynorthwywyd hynny hefyd gan y ffaith bod y Prosiect a ariannwyd gan ESF yn gallu dysgu o brosiect peilot blaenorol ac adeiladu arno, fel yn achos Cyngor a Chymorth Sir Gâr a Phartneriaethau Iach Abertawe.

3.9 Mewn cyferbyniad, roedd y prosiectau hynny oedd yn 'cychwyn o ddim' yn profi oedi wrth gyflenwi oherwydd eu bod yn gorfod creu partneriaeth gydweithio effeithiol (oedd yn aml yn dibynnu ar benodi rheolwr prosiect, proses oedd yn aml yn destun oedi). Roedd hyn yn arbennig o heriol yn achos prosiectau trawsffurfiannol mawr megis Newid Merthyr, er gwaethaf y dadansoddiad anghenion a gynhaliwyd a'r ffynonellau ychwanegol o gyllid a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru, WLGA, a WCVA.

3.10 Roedd prosiectau'n fwy tebygol o wneud cynnydd os oeddent yn **eglur ynghylch nodau'r prosiectau a'r angen am gydweithio.** Roedd mwyafrif y prosiectau yn y meta-ddadansoddiad o'r farn bod cydweithio'n bwysig i wella ansawdd gwasanaeth a lleihau dyblygu (e.e. o fewn y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) trwy Lwybrau Ymgysylltu Cynyddol Sir Ddinbych) yn hytrach na thrwy greu arbedion effeithlonrwydd neu arbedion arian parod yn benodol.

3.11 Roedd rhai partneriaethau'n sôn yn benodol am ddefnyddio'r prosiect i sbarduno newid trawsffurfiannol trwy ffyrdd newid o weithio er mwyn ymdrin â heriau cymhleth (e.e. Newid Merthyr, Partneriaethau Iach Abertawe). Roedd eraill, megis y Tîm o Gwmpas y Teulu yn Abertawe a Chysylltu Teuluoedd ym Mhen-y-bont, am ymagweddu'n fwy cyfannol trwy ddylunio gwasanaethau o amgylch digwyddiadau bywyd ac amgylchiadau unigolyn, yn hytrach na defnyddio agwedd fwy traddodiadol, 'dan arweiniad y darparwr', a hynny trwy un sefydliad neu adran.

**Diwylliant o gydweithio ac ymgysylltu**

3.12 Canfu'r detholiad o astudiaethau achos yn yr adroddiad ffurfiannol fod lleoliad y prosiect yn strwythur y sefydliad yn bwysig, gan y gall ddylanwadu ar nifer y dylanwadau y gellir eu defnyddio, a pha gefnogaeth mae'r prosiect yn ei derbyn. Yn benodol, pan oedd prosiect wedi'i leoli mewn adran drawsbynciol yn hytrach nag adran gwasanaeth penodol, gallai 'estyn ar draws y sefydliad'. Datblygodd y meta-ddadansoddiad y thema hon trwy archwilio i ba raddau a pha fecanweithiau roedd sefydliadau'n eu defnyddio i gyflawni 'diwylliant o gydweithio', gydag ystod eang o staff sy'n ymwneud â gweithio ar y cyd.

3.13 Roedd enghreifftiau da o'r lefel hon o **ymgysylltiad staff** i'w gweld ym mhrosiectau Llwybrau Ymgysylltu Blaengar Sir Ddinbych, Adeiladu Capasiti CNPT, Cysylltu Teuluoedd Pen-y-bont, a'r Tîm o Gwmpas y Teulu yn Abertawe, yr oedd pob un ohonynt wedi sefydlu model integredig o gyflenwi gwasanaeth ar sail rhannu gwybodaeth ac ailddylunio trwy ymgysylltu â phartneriaid lluosog.

3.14 Defnyddiodd prosiectau eraill ddulliau penodol o gynnwys staff, gan gynnwys trwy hyfforddiant rhyng-ddisgyblaeth (e.e. Ymgynghori ac Ymgysylltu RhCT a Gwrthdlodi Sir Ddinbych) a/neu drwy annog staff gweithrediadol i ymaelodi â grwpiau gorchwyl a gorffen, fel yn Natblygiad y Gweithlu yng Nghonwy.

3.15 Roedd sawl prosiect yn cael **trafferth ymgysylltu'n ddigonol â'r GIG** am nifer o resymau, gan gynnwys y ffaith bod Byrddau Iechyd yn cwmpasu nifer o awdurdodau lleol a BGLlau, gwahanol flaenoriaethau a chyfyngiadau ar adnoddau. Ymhlith yr enghreifftiau o effaith yr amrywiol ffactorau hyn roedd diffyg ymwneud cymharol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n cwmpasu holl ardal Gogledd Cymru, prosiect Gwrthdlodi Sir Ddinbych, ac ymgysylltiad amrywiol meddygon teulu ym Mhartneriaethau Iach Abertawe.

3.16 Lle roedd gwasanaethau iechyd yn bartner allweddol i'r prosiect ac yn rhan o'r dyluniad gwreiddiol (e.e. y Tîm o Gwmpas y Teulu yn Abertawe, Broceriaid Trydydd Sector), roedd yn haws ymgysylltu â nhw. Mewn cyferbyniad, roedd prosiectau'n cael mwy o drafferth cynnwys Byrddau Iechyd pan nad oeddent yn rhan annatod o weithrediad y prosiect.

3.17 Y tu hwnt i iechyd, cafodd rhai prosiectau anhawster i gynnwys partneriaid sector cyhoeddus eraill. Ym mhrosiect Ymgynghori ac Ymgysylltu RhCT, nid oedd yr heddlu ac ysgolion (o bosib am reswm da) yn defnyddio'r canolbwynt ymgynghori ar y cyd i'r un graddau â'r ddau awdurdod lleol a'r trydydd sector.

**Cynnwys y Trydydd Sector**

3.18 Nododd y meta-ddadansoddiad nad oedd y trydydd sector wedi ymwneud rhyw lawer â'r 17 o brosiectau cyflenwi, y tu hwnt i gael eu cynrychioli ar fyrddau'r prosiectau. Yr eithriadau i hyn oedd prosiectau oedd yn ymwneud yn benodol â harneisio arbenigedd y trydydd sector. Roedd y rhain yn cynnwys prosiect Adeiladu Capasit CNPT a Phrosiect Broceriaid Trydydd Sector Gorllewin Cymru, lle defnyddiwyd broceriaid trydydd sector ar gyfer model newydd o Ofal Cyfamserol, ac yn offeryn i reoli cydweithio gweithrediadol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol; Ymgynghori ac Ymgysylltu RhCT yng Nghwm Taf, lle bu'r trydydd sector yn darparu'r hyfforddiant staff rhyngasiantaeth; a Phartneriaethau Iach Abertawe, lle cyflawnodd y trydydd sector rôl arweiniol o ran gwella gofal iechyd. Mae portreadau cryno, sy'n cyflwyno arfer da o'r tri phrosiect olaf yng nghyswllt cynnwys y trydydd sector, i'w gweld isod[7].

[7] Dylid nodi nad oedd llawer o brosiectau cymaradwy yn y maes polisi hwn, felly rydym wedi diffinio 'arfer da' fel prosesau sydd wedi cyfrannu at gyflawni canlyniadau, ac y dylai fod modd eu trosglwyddo i gyd-destunau eraill, yn hytrach nag 'arfer da' o gymharu â phrosiectau eraill tebyg.

## Arfer da o ran cynnwys y Trydydd Sector i wella'r gwasanaeth a gyflenwir

**Broceriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol Trydydd Sector Gorllewin Cymru**

*Nodau*

Fel rhan o'r symudiad tuag at fwy o integreiddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, nod y prosiect oedd defnyddio 'broceriaid Trydydd Sector' i sicrhau bod modd i wasanaethau trydydd sector gynnal y gwaith o gyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd a fyddai'n cynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr gwasanaeth a'u defnydd o'r gwasanaethau hyn. Un arall o nodau allweddol y prosiect oedd helpu i gynyddu capasiti'r trydydd sector.

Mae'r prosiect yn cwmpasu Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Roedd rôl y broceriaid yn cynnwys cysylltu â phobl yr oedd angen cefnogaeth arnynt, yn ogystal â chreu cysylltiad rhwng gwasanaethau statudol a'r trydydd sector.

*Canlyniadau*

- canfu gwerthusiad annibynnol, allanol o'r prosiect (Apteligen, 2014) ei fod yn cael effaith uniongyrchol ar allu cleientiaid i gyrchu gwasanaethau sy'n fwy priodol ar gyfer eu hanghenion, a bod y mwyafrif o gleientiaid wedi cael 'llawer' neu 'rywfaint' o help gan rôl Broceriaid y Trydydd Sector;
- roedd dros 80% o'r ymatebwyr i arolwg o ddarparwyr gwasanaeth yn cytuno bod broceriaid yn helpu i deilwra'r gefnogaeth yn well at anghenion cleientiaid, i leihau dibyniaeth pobl ar wasanaethau statudol, a'u bod yn alluogwyr allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau;
- cynhyrchodd y prosiect enillion cadarnhaol ar y buddsoddiad ariannol uniongyrchol dros gyfnod o ddwy flynedd; ac
- mae rôl y broceriaid wedi cael ei wreiddio'n gynyddol yn y ddarpariaeth gwasanaeth leol, a bydd cyfeiriadur ar-lein o wasanaethau trydydd sector – InfoEngine – yn parhau wedi i'r prosiect dwy flynedd ddod i ben.

Mae rôl y broceriaid hefyd wedi dyfnhau'r wybodaeth am gapasiti sydd ar gael yn y trydydd sector, ac wedi nodi meysydd angen y gellid defnyddio'r capasiti hwnnw i ymdrin â hwy. Mae hyn wedi dechrau cael ei drosi'n newidiadau i'r ddarpariaeth trydydd sector, er y bydd yn cymryd cyfnod hwy i'w fwydo i'r prosesau comisiynu ar lefel y sir.

*Dysgu o'r hyn a lwyddodd*

Dysgodd y prosiect o lwyddiant rôl brocer tebyg yn Sir Benfro a fu ar waith ers 2009 – a bu'n adeiladu arno. Bu hynny o gymorth i godi lefel ymwneud y trydydd sector â chynllunio gofal a chydweithio traws-sector.

Roedd y pum brocer yn rhan o dimau iechyd a gofal cymdeithasol (yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, roedden nhw'n gweithio'n bennaf mewn timau adnoddau cymunedol Iechyd a Gofal Cymdeithasol integredig. Yng Ngheredigion, roedden nhw'n gweithio mewn amrywiaeth o dimau amlddisgyblaeth mewn meddygfeydd teulu ac yn y gymuned).

Bu agwedd ragweithiol y broceriaid – yn ogystal â chroesgyfeirio cleientiaid ac ymweliadau ar y cyd i asesu anghenion cleientiaid gyda gweithwyr cymdeithasol – o gymorth i feithrin perthynas gyda'r gwasanaethau statudol.

*"Mae pobl wedi dod yn ymwybodol o'r broceriaid trwy gyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth neu adnoddau cymunedol. Mae hynny o ganlyniad uniongyrchol i ymdrechion y broceriaid i ymgysylltu â grwpiau o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae'r broceriaid hefyd wedi cynyddu ymwybyddiaeth trwy fynychu digwyddiadau 'rhwydweithio carlam', digwyddiad 'cwrdd â'r arianwyr' a gweithdy i gwnselwyr profedigaeth".* (Apteligen, 2014)

**Partneriaeth Iach Abertawe**

*Nodau*

Daeth y prosiect hwn i fodolaeth ar adeg pan oedd ymgyrch i sicrhau mwy o ymwneud yn y trydydd sector oherwydd cyfyngiadau cyllid ac adnoddau. Serch hynny, roedd lefel y cydweithio cyn i'r prosiect gychwyn yn gymysg – roedd ychydig dros hanner y staff gofal cychwynnol yn atgyfeirio i'r trydydd sector unwaith y mis neu fwy.

Mewn ymateb, nod y prosiect oedd cynyddu'r cyfeirio ymlaen a gwybodaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch y ddarpariaeth trydydd sector trwy weithio ar y cyd rhwng y trydydd sector a'r sector statudol, gyda chefnogaeth rheolwr prosiect. Roedd y dull gweithredu'n adeiladu ar beilot llwyddiannus a gwblhawyd gan Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (SCVS) ac a oedd yn cynnwys mwy na 48 o sefydliadau.

*Canlyniadau*

Cyflawnodd y prosiect y canlyniadau yr oedd yn gobeithio eu cyrraedd[8], gan gynnwys:

- cynnwys gwybodaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch gwasanaethau trydydd sector;
- cynyddu'r cyfeirio ymlaen at wasanaethau trydydd sector;
- datblygu canllaw arfer da; a
- chynyddu'r cydweithio rhwng y trydydd sector a phartneriaid iechyd.

Roedd hyd a lled y cydweithio yn ystod y prosiect yn gryf yn gyffredinol, er ei fod yn amrywio ac yn dibynnu ar faint practis y meddyg teulu a lefel yr ymgysylltiad gan staff oddi mewn i'r practis.

*Dysgu o'r hyn a lwyddodd*

Roedd defnyddio'r dysgu o brosiect peilot SCVS yn amhrisiadwy wrth lywio'r broses o estyn prosiect Partneriaethau Iach Abertawe. Daliodd SCVS ati i chwarae rôl bwysig yn y prosiect trwy wneud y canlynol:

- defnyddio ei e-fwletin i hyrwyddo'r prosiect; a
- rhoi clinigau gwybodaeth ar waith bob pythefnos.

Roedd ymwneud ehangach â'r trydydd sector hefyd yn bwysig, gan gynnwys trwy'r canlynol:

---

[8] Er nad ymddengys bod y canlyniadau hyn wedi cael eu mesur.

- bod â stondinau gwybodaeth wedi’u staffio gan gynrychiolydd o’r trydydd sector mewn Meddygfeydd Teulu, gan ganiatáu ar gyfer cydweithio uniongyrchol a chreu cysylltiadau; a
- chwe sefydliad trydydd sector yn cymryd rhan mewn sesiwn addysgu oedd yn cael ei darparu i Nyrsys Practis.

Dysgu o’r prosiect Partneriaethau Iach:

- bu’n bwydo i ddau arbrawf yng Nghastell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont; ac
- fe’i rhannwyd yn eang trwy gynhadledd y bu 150 o unigolion yn ei mynychu, a hynny o gyrff trydydd Sector, meddygfeydd teulu, yn ogystal â chynrychiolwyr o Ddinas a Sir Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Llywodraeth Cymru.

**Ymgynghori ac Ymgysylltu RhCT**

*Nodau*

Defnyddiodd Byrddau Gwasanaethau Lleol Merthyr Tydfil a Rhondda Cynon Taf gyllid ESF i sefydlu prosiect partneriaeth a fyddai’n golygu bod modd sicrhau dull cydlynus o ymdrin â gweithgaredd ymgynghori ar draws a rhwng y ddau Fwrdd Gwasanaethau Lleol.

*Canlyniadau*

Mae’r prosiect wedi sefydlu’r canlynol:

- canolbwynt Ymgynghori ar-lein, y gwneir defnydd da ohono gan sefydliadau partner i ymgynghori â’r cyhoedd. Mae hyn yn darparu ‘siop dan yr unto i alluogi’r cyhoedd i leisio barn’, ochr yn ochr a chyfleuster ar y cyd ar gyfer dadansoddi meddalwedd arolygon a dadansoddi data;
- panel Dinasyddion gyda 1,607 o aelodau, a ddefnyddir ar gyfer ymgyngoriadau rheolaidd; a
- swydd newydd Cydlynydd Ymgynghori ym Merthyr Tydfil (i gyd-fynd â’r system sydd eisoes yn bodoli yn Rhondda Cynon Taf).

Mae’r partneriaid yn dweud bod y Canolbwynt wedi gwella’r ymgynghori, yn ogystal â lleihau costau a dyblygu, er nad yw’r effeithiau hynny wedi cael eu mesur.

Mae ymrwymiad parhaus gan bartneriaid y Bwrdd Cydweithio Rhanbarthol i gefnogi’r Canolbwynt trwy gytuno i’w ariannu am o leiaf 12 mis wedi i’r cyllid ESF ddod i ben. Mae gwaith dilynol ar y gweill i ddatblygu Canolbwynt cynllun newydd, yn ogystal â Chanolbwynt i bobl ifanc.

Lansiwyd Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ar y Cyd yn hydref 2014 mewn digwyddiadau Llais y Gymuned, a sefydlwyd Grŵp Ymgysylltu â’r Cyhoedd i ddatblygu’r strategaeth a’i symud yn ei blaen.

*Dysgu o’r hyn a lwyddodd*

Cynrychiolwyd y trydydd sector ar Grŵp Llywio’r Prosiect, a bu’n weithredol yn y trafodaethau partneriaeth a’r cyflenwi. Y trydydd sector arweiniodd y strategaeth ar y cyd a’r hyfforddiant a ddarparwyd trwy Cyfranogiad Cymru, a bu’r ddau awdurdod lleol yn arwain y

Canolbwynt Ymgynghori ar-lein a'r Panel Dinasyddion. (Chwaraeodd gwasanaethau statudol eraill, megis y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu ac ysgolion, lai o ran.)

Gweithiodd yr hyfforddiant staff a ddatblygwyd gyda Cyfranogiad Cymru yn dda. Darparwyd deg o gyrsiau i gyfanswm o 132 o gyfranogwyr.

3.19 Er bod cyfle o bosibl i'r trydydd sector ymwneud yn fwy â phrosiectau eraill, adroddwyd am sawl math o rwystrau i hyn, gan gynnwys diffyg capasiti yn y trydydd sector (e.e. Cyngor Sir Gâr), natur ddarniog y trydydd sector, gwrthdaro buddiant canfyddedig; a methiant y prosiect i roi ystyriaeth ddigonol i rôl bosibl y trydydd sector. Gwelwyd yr olaf o'r rhain ym mhrosiect Gwrthfwlio Sir Ddinbych, a arweiniwyd gan y cyngor, felly bu'r trydydd sector, er ei fod yn cael ei gynrychioli ar Fwrdd y Prosiect, yn chwarae rhan lai yn y dylunio a'r cyflenwi.

**Rôl rheolwr y prosiect**

3.20 Pwysleisiodd yr adroddiad ffurfiannol sut roedd y gwerthusiad wedi canfod bod rôl rheolwr y prosiect yn hanfodol i lwyddiant y prosiectau cyflenwi. Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y symudiad mwy cyffredinol i ffwrdd oddi wrth agwedd a phrofiad rheolaeth draddodiadol y sector cyhoeddus (h.y. ar sail trafodion, hierarchaeth, ac fel arfer mewn un sefydliad yn unig) i'r sgiliau y mae eu hangen i arwain partneriaethau (h.y. trawsffurfiannol, ysgogol, rheoli perthnasoedd).

3.21 Cadarnhaodd y meta-ddadansoddiad hyn, ac archwilio'r sgiliau a'r cymwyseddau penodol y byddai eu hangen ar reolwr prosiect i fod yn effeithiol, yn arbennig wrth sbarduno a/neu gefnogi rhai o'r agweddau uchod ar gydweithio, megis ymgysylltu â phartneriaid a staff, a ffyrdd newydd o weithio.

3.22 Canfuwyd, beth bynnag oedd maes polisi neu wasanaeth y Prosiect, fod angen sgiliau cyffredinol ar reolwr prosiect i feithrin a chynnal perthnasoedd (e.e. sgiliau cyfathrebu a chyd-drafod) yn ogystal â phrofiad a sgiliau rheoli prosiect (e.e. cynllunio a monitro prosiect, PRINCE 2). Roedd dealltwriaeth o faes pynciol y Prosiect yn ddefnyddiol – a gallai helpu i adeiladu hygrededd – ond nid oedd yn hanfodol.

3.23 Cofnododd prosiectau a brofodd oedi wrth benodi rheolwr y prosiect (e.e. Newid Merthyr), neu lle bu deilydd y swydd yn ymadael a bu'n rhaid cael hyd i rywun yn ei le, fod hynny'n rhwystr sylweddol i gynnydd. Dangosodd hyn hefyd pa mor hanfodol yw rôl rheolwr y prosiect, er bod hynny o bersbectif gwahanol.

3.24 Isod ceir portreadau byr o arfer da gan Amgylchedd Sir Gaerfyrddin, Newid Merthyr a Dull Cydlynol o Ddatblygu'r Gweithlu yng Nghonwy yng nghyswllt rôl rheolwr y prosiect.

## Arfer da o ran defnyddio rôl Rheolwr y Prosiect i wella'r gwasanaeth a gyflenwir

### Amgylchedd Sir Gaerfyrddin

*Nodau*

Gwnaeth BGLl Sir Gaerfyrddin gais am gyllid ESF yn benodol er mwyn creu swydd ddynodedig *'Swyddog Datblygu'r Bartneriaeth Amgylcheddol'* (EPDO) i greu deialog a rhannu arfer da mewn materion oedd yn ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd. Cyn y rôl EPDO, cefnogwyd y Bartneriaeth Amgylcheddol – sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin (CAVS) gan staff CAVS, ond seiliwyd y rhesymeg ar gyfer yr EPDO ar yr angen am fwy o strwythur, cydlyniad a chyfeiriad.

Cyflawnodd yr EPDO nifer o rolau, gan gynnwys cefnogi'r BGLl i gyflenwi targedau datblygu cynaliadwy heriol; cefnogi'r Bartneriaeth Amgylcheddol i arwain, cydlynu, datblygu a rheoli prosiectau ei gweithgaredd, gan adrodd i'r BGLl bob chwe mis; trefnu cyfarfodydd chwarterol o fforwm y Bartneriaeth Amgylcheddol a'r pwyllgor gweithredol; cynhyrchu newyddlen fisol; defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth o waith y Bartneriaeth Amgylcheddol; a hwyluso cyfarfodydd a digwyddiadau partneriaeth. Mewn ymateb i ganfyddiadau gwerthusiad lleol y cyfnod cyntaf, dechreuodd yr EPDO weithio'n agosach gyda'r trydydd sector a chymunedau lleol, a chyda chydweithwyr ym meysydd gwastraff a thrafnidiaeth gynaliadwy.

*Canlyniadau*

Canfu'r gwerthusiad lleol annibynnol fod partneriaid yn canmol gwerth a manteision meddu ar adnodd dynodedig i gydlynu'r Bartneriaeth Amgylcheddol (Cotyledon 2015). Mae'r rôl wedi ychwanegu gwerth at strategaethau ehangach ac wedi cyfrannu at well dealltwriaeth o agenda'r newid yn yr hinsawdd. Mae wedi darparu fforwm ar gyfer herio ffyrdd o feddwl a chychwyn trafodaethau ynghylch perthnasedd newid yn yr hinsawdd i bartneriaid y BGLl, cynghorau tref a chymuned a sefydliadau mawr, er bod lle i ddatblygu lefel y cydweithio â'r sector preifat.

Mae'r gwelliant hwn o ran cydweithio ac ymwybyddiaeth wedi galluogi Sir Gaerfyrddin i ailffocysu ei chynlluniau ar gyfer addasu a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Ar ben hynny, mae Grant Her Gymunedol y Cyngor, a weinyddwyd gan yr EPDO i gefnogi mynediad lleol, bioamrywiaeth a gwella amgylcheddau lleol, wedi llwyddo gyda chymunedau ac ysgolion, a chefnogwyd amrywiaeth o brosiectau drwy gyllid a hyrwyddo.

*Dysgu o'r hyn a lwyddodd*

Roedd creu un rôl ddynodedig i'r EPDO – a sicrhau unigolyn oedd â'r sgiliau angenrheidiol – fel ei gilydd yn hanfodol i sicrhau bod y Bartneriaeth Amgylcheddol yn gwneud cynnydd. Roedd y sgiliau hynny'n cynnwys:

- y gallu i feithrin perthynas gydag amrywiaeth eang o sefydliadau partner;
- canolbwyntio cyfeiriad y gwaith Partneriaeth ar ganlyniadau a cherrig milltir;
- cydlynu a rheoli'r prosiect; a
- defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfathrebu â'r gymuned ehangach a'i chynnwys.

*"Mae'r rôl yn… gymhleth ac yn dibynnu ar greu perthnasoedd cryf o fewn y sector statudol a'r trydydd sector"* (Cotyledon 2015)

**Rhaglen Newid Merthyr**

*Nodau*

Trwy broses o reoli newid, nod y rhaglen oedd datblygu diwylliant ar draws cyrff sector cyhoeddus oedd yn annog staff i gefnogi pobl i gydnabod pwysigrwydd gwaith a sut y gallai wella'u hiechyd a'u llesiant eu hunain. Y pum BGLl dan sylw oedd Merthyr Tydfil, Pen-y-bont, Torfaen, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf.

Crewyd pum swydd Swyddog Rheoli Newid (CMO) (un ym mhob awdurdod) i argymell, hyrwyddo a gweithredu amrywiaeth o weithgareddau oedd yn ceisio datblygu a gwreiddio newid diwylliant. Roedd y rhain yn cynnwys dulliau ar y cyd o gyfleu nodau a chanlyniadau i'r BGLl, hyfforddiant rhanbarthol ar gyfweliadau ysgogol[9], cynlluniau gweithredu lleol a rennid, a sefydlu grwpiau cyflogadwyedd.

Hwyluswyd gweithgareddau'r pum swyddog gan fframwaith cefnogi rhanbarthol oedd yn caniatáu iddynt gydweithio, gan greu partneriaethau newydd gyda sefydliadau sydd wedi cynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCCiaid), yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân, a rhai rhannau o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, yn arbennig ymwelwyr iechyd a'r rhai sy'n gweithio ym maes gwasanaethau plant a ieuenctid.

*Canlyniadau*

Dangosodd y gwerthusiad lleol annibynnol newidiadau cymharol fach i 'gamau gweithredu, agweddau a chredoau oedd yn ymwneud â mynd i'r afael a diffyg gwaith a'r cysylltiadau rhwng hynny â iechyd a llesiant ehangach trigolion ardal y rhaglen Newid' (Wavehill 2015).

Fodd bynnag, canfu fod y credoau mwy cyffredinol ynghylch nodau'r Prosiect yn cael cefnogaeth dda ar draws awdurdodau lleol, er gwaethaf cwmpas cymharol fach y Prosiect o fewn y cyfyngiadau amser. Y prif reswm am hynny oedd anawsterau wrth recriwtio CMOs, oedd yn elfen hanfodol o'r Prosiect, ond roedd yn golygu mewn rhai ardaloedd nad oedd yr adnoddau llawn ar gyfer cyflenwi'r prosiect mewn rhai ardaloedd ar gael ond am 12-18 mis.

[9] Techneg yw cyfweliadau ysgogol a ddefnyddir i helpu defnyddwyr gwasanaeth i bennu nodau a chynlluniau gweithredu

*Dysgu o'r hyn a lwyddodd*

Gwelwyd bod rôl y Swyddogion Rheoli Newid yn elfen hanfodol wrth gyflenwi'r rhaglen Newid. Gwnaeth yr ardaloedd hynny oedd â Swyddog am gyfnod hwy gynnydd oedd yn amlwg yn fwy na'r rhai lle bu oedi arbennig yn achos y penodiad, neu lle newidiodd deilydd y swydd yn ystod oes y prosiect.

Canfu'r gwerthusiad lleol fod 'adnodd wedi'i dargedu a alluogwyd i yrru cynnydd yn ei flaen oddi mewn i agenda rheoli newid yn hanfodol yn y math hwn o waith rheoli newid, er mwyn gweithredu i hyrwyddo, argymell a datblygu gweithgareddau'r rhaglen'.

Nododd y gwerthusiad hefyd y cymwyseddau allweddol oedd yn angenrheidiol er mwyn i'r unigolyn oedd yn llenwi rôl y Swyddog fod yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sgiliau o ran meithrin perthynas a phartneriaeth;
- arddull waith agored; a'r
- gallu i fanteisio ar gyfleoedd newydd.

Ar ben hynny, gwnaeth y partneriaid y sylw bod y CMOs yn cyflawni rôl allweddol yn y gwaith o hyrwyddo ac argymell gweithio cydlynus fel rhan o'r prosiect.

**Dull Cydlynol o Ddatblygu'r Gweithlu yng Nghonwy**

*Nodau*

Y sector cyhoeddus yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghonwy a Sir Ddinbych, ac er bod cynllunio a datblygu'r gweithlu yn bwysig i holl Bartneriaid BGLl Conwy, dim ond gwaith cyfyngedig oedd yn digwydd rhyngddynt. Roedd BGLl Conwy am weld ymrwymiad a rennid i geisio sicrhau mwy o waith ar y cyd ym maes prentisiaethau a lleoliadau profiad gwaith o ansawdd i wella cyflogadwyedd yn y boblogaeth leol, ac yn arbennig ymhlith pobl ifanc.

Defnyddiwyd cyllid ESF i gyflogi rheolwr prosiect, sy'n gweithio gyda Thîm Prosiect (gyda chynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych, y coleg lleol, yr heddlu, y gwasanaeth tân, iechyd, tai, CVC Conwy a Sir Ddinbych, a Chyngor Parc Cenedlaethol Eryri), sy'n cwrdd bob deufis.

Ymhlith y gweithgareddau roedd digwyddiadau ymgynghori Caffi Byd, a gynhaliwyd ar ddechrau'r prosiect i annog partneriaid i ymuno, digwyddiadau hyfforddi i staff ar draws sefydliadau partner y BGLl i wella'r gwaith mewn partneriaeth, Grwpiau Gorchwyl a Gorffen bychain er mwyn cynhyrchu darnau penodol o waith, digwyddiad cynyddu ymwybyddiaeth gyda rheolwyr ar draws y gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo gwerth prentisiaethau, yn ogystal â digwyddiad ymgynghori ar raddfa fawr ar brofiad gwaith gydag ysgolion, pobl ifanc a rhanddeiliaid eraill. Cynhyrchodd gweithdy ar y cyd â phrentisiaid i helpu i lunio'r 'llwybr o brentisiaeth i gyflogaeth' "rai syniadau rhagorol nad oeddent wedi'u hystyried yn flaenorol" (BGLl Conwy a Sir Ddinbych 2014a).

*Canlyniadau*

Cafwyd ymatebion cadarnhaol i'r Prosiect o arolygon prentisiaid a rheolwyr a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad mewnol. Mae nifer y prentisiaethau ar draws partneriaid y BGLl wedi cynyddu (o 92 yn 2011-12 i 135 yn 2013-14, er nad oes data ynghylch cyflogaeth na chynlluniau addysg bellach y prentisiaethau a ddaeth i ben.

Arweiniodd y prosiect at ddysgu a chefnogaeth traws-sector trwy hyfforddiant tywys, sydd wedi galluogi partneriaid i rannu sgiliau a gwybodaeth, a fydd yn cynyddu gallu ar y cyd i drawsnewid a gwella sut gall partneriaethau weithio. Rhoddwyd cynllun gweithredu etifeddiaeth ar waith i symud y gwaith ymlaen y tu hwnt i ddiwedd y prosiect, trwy'r Grŵp Dull Cydlynol o Ddatblygu'r Gweithlu. (Mae rheolwr y prosiect wedi symud i swydd newydd.)

*Dysgu o'r hyn a lwyddodd*

Mae'n annhebygol y byddai'r prosiect wedi gallu cyflawni dim heb fod rhywun yn gyfrifol am gydlynu'r camau gweithredu ar draws y partneriaid. Er bod y partneriaid unigol yn ymwneud â'r cyflenwi ac yn arwain gweithgareddau penodol, rôl rheolwr y prosiect oedd yn sicrhau cydlyniant ac yn cynnal y momentwm.

Bu defnyddio methodoleg PRINCE 2 o gymorth i gadw'r prosiect cymhleth ar y trywydd iawn, a bu'r dull o reoli risgiau yn fodd i reolwr y prosiect drosglwyddo risgiau lefel uchel at sylw Bwrdd y Prosiect lle roedd hynny'n briodol. Roedd hyn yn sicrhau bod system ar waith i ofalu bod unrhyw risgiau a thrafferthion yn derbyn sylw gan aelodau uwch o staff, oedd yn golygu wedyn eu bod mewn sefyllfa i fedru 'dylanwadu' ar staff gweithrediadol yn ôl y galw.

3.25 Nid oedd y prosiectau a gynhwyswyd yn y meta-ddadansoddiad yn darparu llawer o dystiolaeth ynghylch a oedd rheolwyr prosiect yn datblygu ac yn rhannu sgiliau yn ystod eu cyfnod yn y swydd, na sut roedd hynny'n digwydd.[10] Roedd peth tystiolaeth gyfyngedig ar gael oedd yn dangos pa mor bwysig oedd hi i reolwr prosiect weithredu fel galluogwr i eraill trwy ddatblygu a lledaenu sgiliau rheoli prosiect oddi mewn i dîm ehangach y prosiect. Gallai hyn helpu i osgoi gorddibyniaeth ar un person a chyfrannu at gynaliadwyedd y prosiect y tu hwnt i'r cyllid ESF. Nid oedd yn eglur o'r meta-adolygiad faint o hynny oedd wedi bod yn digwydd yn y prosiectau a adolygwyd gennym, ond roedd achosion o or-ddibyniaeth ar reolwr y prosiect. Er enghraifft, yn yr adroddiad gwerthuso lleol, gwelwyd bod rheolwr prosiect Ymgynghori ac Ymgysylltu RhCT, er ei fod yn hanfodol i lwyddiant canfyddedig y prosiect, yn fwy o 'weithredwr' nag o alluogwr i bobl eraill.

3.26 Yn ogystal â galluogi eraill, cadarnhaodd y meta-adolygiad ganfyddiadau yn yr adroddiad ffurfiannol ynghylch pa mor bwysig oedd hi bod rheolwr y prosiect yn cael ei

[10] Roedd hwn yn ffocws i'r prosiectau a ariannwyd gan WLGA/ESF ac mae'n derbyn sylw yn y Gwerthusiad o Weithio Rhanbarthol ar y Cyd.

gefnogi gan arweinyddion uwch oddi mewn i Fwrdd y Prosiect a thîm ehangach y prosiect. Mae hynny'n sicrhau bod gan brosiect arweinyddiaeth strategol a gweithrediadol, a'i fod yn fwy tebygol o fod yn gynaliadwy.

**Arweinyddiaeth a rôl y BGLl**

3.27 Roedd yr adroddiad ffurfiannol yn honni bod arweinyddiaeth yn ffactor arwyddocaol ym mhob prosiect cydweithredol a bod modd arddangos hynny mewn gwahanol ffyrdd, ffurfiau ac ar wahanol lefelau. Mae'r rhain yn cynnwys arweinyddiaeth strategol (h.y. arweinyddiaeth reolaethol a gwleidyddol; rôl y BGLl wrth ddatblygu/sbarduno arweinyddiaeth yn y prosiectau unigol; y gefnogaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a chynghorau lleol); arweinyddiaeth ddosranedig (rhwng gwahanol rannau/lefelau'r sefydliad ac ar draws partneriaid) ac arweinyddiaeth weithrediadol.

3.28 Er peth syndod, ni ddaeth ein meta-ddadansoddiad o hyd i fawr ddim achosion lle nodwyd arweinyddiaeth fel galluogydd gan y gwerthusiadau lleol a gynhaliwyd[11]. Er ei bod hi'n eglur bod rheolwyr prosiect yn gyffredinol wedi bod yn cyflawni rôl arweinyddiaeth weithrediadol, ymddangosai fod diffyg arweinyddiaeth strategol ar gyfer prosiectau oddi mewn i sefydliadau partner ac yn allanol, o ran dod â phartneriaid at ei gilydd.

3.29 Yn gyffredinol ni chafwyd fawr ddim sôn am **arweinyddiaeth wleidyddol** yn nogfennau na gwerthusiadau unrhyw brosiectau, er bod rhai eithriadau megis ymwneud aelodau gweithredol ag Ymgynghori ac Ymgysylltu RhCT, a fu'n arbennig o bwysig wrth gynnal y dull gweithredu ar y cyd, gan ddefnyddio un 'Canolbwynt', trwy drefniadau llywodraethu newydd a arweiniwyd gan yr aelodau.

3.30 Nododd y meta-ddadansoddiad lefelau amrywiol o **arweinyddiaeth gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol**. Cyfeiriodd y gwerthusiadau lleol at arweinyddiaeth effeithiol gan y BGLl yn achos prosiect Gwrthdlodi Sir Ddinbych, Newid Merthyr, Integreiddio Ardaloedd Lleol RhCT a Phartneriaeth Amgylcheddol Sir Gaerfyrddin.

3.31 Yn fwy cyffredin, ymddangosai bod BGLlau wedi canolbwyntio ar lunio'r prosiect, cynnig am arian, ac yna darparu atebolrwydd i Lywodraeth Cymru trwy dderbyn adroddiadau cynnydd gan brosiectau. Ni chafwyd fawr ddim enghreifftiau o'r BGLl yn rheoli prosiect yn weithredol (e.e. pan nad oedd y cynnydd yn digwydd yn ôl y disgwyl, roedd partneriaid yn colli cysylltiad, neu roedd y canlyniadau'n annhebygol o gael eu cyflawni) neu'n cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd ar ôl i'r cyllid ESF ddod i ben.

[11] Mae'n bosibl mai'r rheswm am hynny oedd y dull o gomisiynu'r gwerthusiadau lleol, yn yr ystyr nad oeddent yn cwmpasu arweinyddiaeth yn benodol, er bod hynny wedi'i gynnwys yn y canllaw pynciol ar gyfer astudiaethau achos y cyfnod ffurfiannol a'r meini prawf ar gyfer y meta-ddadansoddiad.

3.32 Soniodd rhai gwerthusiadau lleol am 'ddatgysylltu' rhwng y prosiect cyflenwi a'r BGLl oedd yn ei noddi (fel yn achos Ymgysylltu â'r Gweithlu yng Nghonwy, Adeiladu Capasiti CNPT), fel arfer oherwydd bod blaenoriaethau'r BGLl wedi newid ers i'r prosiect gychwyn.

3.33 Hyd yn oed pan oedd BGLlau yn chwarae rhan weithredol mewn prosiectau, nid oedd tystiolaeth o'r gwerthusiadau ynghylch a oeddent yn manteisio ar gyfleoedd i greu cysylltiadau a rhannu gwybodaeth a dysgu ar draws y gwahanol brosiectau roedden nhw'n eu noddi[12]. Byddai enghreifftiau o'r potensial hwn yn cynnwys Caerffili (lle roedd Pasbort Caerffili a Rhannu Gwybodaeth Bersonol Caerffili, fel ei gilydd, yn galw am weithio gweithrediadol agosach rhwng adrannau'r cyngor ac asiantaethau eraill) a Merthyr Tydfil, lle roedd y BGLl wedi noddi dau brosiect newid diwylliannol: Rhaglen Newid Merthyr ac Ymgynghori ac Ymgysylltu RhCT (oedd yn cynnwys Merthyr Tydfil).

**Pennu canlyniadau uchelgeisiol ac ymarferol**

3.34 Cadarnhaodd ein meta-ddadansoddiad negeseuon yn yr adroddiad gwerthuso ffurfiannol yng nghyswllt y ffactorau sy'n effeithio ar a yw prosiectau'n cyflawni eu canlyniadau. Roedd y rhain yn codi cwestiynau ynghylch a oedd prosiectau'n pennu canlyniadau digon uchelgeisiol a oedd, serch hynny, yn ymarferol, ac i ba raddau roedd y rhain yn debygol o effeithio ar ddinasyddion.

3.35 Er bod nodau lefel uchel prosiectau a gynhwyswyd yn y meta-ddadansoddiad yn gyffredinol glir, roeddent yn aml yn rhy uchelgeisiol naill ai o ran y canlyniadau a ddymunid (e.e. newid diwylliannol mawr ar draws pum awdurdod lleol yn Newid Merthyr) a/neu hyd a lled y newid a ragwelir o'i gymharu â'r amser oedd ar gael (e.e. Llwyddiant Sir Gaerfyrddin).

3.36 Roedd canlyniadau rhai prosiectau braidd yn niwlog heb ddull rhesymol o fesur newid, ac felly roedden nhw'n cael trafferth mesur beth roedden nhw wedi'i gyflawni (e.e. Integreiddio Ardaloedd Lleol RhCT). Roedd gan brosiectau eraill ganlyniadau oedd yn wirioneddol anodd eu mesur, megis annibyniaeth a llesiant i oedolion agored i niwed (yn Adeiladu Capasiti CNPT) neu gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau iechyd (rhan o Froceriaid Trydydd Sector Gorllewin Cymru), er bod rhyw ychydig dystiolaeth o ymdrechion i ddatblygu dangosyddion (procsi) er mwyn casglu peth adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth perthnasol a dinasyddion. Bu nifer o'r prosiectau cyflenwi, pan ddarganfuwyd nad oedd eu canlyniadau'n ymarferol, yn

[12] Fel yn achos arweinyddiaeth yn fwy cyffredinol, mae'n bosibl nad oedd hyn yn derbyn sylw gan y gwerthusiadau lleol, ond nid oedd yn ymddangos yn y rhain nac yn adroddiadau terfynu prosiectau o dan yr adrannau ar ddysgu neu gynaliadwyedd.

canolbwyntio'u hymdrechion gwerthuso ar asesu eu cynnydd tuag at allbynnau a/neu'r canlyniadau cyfamserol oedd yn ymwneud â chapasiti cydweithio.

3.37 Roedd gan brosiectau eraill nodau oedd yn ymwneud â datblygu prosesau newydd, oedd yn aml yn arloesol, ar gyfer cydlynu neu integreiddio gwasanaethau (e.e. Broceriaid Trydydd Sector Gorllewin Cymru, Gwrthdlodi Sir Ddinbych) neu ymgysylltiad dinasyddion (e.e. Ymgynghori ac Ymgysylltu RhCT), ond nid oeddent yn mesur sut byddai'r rhain yn trosi'n wella canlyniadau i ddinasyddion (e.e. gallu i ddylanwadu ar lunio penderfyniadau; defnyddio gwybodaeth i fwyafu incwm) nac yn casglu adborth digonol gan ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch eu canfyddiad o'r manteision iddyn nhw.

3.38 Mae'n bosibl bod cysylltiad rhwng y diffyg cymharol o arweinyddiaeth strategol mewn prosiectau, fel y trafodwyd uchod, â'r anawsterau ymddangosiadol o ran sefydlu canlyniadau a blaenoriaethau clir. Beth bynnag, ni chafodd y meta-ddadansoddiad hyd i fawr ddim tystiolaeth ynghylch a oedd prosiectau wedi cyflawni'r canlyniadau cyflenwi gwasanaeth yr oeddent wedi'u pennu ar eu cyfer eu hunain.

3.39 Roedd y dystiolaeth ym mwyafrif yr adroddiadau gwerthuso lleol, yn ogystal ag adroddiadau terfynu'r prosiectau eu hunain, yn ymwneud ag allbynnau (e.e. gweithgareddau newydd oedd ar waith), prosesau (e.e. newid yn y trefniadau cyflenwi gwasanaeth) ac weithiau ganlyniadau proses, megis cynnydd yn y capasiti cydweithio. Soniodd un adroddiad gwerthuso lleol am ei brosiect fel 'gorchest prosesau yn hytrach na chanlyniadau'. Er bod gan y prosiect hwn nodau a ddiffiniwyd yn glir, "ymddangosai'r partneriaid yn ansicr ynghylch sut byddent yn mesur canlyniadau".

3.40 Roedd yn galonogol bod mwyafrif yr adroddiadau gwerthuso lleol wedi dod i'r casgliad bod y broses o weithio gyda sefydliadau eraill wedi helpu i wella'r gweithio mewn partneriaeth a'r capasiti i gydweithio. Ymhlith yr enghreifftiau mae Rhannu Gwybodaeth Bersonol Caerffili; Adeiladu Capasiti CNPT; Llwyddiant Sir Gaerfyrddin; Broceriaid Trydydd Sector Gorllewin Cymru; a Llwybrau Ymgysylltu Blaengar Sir Ddinbych. Yn achos llawer o brosiectau, fodd bynnag, adroddir am y canfyddiad hwn fel prif 'ganlyniad', sy'n golygu ei bod hi'n anodd iawn ymdeimlo â pha ganlyniadau a gynhyrchwyd gan y Prosiect ESF-LSB yn gyffredinol, dros ben y gwelliannau y mae tystiolaeth amlwg yn eu cylch ym maes capasiti cydweithio.

3.41 Awgrymodd sawl gwerthusiad y byddai oedi cyn gweld cydweithio agosach fyddai'n arwain at welliannau gwasanaeth a chanlyniadau i ddinasyddion, ond ni chafwyd fawr ddim tystiolaeth y byddai mwy o amser o reidrwydd yn arwain at gyflawni'r canlyniadau hyn.

3.42 Roedd rhai prosiectau yn arddangos arfer da o ran sefydlu canlyniadau clir, uchelgeisiol, ymarferol a mesuradwy, ac yn dangos tystiolaeth ynghylch eu cyflawni. Ymhlith yr enghreifftiau o hynny roedd Cysylltu Teuluoedd Pen-y-bont, a gyfrifodd ostyngiad cost y gellid rhoi'r clod amdano i'r prosiect, a Llwybrau Ymgysylltu Blaengar Sir Ddinbych, oedd yn cynnwys pobl ifanc oedd wedi dadrithio i ddylunio'r prosiect ar y cyd fel ei fod yn cyflawni eu hanghenion, a cheisio adborth ganddyn nhw ynghylch a ydoedd wedi gwella'u profiad o ran ceisio gwybodaeth a chefnogaeth, a sut. Defnyddir y ddau brosiect hyn yn 'astudiaethau achos arfer da', fel y dangosir isod.

## Astudiaeth achos arfer da – Llwybrau Ymgysylltu Blaengar Sir Ddinbych

### Crynodeb

Sefydlwyd Llwybrau Ymgysylltu Blaengar (PEP) Sir Ddinbych i gynyddu gweithio ar y cyd, comisiynu callach, a chydlyniad strategol yn y ddarpariaeth i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), ledled Conwy a Sir Ddinbych, a thrwy hynny leihau'r dyblygu diangen ar wasanaethau a chynyddu nifer y bobl ifanc 19+ yr ymgysylltwyd â hwy.

Mae'r astudiaeth achos yn amlygu sawl enghraifft o arfer da, gan gynnwys: gwerth ymgysylltu â chefnogaeth gan ystod eang o sefydliadau; rôl rheolwr y prosiect wrth ddefnyddio a rhannu dysgu; gwell gweithio mewn partneriaeth; a sut gall cydweithio strwythuredig o amgylch grŵp targed (pobl ifanc 19-24 oed) wella canlyniadau a lleihau costau.

### Cyd-destun

Ym mis Mawrth 2012, clywodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) Conwy a Sir Ddinbych gan gynrychiolwyr o Grŵp Llandrillo Menai a Gyrfa Cymru ynghylch yr angen am ddull mwy strategol, cydlynus o fynd i'r afael â'r nifer cynyddol o bobl ifanc 19-24 oed a oedd yn NEET. Ategwyd hyn gan adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant' ym mis Gorffennaf 2014, a amlygodd, er bod arferion gwaith eisoes yn digwydd i leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET, fod angen datblygu gwaith partneriaeth ymhellach wrth ymdrin â'r materion y mae pobl ifanc 19-24 oed sy'n ddi-waith yn eu hwynebu.

### Cydweithio ac ymgysylltu

Yn ogystal â'r mewnbwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych, a Grŵp Llandrillo Menai (colegau AB ar draws Gogledd Cymru), bu'r prosiect yn elwa o gefnogaeth barhaus nifer o sefydliadau oedd yn cynnwys Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith, Cymunedau yn Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych a Gwasanaeth Ieuenctid Conwy, a fu'n helpu i hwyluso'r ymgyngoriadau.

Canfu'r gwerthusiad lleol mewnol gan BGLl Conwy a Sir Ddinbych (2014b) fod y rheolaeth ar y prosiect, y bwrdd, grwpiau, pwyllgorau, rhestrau cyfarfodydd a strwythurau adrodd yn dangos bod dull partneriaeth cadarn a hynod effeithiol o ymdrin â'r Prosiect. Roedd hyn yn sicrhau 'prynu i mewn' strategol, a arweiniodd at roi'r prosiect ar waith yn weithrediadol yn y sefydliadau dan sylw, ynghyd â rhannu helaeth ar wybodaeth ac ymarfer a datblygu a gweithredu arferion newydd.

*"Roedd y gweithio mewn partneriaeth dros ben y disgwyliadau o ran yr hyn y gellid ei gyflawni ar y cychwyn... mae tystiolaeth bod cyrff a oedd yn arfer meddwl bod cleientiaid yn*

*'eiddo iddyn nhw' nawr yn gweithio fel grŵp o sefydliadau sy'n meddwl ar y cyd am 'ein cleientiaid ni'".* (BGLl Conwy a Sir Ddinbych 2014b)

Roedd ymgysylltu â phobl ifanc 19-24 oedd yn NEET, er mwyn casglu eu profiadau a'u safbwyntiau, yn rhan annatod o'r prosiect. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau 'PEPTalk' wedi'u hwyluso a bŵth fideo i bobl ifanc rannu eu meddyliau. Ar sail yr adborth o'r sesiynau PEPTalk a digwyddiad Caffi Byd ar gyfer Swyddogion Rheng Flaen, datblygwyr fframwaith atgyfeirio rhyngasiantaeth PEPStep, i alluogi pobl ifanc i nodi eu hanghenion cefnogi eu hunain gyda pha wasanaethau bynnag roedden nhw mewn cysylltiad â nhw.

**Canlyniadau**

Cyflawnodd y prosiect ei amcanion, oedd yn cynnwys:

- gwaith partneriaeth cryfach 'yn y rheng flaen' trwy ddatblygu a defnyddio ffurflen atgyfeirio PEPStep;
- datblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth (ISP), trwy greu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ISP, sy'n ymgorffori ffurflen atgyfeirio PEPStep a nodiadau cyfarwyddyd cynhwysfawr;
- gwella profiad pobl ifanc 19-24 NEET wrth geisio gwybodaeth a chefnogaeth;
- cwblhau ymarferiad mapio cynhwysfawr o'r gwasanaethau a ddarparwyd i gefnogi pobl ifanc 19-24 oed oedd wedi colli cysylltiad yng Nghonwy a Sir Ddinbych; a
- mwy o gapasiti a diwylliant i gydweithio o fewn a rhwng sefydliadau partner *"Daeth y prosiect â'r partneriaid yn llawer nes at ei gilydd yn eu gwaith strategol a gweithrediadol, yn hytrach na gweithio'n ynysig weithiau. Mae strategaeth a gweledigaeth y prosiect wedi galluogi'r bobl iawn i ddod at ei gilydd yn yr un ystafelloedd i drafod y materion gyda'i gilydd a chydweithio i wella'r canlyniadau i bobl ifanc"* (BGLl Conwy a Sir Ddinbych 2014b). Mae'n werth nodi bod y prosiect wedi pennu canlyniadau a oedd, er eu bod yn canolbwyntio ar wella capasiti i gydweithio, yn glir a bod modd eu rheoli. Gan ei fod wedi dechrau'n gymharol hwyr, roedd ganddo'r fantais o beth dysgu yn sgîl y prosiectau cynharach lle roedd pennu canlyniadau wedi bod yn broblematig.

**Cynlluniau at y dyfodol/trefniadau cynaliadwyedd**

Dylai cynhyrchu Cynllun Gwella PEP ac ymrwymiad gan arweinwyr strategol yr holl sefydliadau partner i roi'r cynllun ar waith sicrhau gwelliant parhaus yn y canlyniadau i bobl ifanc 19-24 oed sydd wedi colli cysylltiad, gan adeiladu ar yr hyn mae'r Prosiect PEP wedi'i gyflenwi.

Canfu'r gwerthusiad mewnol y bydd angen cyfathrebu oddi mewn yn ogystal â'r tu allan i sefydliadau partner i sicrhau'r gwelliant parhaus hwn, a bod hwn yn faes i bartneriaid strategol ei ystyried a chynllunio ar ei gyfer yn eu sefydliadau eu hunain.

**Agwedd at / arddull ddysgu o fewn y prosiect**

Bu'r Prosiect yn chwilio am ddysgu o fannau eraill i lywio'i ddatblygiad, ac mae wedi rhannu arfer da oddi mewn i Gonwy, Sir Ddinbych a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru. Er enghraifft:

- Creodd Cydlynydd y Prosiect PEP **gysylltiadau â phrosiectau tebyg yn y Deyrnas Unedig** er mwyn dysgu o'u profiad a'u gwybodaeth wrth ddatblygu Llwybrau Ymgysylltu Blaengar
- Cynhaliwyd **digwyddiad arddangos** i lansio canfyddiadau'r ymarferiadau mapio a rhannu canfyddiadau a fideos yr ymgyngoriadau PEPTalk a Chaffi Byd
- Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn defnyddio'r Cynllun Gwella PEP yn ffynhonnell gyfeiriadol i **lywio datblygiad prosiectau yn y dyfodol** sydd i gynnal pobl ifanc 19-24 oed.

**Dysgu o arfer da**

Gellir priodoli'r canlyniadau a gyflawnwyd gan brosiect Llwybrau Ymgysylltu Blaengar Sir Ddinbych, ynghyd â chynlluniau pendant i adeiladu ar y rhain ar gyfer gwelliannau pellach, i rai 'ffactorau llwyddiant' allweddol, y gellid eu hefelychu mewn cyd-destunau eraill yn enghreifftiau o arfer da. Ymhlith y rhain mae:

- **Rheolwr prosiect sydd â'r sgiliau angenrheidiol** – llwyddodd Cydlynydd Prosiect PEP i feithrin a chynnal perthynas gadarnhaol rhwng rhwydweithiau ar draws y rhanbarth, gan hybu nodau'r Prosiect yn rhagweithiol a sicrhau ymgysylltiad ac ymrwymiad parhaus wrth gyflawni amcanion y prosiect
- **Uwch arweinyddiaeth strategol** – trwy gymeradwyaeth weithredol Bwrdd Prosiect PEP a natur ddiduedd Cadeirydd Bwrdd y Prosiect. Roedd hyn yn golygu bod modd i'r Prosiect ymdrin mewn modd arloesol â chyflawni cerrig milltir y Prosiect, e.e. trwy ymgynghori ac ymgysylltu â phobl ifanc
- **Ymgysylltiad eang partneriaid** – bu'r prosiect yn elwa o fewnbwn gan amrywiaeth o sefydliadau sector cyhoeddus, yn ogystal ag o'r sector gwirfoddol, a fu'n hanfodol wrth ymgysylltu â phobl ifanc
- **Cynnwys staff ar bob lefel** – roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ISP a ffurflen atgyfeirio PEPStep yn fodd i staff rheng flaen ar draws y sefydliadau partner gydweithio a gwella'r canlyniadau i bobl ifanc oedd yn NEET
- **Ymgynghori ac ymgysylltu â phobl ifanc NEET** – trwy PEPTalk ac i gyd-gynhyrchu PEPStep
- **Ymrwymiad i ddysgu** – arweiniwyd hyn gan Gydlynydd Prosiect PEP, gyda chefnogaeth weithredol gan Fwrdd y Prosiect, i lywio'r Prosiect a rhannu canfyddiadau o fewn y Prosiect, rhwng sefydliadau partner ac ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

## Astudiaeth achos arfer da – Cysylltu Teuluoedd Pen-y-bont ar Ogwr

**Crynodeb**

Prosiect teuluoedd peilot, arloesol yw Cysylltu Teuluoedd Pen-y-bont, a sefydlwyd i gefnogi teuluoedd agored i niwed. Nod y Prosiect yw gwella'r canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd a lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau trwy hybu ymddygiad cadarnhaol a newidiadau i ffordd o fyw. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y Prosiect wedi lleihau'r galwadau ar wasanaethau cyhoeddus a'u cymunedau lleol, wedi cynnwys cydweithio da gyda phartneriaid, ac wedi darparu sgiliau bywyd i deuluoedd er mwyn gwella'u hamgylchiadau, yn ogystal â chysylltiadau personol a rhyngbersonol yn gyffredinol.

**Cyd-destun**

Mae nifer bychan o deuluoedd mewn angen yn golygu bod mwy o alw am wasanaethau cyhoeddus. Nod y Prosiect oedd canfod bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir a chydnabod bod plant a'u teuluoedd yn fwy tebygol o weithredu a chynnal newid cadarnhaol os yw gwasanaethau'n ystyrlon ac wedi'u cydlynu i ymateb i anghenion teuluoedd. Sefydlwyd y prosiect ym mis Awst 2011, a daeth y Prosiect â phartneriaid ynghyd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Heddlu De Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, y Gwasanaeth Prawf a rhannau o'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaeth cefnogi integredig sy'n helpu teuluoedd i wneud newidiadau a fydd yn gwella'r sefyllfa i'r teulu cyfan, yn ogystal â'r plentyn.

**Cydweithio ac ymgysylltu**

Bu'r ymgysylltiad amlasiantaeth cryf o gymorth i ddarparu gwasanaeth wedi'i deilwra at anghenion teuluoedd cymhleth ac agored i niwed wrth symud ymlaen a chyflawni newid.

Adroddwyd am fanteision y dull cydweithredol wrth ymdrin ag ystod o anghenion teuluol gan rieni a gweithwyr proffesiynol. Bu'r prosiect yn elwa o staff a secondiwyd o asiantaethau partner. Roedd y tîm Cysylltu Teuluoedd ei hun yn cynnwys 12 aelod o staff llawn/rhan amser, a gyflogwyd trwy CBS Pen-y-bont, ac a oedd yn rhan o'r Gwasanaethau Plant. Roedd y Prosiect hefyd yn elwa o ymgysylltiad cryf â chyrff trydydd sector, trwy gadw mewn cysylltiad â Wallich Clifford (elusen sy'n darparu llety a gwasanaethau cymorth i bobl ddigartref) a chyflawni tasgau swyddfa.

**Canlyniadau**

Mae'r Prosiect Cysylltu Teuluoedd wedi cyflawni nifer o ganlyniadau ar ffurf arbedion cost uniongyrchol o ryw £1.5 miliwn (gydag arbedion ychwanegol yn achos gwasanaethau unigol) a thrwy wella'r canlyniadau tymor hir i blant a'u teuluoedd. Ymhlith y canlyniadau allweddol roedd lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau trwy hybu ymddygiad cadarnhaol a newid i ffordd o fyw, yn ogystal â gwella llesiant cyffredinol a hyder rhieni a theuluoedd. Arweiniodd hynny at wella lles plant a pherthnasoedd teuluol, yn ogystal â chysylltiad cadarnhaol â gwasanaethau eraill. Ceir rhagor o fanylion ynghylch prif ganlyniadau'r Prosiect isod.

*Y canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd:*

- Cefnogwyd 148 o deuluoedd trwy ymyriadau llawn
- Nodwyd bod dros 150 o blant mewn perygl (naill ai oherwydd eu bod wedi parhau yng ngofal y teulu neu drwy gyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol) a derbyniodd bron 30 gefnogaeth bellach gan y gwasanaeth, yn bennaf ar ffurf eu lleoli mewn cartrefi ailsefydledig.
- Mae dros 70 o blant a phobl ifanc wedi cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
- Derbyniodd mwy na 50 o unigolion gefnogaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau
- Mae 33 o blant/bobl ifanc wedi gwella'u lefelau presenoldeb yn yr ysgol
- Mae bron 10 o deuluoedd wedi cael eu hatal rhag bod yn ddigartref, ac mae llai na 10 o unigolion wedi cael eu cefnogi i symud i gyflogaeth.

*Arbedion cost:*

Rhwng Awst 2011 a Rhagfyr 2014, mae'r adroddiadau gwerthuso a therfynu yn awgrymu bod Cysylltu Teuluoedd wedi galluogi'r asiantaethau sector cyhoeddus i leihau gwariant fel a ganlyn:

- Addysg - £446,403.
- Iechyd - £35,984.
- Ymgynghoriaeth a hyfforddiant - £24,123.
- Tai - £148,994.
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau - £22,142.
- Yr Awdurdod Lleol - £3,145,502.

**Cynlluniau at y dyfodol/trefniadau cynaliadwyedd**

Yn ôl gweithwyr proffesiynol a phartneriaid y prosiect, mae'r Prosiect wedi darparu newid tymor hir, cynaliadwy i deuluoedd trwy roi iddynt y sgiliau, yr offer a'r arferion rhianta i reoli bywyd teuluol yn well ac ymdrin â materion yn y dyfodol. Mae rhieni hefyd wedi adrodd am newidiadau yn eu ffordd o ymateb i sefyllfaoedd sy'n eu rhoi o dan straen. Dadleuodd un gweithiwr proffesiynol oedd yn gweithio ar y Prosiect: "bu'r gwaith a wnaed gan Cysylltu Teuluoedd yn helpu'r teulu i ddatblygu a chryfhau sgiliau a fydd o fantais i gynaliadwyedd cynllun [y prosiect] ac yn cyfrannu ato" (Collicott, 2013).

**Agwedd at / arddull ddysgu o fewn y prosiect**

Cafodd y dysgu o fewn y Prosiect ei gaffael mewn nifer o ffyrdd. Rhannwyd gwybodaeth ynghylch arferion da, yn ogystal â'r heriau allweddol, y tu mewn i'r prosiect a'r tu allan iddo:

- Roedd gweithwyr y prosiect yn cydnabod bod angen cyfathrebu'n well â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch yr ymyriadau a ddewiswyd gan weithwyr allweddol
- Gall dysgu a gwella gwasanaeth elwa hefyd o ddigwyddiadau ymgysylltu ehangach ac adborth helaethach gan ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu
- Ymgorfforwyd Strategaeth 'Teuluoedd Ynghyd' CBS Pen-y-bont a'r 'fframwaith gweithio integredig' (Adran Addysg) i ddysgu'r prosiect trwy nodi ffyrdd i roi newid cadarnhaol ar waith i deuluoedd trwy ddarparu gwasanaethau sy'n gydlynus ac yn ystyrlon.

**Dysgu o arfer da**

Gellir ystyried nifer o 'ffactorau llwyddiant' allweddol yn arfer da:

- **Diwallu anghenion cleientiaid trwy waith amlasiantaeth.** Dangosodd canlyniadau'r Prosiect sut mae cyfuno amrywiol sgiliau a gwasanaethau gan gyrff sector cyhoeddus a thrydydd sector yn bwysig er mwyn lleihau costau. Yn sgîl cyfuno adnoddau ac arbenigedd cynhyrchwyd cefnogaeth gydlynus, ddwys, gyfannol ac amserol, oedd yn paru'r 'gweithiwr gwasanaeth cywir' â'r 'defnyddiwr gwasanaeth cywir'.
- **Cynyddu mynediad i wybodaeth: deall y rhwystrau mae unigolion yn eu hwynebu a'u hamgylchiadau.** Dangosodd canlyniadau'r Prosiect sut mae ymdrin mewn modd uniongyrchol â rhannu gwybodaeth, gyda swyddog gwybodaeth yn helpu'r gweithiwr allweddol i feithrin gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau a'r amgylchiadau mae'r teulu'n eu hwynebu, yn ffactor allweddol ar gyfer sicrhau canlyniadau.
- **Sicrhau cefnogaeth asiantaethau partner**. Roedd yn bwysig rhoi teuluoedd mewn cysylltiad uniongyrchol ag asiantaethau partner/â sefydliadau lleol yn hytrach na'u cyfeirio ymlaen i geisio cymorth ar eu pennau eu hunain.
- **Ymddiriedaeth rhwng defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth a sgiliau newydd i ddefnyddwyr gwasanaeth.** Mae'r Prosiect wedi dangos sut mae dull gweithredu seiliedig ar y cleient yn grymuso'r defnyddiwr gwasanaeth a bod hynny'n helpu i sefydlu ymddiriedaeth a pherthynas agored rhwng defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth. Mae hefyd o gymorth i gynnal newid cadarnhaol, yn ogystal â sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaeth symbyliad a sgiliau newydd.
- **Arweinyddiaeth strategol uwch**. Cefnogwyd y Prosiect gan y BGLl i sicrhau bod gwasanaeth gwell, mwy effeithiol i deuluoedd agored i niwed yn cael ei ddarparu ar hyd oes y Prosiect.

**Cynaliadwyedd ac etifeddiaeth**

3.43 Pan gynhaliwyd yr astudiaethau achos yn ystod cyfnod ffurfiannol y gwerthusiad, canfuwyd bod pryderon gwirioneddol yn bodoli ynghylch dyfodol prosiectau wedi i'r cyllid ESF ddod i ben.

3.44 Flwyddyn neu fwy yn ddiweddarach, dangosodd y meta-ddadansoddiad fod cynaliadwyedd wedi cael ei ystyried llawer mwy nag yr oeddem wedi rhagweld. Roedd nifer sylweddol o'r prosiectau wedi cynhyrchu Cynlluniau Etifeddiaeth, gan gynnwys ar gyfer Datblygu Gweithlu ar y Cyd Conwy, Rhannu Gwybodaeth Bersonol Caerffili, Ymgynghori ac Ymgysylltu RhCT, a Gwrthdlodi Sir Ddinbych.

3.45 Mewn rhai ardaloedd, mae cynlluniau i rannau yn unig o'r Prosiect barhau (e.e. Broceriaid Trydydd Sector Gorllewin Cymru) neu bod y Prosiect yn gweithredu ar raddfa lai. Felly mae Prosiect Newid Merthyr yn cael ei gynnal trwy gadw pedwar o'r pum Swyddog Rheoli Newid gwreiddiol yn eu swyddi. Fodd bynnag, mae'r holl gynlluniau hyn wedi cael eu cynhyrchu'n gymharol ddiweddar, a bydd angen trefnu camau gweithredu ar gyfer y mwyafrif ohonynt.

3.46 Er gwaethaf y cynlluniau hyn, mae sawl prosiect yn cael trafferth sicrhau cyllid i dalu am rôl rheolwr y prosiect pan ddaw'r grant ESF i ben. Mae'r sefyllfa'n cael ei gwaethygu gan sefyllfa ariannol bresennol y sector cyhoeddus, gan ei bod hi'n bosibl na welir cyllid ar gyfer rheolwyr prosiect sy'n canolbwyntio ar wella cydweithio fel blaenoriaeth, o'i gymharu â chynnal gwasanaethau rheng flaen penodol. Yn ei dro, mae hyn yn codi'r cwestiwn ehangach ynghylch a ellir cynnal cydweithio, a sut, heb reolwr prosiect dynodedig neu mewn achosion lle mae llai o allu i reoli'r prosiect.

3.47 Mae rhai prosiectau, megis Cysylltu Teuluoedd Pen-y-bont, o'r farn y bydd y newidiadau a welwyd yn ystod y Prosiect yn cael effaith bellgyrhaeddol ar deuluoedd. Gan fod llawer o'r newidiadau wedi cael eu mabwysiadu'n rhan o'r 'gwaith arferol', mae hyder hefyd ynghylch cynnal cynnydd cadarnhaol a chanlyniadau. Mae ambell brosiect arall, yn fwyaf amlwg y Tîm o Gwmpas y Teulu yn Abertawe, wedi llwyddo i sicrhau cyllid o ffynonellau amgen, ac felly, yn yr enghraifft hon, maent wedi gallu estyn pob contract tan fis Mawrth 2016.

3.48 Isod gwelir portreadau cryno o arfer da ar gyfer **Rhannu Gwybodaeth Bersonol Caerffili a'r Dull Cydlynol o Ddatblygu'r Gweithlu yng Nghonwy** yng nghyswllt etifeddiaeth y Prosiect, a fydd yn arwain at wella'r gwasanaeth a gyflenwir yn y dyfodol.

**Arfer da o ran sicrhau bod y prosiect yn arwain at gyflenwi gwell gwasanaeth yn y dyfodol**

**Dull Cydlynol o Ddatblygu'r Gweithlu yng Nghonwy**

*Nodau*

O ystyried mai'r sector cyhoeddus yw'r cyflogwr mwyaf yn yr ardal, roedd BGLl Conwy a'i bartneriaid yn gweld cynllunio a datblygu'r gweithlu fel maes pwysig i'w wella. Roedd pedwar prif amcan i'r prosiect:

1. cydlynu'r wybodaeth gyfredol sydd ar gael i greu strategaeth sgiliau a hyfforddiant ar draws yr holl bartneriaid;

2. gweithio ar y cyd i gynyddu nifer y prentisiaethau a nifer y prentisiaid a gyflogir ar ôl eu prentisiaethau;

3. datblygu fframwaith cyfnewid staff a fframwaith hyfforddiant tywys ar draws y sector cyhoeddus; a

4. gweithio ar y cyd i wella'r rhaglenni profiad gwaith ar gyfer pobl ifanc, oedolion sy'n dychwelyd a phobl ag anableddau.

*Canlyniadau*

Mae pryder yn achos yr holl brosiectau y bydd y gwelliannau o ran cyflenwi gwasanaeth yn dod i ben pan ddaw'r cyllid i ben. Mae Conwy wedi cymryd amrywiol gamau i geisio sicrhau na fydd hynny'n digwydd.

Cynhaliodd y prosiect ei werthusiad ei hun a dod i'r casgliad fod mwyafrif mawr allbynnau'r prosiect wedi cael eu cyflenwi a'u gwreiddiol (neu maent yn y broses o gael eu gwreiddio) ym mhob sefydliad. Mae Strategaeth Sgiliau a Hyfforddiant ar gyfer Conwy wedi cael ei chynhyrchu, ac mae memorandwm o ddealltwriaeth wedi cael ei lofnodi gan bartneriaid i gytuno ar y ffordd newydd hon o weithio yn y dyfodol.

Mae nifer y llefydd prentisiaeth a gynigir ar draws partneriaid y BGLl wedi cynyddu yn ystod oes y Prosiect (o 114 yn 2012-13 i 135 yn 2013-14), ond gan fod mwyafrif y llefydd hyn yn dod drwy'r cyngor, mae lle i ymgysylltu ymhellach â phartneriaid eraill sector cyhoeddus. Dengys tystiolaeth arolwg gan reolwyr a phrentisiaid eu bod yn gadarnhaol iawn ynghylch y lleoliadau, ond ar hyn o bryd mae diffyg tystiolaeth o ran a yw prentisiaethau wedi arwain at gyflogaeth neu beidio. Mae'r cyngor a'i bartneriaid wedi cynnal gweithdy gyrfaoedd yn ddiweddar ar gyfer ôl-brentisiaethau, a bydd yn dadansoddi llwyddiant ôl-brentisiaethau mewn gwaith yn y dyfodol.

Elfen leiaf lwyddiannus y Prosiect oedd cyflenwi ei drydydd amcan. Er bod cwrs hyfforddi ar y cyd wedi cynyddu nifer yr hyfforddwyr tywys cymwysedig, ni chafwyd fframwaith cyfnewid staff.

Yn olaf, cynhyrchwyd fframwaith profiad gwaith ochr yn ochr â phecyn cefnogi i reolwyr a phecyn profiad gwaith ar gyfer lleoliadau. Mae'r rhain ar gael ar fewnrwyd CBS Conwy a'u gwefan, fel bod modd i bartneriaid eu defnyddio yn y dyfodol. Fel yn achos prosiectau eraill,

bu canolbwyntio ar y prif allbynnau, gan ragdybio y bydd canlyniadau tymor hwy fel arbedion effeithlonrwydd cost yn sgîl gwella gwaith mewn partneriaeth yn cael eu gwireddu yn y dyfodol. Mae rheolwr y prosiect wedi symud i swydd newydd, a chafodd y Prosiect ei derfynu'n ffurfiol ym mis Rhagfyr 2014, ond rhoddwyd cynllun gweithredu etifeddiaeth ar waith i ddatblygu'r gwaith hwn, a reolir gan Grŵp y Dull Cydlynol o Ddatblygu'r Gweithlu.

*Dysgu o'r hyn a lwyddodd*

Gan fod yr holl bartneriaid o'r farn bod Grŵp y Dull Cydlynol o Ddatblygu'r Gweithlu wedi llwyddo, bydd yn parhau i gwrdd bob chwarter i helpu i sbarduno gwelliannau yn y maes hwn. Mae cylch gorchwyl a blaenraglen waith newydd ar gyfer 2015-16 wedi cael eu llunio, a bydd y Grŵp yn gyfrifol ar y cyd am weithredu a datblygu'r gwaith a gynhyrchwyd hyd yma. Bydd y Grŵp yn adrodd ar ganlyniadau yn flynyddol i Grŵp Sgiliau CBS Conwy.

Roedd y Prosiect hwn yn cwmpasu maes lle roedd yr holl sefydliadau partner yn wynebu materion tebyg, a lle roeddent felly yn gallu weld manteision dull cydlynus o ymdrin â datblygu'r gweithlu. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori Caffi Byd ar ddechrau'r Prosiect i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ymrwymo, ac i sicrhau dealltwriaeth dorfol o sut gellid gwella profiad gwaith a phrentisiaethau.

Bu presenoldeb staff ar draws sefydliadau partner y BGLl mewn digwyddiadau hyfforddi o gymorth i wella'r gwaith mewn partneriaeth. Roedd y gwerthusiad yn awgrymu bod staff '*wedi gallu dysgu llawer am sefydliadau ei gilydd, gan ddileu rhai o'r rhwystrau diwylliannol. Roedden nhw'n teimlo y gallen nhw fynd â hynny nôl i'w gwaith beunyddiol er mwyn gwella gwaith partneriaeth yn y dyfodol'.* Bu hyn o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer perthnasoedd gwaith yn y dyfodol ar draws partneriaid, wedi i'r cyllid ddod i ben.

Bu'r Prosiect yn adeiladu ar weithio ar y cyd oedd eisoes yn digwydd ym maes datblygu'r gweithlu. Er enghraifft, yn 2010 bu CBS Conwy a'i bartneriaid yn cydweithio i drefnu Ffair Swyddi y bu llawer o bobl yn bresennol ynddi ac y cafwyd adborth da yn ei chylch. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau eraill ar y cyd cyn gwneud cais am gyllid UE.

Cynhaliodd y Prosiect Adolygiad Porth annibynnol ar ganol a diwedd y prosiect, gan sicrhau bod tîm a bwrdd y prosiect yn cael cyfle i leisio unrhyw bwyntiau o ran yr hyn oedd yn llwyddo neu nad oedd yn llwyddo i'r un graddau, ac i gynllunio at y dyfodol.

Defnyddir y Prosiect hwn hefyd yn enghraifft o rôl bwysig rheolwr y prosiect, gan iddynt broffesiynoli'r trefniadau anffurfiol presennol rhwng partneriaid a helpu i sbarduno gwelliannau wrth gyflenwi gwasanaethau. Er mwyn sicrhau bod peth dilyniant ac arweinyddiaeth, bydd Cadeirydd tîm presennol y prosiect yn gweithredu fel prif gyswllt ar ôl i'r Prosiect gael ei derfynu.

**Rhannu Gwybodaeth Bersonol Caerffili**

*Nodau*

Cefndir y Prosiect yw problem oesol rhannu data gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus (yn arbennig ym maes iechyd, ond hefyd gyda'r heddlu a'r sector gwirfoddol).

Roedd y Prosiect yn adeiladu ar waith blaenorol a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili yn 2008, a greodd Brotocolau Rhannu Gwybodaeth (ISPs) ar gyfer canolfannau dydd (rhwng y cyngor, y bwrdd iechyd a'r sector gwirfoddol), iechyd meddwl ac addysg. Barnwyd bod y prosiect hwn yn llwyddiant, a nod yr adnodd ESF oedd cefnogi'r broses o rannu data personol ar draws cyrff cyhoeddus, preifat a thrydydd sector yn Rhanbarth BGLl Caerffili trwy wneud y canlynol:

1. datblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth Cytundeb Cymru ar gyfer Rhannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI) ar gyfer cymunedau sy'n rhannu data sy'n cael bod rhannu gwybodaeth yn rhwystro cydweithio;

2. adolygu ISPs WASPI presennol, a throsi ISPs nad ydynt yn rhai WASPI i'r fformat WASPI er mwyn sicrhau cysondeb; a

3. datblygu a chyflenwi hyfforddiant ar rannu data amlasiantaeth er mwyn meithrin hyder wrth rannu gwybodaeth.

*Canlyniadau*

Er gwaethaf oedi wrth i'r prosiect gychwyn, mae'r gwerthusiad annibynnol yn dangos iddo gyflenwi chwe ISP, fel yr amlinellwyd yn y cais. Hefyd mae fframwaith hyfforddi wedi cael ei ddylunio. Ni chyflenwyd hwn i fwyafrif llethol y buddiolwyr posibl mewn sefydliadau partner ar adeg y gwerthusiad annibynnol, felly mae'n anodd asesu'r canlyniadau.

Adeg terfynu'r prosiect roedd anawsterau ynghylch pa sefydliadau fyddai'n darparu ac yn cynnal y cwrs e-ddysgu. Mae un o'r cyfweleion yn y gwerthusiad yn dangos pa mor hanfodol yw hynny trwy ddweud y byddai, "*Angen i ddiweddaru a chynnal adnoddau hyfforddi fod yn weithgaredd grŵp – felly mae angen ymrwymiad parhaus gan bartneriaid, yn ogystal â hwyluso gan swyddog prosiect. Heb hynny, gellid colli momentwm, a gallai'r cynnyrch hyfforddi ddyddio a mynd yn ddarniog wrth i bartneriaid unigol symud i gyfeiriadau gwahanol".* Yn hytrach na dibynnu ar un sefydliad, mae allbwn e-ddysgu'r Prosiect wedi cael ei gynnal trwy ddod i gysylltiad ag 'Academi Cymru Gyfan' (partneriaeth rhwng cynghorau lleol, WLGA a TUC Cymru, a ariannwyd gan yr UE), fel bod y modiwl bellach ar gael yn ddwyieithog ledled Cymru. Mae posibilrwydd hefyd y gellir cael cyllid pellach, a fydd yn darparu mwy o gyfle i werthuso'r Prosiect ac i archwilio'r posibilrwydd o gynnwys y sector cyhoeddus ehangach, yn hytrach nag awdurdodau lleol yn unig.

Yn ôl y gwerthusiad annibynnol, bu'r Prosiect yn darparu manteision i sefydliadau y tu hwnt i gynhyrchu protocolau rhannu gwybodaeth yn unig. Mae'r gwaith partneriaeth gwell yn deillio o well dealltwriaeth o anghenion sefydliadau eraill: "*Gallai'r prosiect ISP ychwanegu gwerth trwy ddod â sefydliadau at ei gilydd i weithio trwy'r ddogfen a dod i ddeall anghenion ei gilydd yn well. Mewn rhai achosion bydd hyn yn arwain at fân newidiadau i arfer cyfredol,*

*ond gallai fod newidiadau llawer mwy arwyddocaol lle nad yw ymarfer a phroses wedi sefydlu i'r fath raddau".*

Mae'r Prosiect wedi gwella gwybodaeth ar draws partneriaid sector cyhoeddus. Er enghraifft, chwalodd y digwyddiadau hyfforddi'r canfyddiad camarweiniol digon cyffredin bod Deddf Diogelu Data yn atal rhannu gwybodaeth bersonol. Hwn oedd un o'r rhwystrau y cyfeiriwyd ato amlaf yng nghyswllt rhannu gwybodaeth bersonol o fewn yr astudiaeth.

Soniodd y cais am gyllid am wella'r gwasanaeth a ddarperid i'r dinesydd, ond canfu'r gwerthusiad fod y sylw pennaf wedi'i roi i asesu perfformiad yn erbyn gweithgareddau e.e. nodi gweithgorau i ddatblygu ISPs newydd, yn hytrach nag edrych ar y canlyniadau posibl. Mae'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu terfynau amser cymharol fyr y prosiectau, ac yn y Prosiect hwn yn arbennig, anhawster asesu effaith uniongyrchol y Prosiect ar ddefnyddwyr gwasanaeth o ganlyniad i'r hyn y bwriedir i'r broses ei gyflawni.

*Dysgu o'r hyn a lwyddodd*

Gofynnodd y Prosiect i'r gwerthuswyr gyflawni darn arall o waith er mwyn cynhyrchu gwireddiad o'r manteision a chynllun gweithredu er mwyn i'r BGLl sicrhau bod y manteision yn gwneud cynnydd y tu hwnt i oes y prosiect. Bu'r BGLl yn ystyried yr adroddiad gwerthuso ac yn argymell bod y gwaith yn parhau mewn cydweithrediad agos ag awdurdodau lleol cymdogol. Mae hyn yn cydweddu â dull cenedlaethol WASPI o wreiddio WASPI trwy gael hyd i ddulliau rhanbarthol o sicrhau ansawdd a goruchwylio gwaith WASPI.

Mae pob sefydliad partner yn cydweithio'n anffurfiol ar hyn o bryd, ac mae nifer o ddatblygiadau ISP WASPI yn parhau. Mae unigolion yn cymryd mantais o 'ddigwyddiadau Hyfforddi'r Hyfforddwr' y Tîm WASPI i uwchsgilio Hwyluswyr WASPI presennol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu hyfforddi mwy o hwyluswyr yn fewnol ym mhob BGLl.

Bydd Grŵp Llywio'r Prosiect yn parhau i gwrdd y tu hwnt i ddiwedd oes y Prosiect i sicrhau bod yr holl ISPs yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, bod y cynnydd yn cael ei wirio yn erbyn y cynllun gweithredu, ac i roi cyhoeddusrwydd i'r prosiect mewn digwyddiadau yn y dyfodol.

Fel yn achos prosiect y Dull Cydlynol o Ddatblygu'r Gweithlu yng Nghonwy, roedd yn bwysig sicrhau bod yr holl sefydliadau wedi ymrwymo i nodau'r Prosiect cyn gynted â phosibl. Er enghraifft, roedd y trydydd sector (trwy Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent) yn aelodau o Grŵp Llywio'r Prosiect ac yn rhan o'r trafodaethau cychwynnol ar welliannau i rannu gwybodaeth, sy'n draddodiadol yn gallu bod yn ormodol o dan ddylanwad y sector cyhoeddus.

## Dysgu

3.49 Roedd yr adroddiad gwerthuso ffurfiannol yn tynnu ar ein detholiad o astudiaethau achos i ddangos, er bod tystiolaeth o ddysgu'n digwydd ar draws gwahanol lefelau – o unigolion yn mynychu digwyddiadau hyfforddi i lefel y tîm, lle gwnaed gwelliannau i brosesau dros amser – fod llai o dystiolaeth bod sefydliadau wedi dysgu o'r prosiectau cyflenwi a bod ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu gwreiddio.

3.50 Mae'r meta-ddadansoddiad yn ategu'r canfyddiad hwn, gan fod y rhan fwyaf o'r dysgu'n cael ei rannu o fewn timau'r prosiectau, ac yn aml yn cael ei ddefnyddio i wella prosesau wrth i'r Prosiect fynd rhagddo, er enghraifft gan Rhybudd Aer (a sefydlwyd yn beilot ar gyfer dysgu oddi wrtho) a Phasbort Caerffili. Mewn cyferbyniad, ni chafwyd fawr ddim tystiolaeth ynghylch yr hyn roedd sefydliadau partner wedi'i ddysgu o'r prosiectau. Yn wir, mewn rhai prosiectau roedd rhannu gwybodaeth – heb sôn am ddysgu – ar draws ac o fewn gwasanaethau a/neu bartneriaid yn dal yn fater allweddol.

3.51 Er bod tystiolaeth bod prosiectau wedi cynnal digwyddiadau lledaenu i annog dysgu (e.e. cynhadledd yng Nghaerffili, gweithdai yng Nghonwy, digwyddiad etifeddiaeth yn RhCT), roedd yn aneglur a oedd y rhain mewn gwirionedd wedi cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth BGLlau a sefydliadau partner o'r prosiectau mewn modd a fyddai'n eu helpu i wreiddio neu efelychu dulliau gweithredu llwyddiannus.

3.52 Roedd ambell brosiect wedi creu cysylltiadau â phrosiectau eraill tebyg. Aeth Pasbort Caerffili i ymweld ag awdurdodau lleol eraill oedd yn defnyddio dull gweithredu tebyg i wella'r gefnogaeth gyflogi gan gyflogwyr sector cyhoeddus, a bu'r ddau brosiect oedd yn defnyddio broceriaid trydydd sector yn rhannu eu dysgu. Mae prosiect Tîm o Gwmpas y Teulu Pen-y-bont wedi datblygu 'model arfer da', y gellid ei estyn i leoliadau eraill.

3.53 Mae'n aneglur pam nad yw'r dysgu wedi cael ei rannu'n fwy cyffredinol o fewn ac ar draws prosiectau, er y gallai'r esboniadau am hynny gynnwys diffyg diwylliant o ddysgu, methu â gweld perthnasedd prosiectau eraill i'ch 'prosiect chi' a/neu bod rheolwyr prosiectau yn teimlo iddynt hwythau fod yn rhy brysur yn cyflenwi eu prosiect eu hunain i geisio a/neu rannu dysgu gydag eraill.

3.54 Roedd arwyddion bod prosiectau yn y meta-ddadansoddiad wedi troi at Lywodraeth Cymru i hwyluso dysgu y tu hwnt i'r Prosiect, yn hytrach nag annog hynny'n annibynnol, o bosibl gydag awdurdodau lleol eraill neu'r BGLl yn chwarae rôl arweiniol yn hynny o beth. Bu'r astudiaethau achos a'r meta-ddadansoddiad yn cadarnhau canfyddiadau'r digwyddiadau dysgu cenedlaethol a gynhaliwyd yn ystod cyfnod

ffurfiannol y gwerthusiad, a ganfu fod gwerthfawrogiad aruthrol i'r gyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio rhanbarthol yng Ngogledd Cymru, a'u bod wedi annog rhannu dysgu ar hyd cyfnod y cyllid ESF. Hwyluswyd y rhain gan aelod o'r tîm cenedlaethol, ac roeddent ar agor i Fyrddau Gwasanaethau Lleol, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, yn ogystal â phrosiectau cyflenwi.

3.55 Bwriad gwreiddiol Llywodraeth Cymru oedd y gellid cynnal rhwydweithiau dysgu rhanbarthol tebyg yn Ne-ddwyrain a De-orllewin Cymru. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad cychwynnol, ond wedi hynny, yn sgîl cyfyngiadau adnoddau, nid oedd modd i'r rhwydweithiau barhau. O bosib yn gysylltiedig â hynny, ni chafwyd fawr ddim tystiolaeth bod y dysgu o'r prosiectau cyflenwi wedi cael ei rannu gyda rhanddeiliaid cenedlaethol.

**Crynodeb o'r bennod**

3.56 Mae'r adran hon wedi trafod canfyddiadau'r meta-ddadansoddiad yng nghyswlt themâu allweddol neu ffactorau sy'n effeithio ar lwyddiant prosiectau cyflenwi i gyflawni eu nodau a'r canlyniadau a ddymunir.

3.57 Nodwyd mai'r rhain yw:

- rôl, sgiliau a chapasiti rheolwr y prosiect;
- a oes partneriaethau cydweithio eisoes yn bodoli;
- ymgysylltiad gweithredol yr holl sefydliadau partner;
- ymwneud staff ar bob lefel ac o wahanol rolau;
- ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth trwy gyd-gynhyrchu ac adborth;
- nodau prosiect clir, wedi'u cysylltu â rhesymeg dros gydweithio;
- meddu ar ganlyniadau uchelgeisiol, ymarferol a mesuradwy; a
- chynllun etifeddiaeth wedi'i ariannu i gynnal y cynnydd a'r canlyniadau.

3.58 Pan fu'r ffactorau llwyddiant hyn yn eu lle maent wedi helpu prosiectau i oresgyn nifer o heriau allweddol a amlygwyd gan werthusiadau prosiectau ac adroddiadau terfynu fel rhwystrau i gynnydd. Roedd y rhain yn cynnwys diwygio lles a'r hinsawdd ariannol bresennol, a allai fel ei gilydd weithredu i gynyddu'r galw am wasanaethau yn ogystal â pheri ei bod hi'n anoddach buddsoddi mewn newid trawsffurfiannol.

3.59 Fel y dangoswyd trwy'r portreadau o arfer da a welwyd ar hyd y bennod, canfu prosiectau fod sgiliau a chapasiti rheolwr y prosiect yn hanfodol wrth gydlynu a symbylu'r holl bartneriaid i weithio ar y cyd. Dangosodd y meta-ddadansoddiad hefyd

fod rôl weithrediadol rheolwr y prosiect yn gweithio'n fwyaf effeithiol o'i gyfuno ag arweinyddiaeth strategol ar lefel uwch.

3.60 Ni welwyd yr arweinyddiaeth strategol hon mewn llawer o brosiectau, gan gynnwys o'r BGLl. Mae hyn yn eironig, o ystyried ffocws Prosiect Datblygu a Chyflenwi ESF-LSB ar feithrin capasiti i gydweithio. Mae hefyd yn debygol o effeithio ar allu BGLlau i ddysgu o arfer da, ei wreiddio a'i efelychu ar sail dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd gan y prosiectau.

3.61 Roedd ymgysylltiad cyson yr holl bartneriaid hefyd yn hanfodol er mwyn i brosiectau gynyddu'r capasiti i gydweithio a chyflawni canlyniadau. Roedd yr ymgysylltiad hwn yn amrywio ar draws prosiectau a rhwng partneriaid, ond ac eithrio'r enghreifftiau a ddisgrifiwyd yn y portread perthnasol, cafwyd nad oedd y trydydd sector wedi ymwneud â phrosiectau i'r graddau a ragwelwyd yn wreiddiol naill ai gan Lywodraeth Cymru a WCVA na chan y prosiectau eu hunain. Dangosodd y meta-ddadansoddiad, er bod prosiectau wedi ymgysylltu â dysgu, fod hynny wedi digwydd yn bennaf trwy rannu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Prosiect mewn modd anffurfiol, dealledig, oddi mewn i dîm y prosiect. Ni chafwyd fawr ddim tystiolaeth o ymdrechion i rannu dysgu gydag ardaloedd eraill na chyda rhanddeiliaid cenedlaethol, oni bai bod hynny wedi cael ei hwyluso gan Lywodraeth Cymru. Lle roedd prosiectau neu Fyrddau Gwasanaethau Lleol wedi sbarduno cyfleoedd strwythuredig i rannu'r dysgu am eu prosiectau o fewn eu hardaloedd neu eu rhanbarthau lleol, ymddangosai fod hynny wedi helpu gyda chynllunio etifeddiaeth i gynnal y Prosiect a/neu wreiddio ei ddull gweithredu ar ffurf 'gwaith arferol'.

# 4. Arolwg Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan

## Cyflwyniad

4.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau ail Arolwg Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfan, er mwyn mynd ati i ddadansoddi'n derfynol hyd a lled y cydweithio o fewn a rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

4.2 Llywiwyd patrwm yr arolwg gan ganfyddiadau o'r adolygiad llenyddiaeth, datblygiad y fframwaith damcaniaethol, a gwerthusiadau blaenorol o bolisi llywodraeth leol a gyflawnwyd yng Nghymru. Nod yr arolwg oedd mesur capasiti cyfredol ac effeithiolrwydd gweithio ar y cyd mewn gwasanaethau cyhoeddus, arweinyddiaeth ac arloesedd, ffyrdd o wella cydweithio a rhwystrau i gydweithio effeithiol, ac effaith cyllido ar y prosiectau. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am eu canfyddiadau o'r pynciau canlynol, a oedd yn rhan o'r holiadur:

- y **cyd-destun** y mae'r prosiect/bartneriaeth yn gweithredu oddi mewn iddo;
- **ffocws** y prosiect/bartneriaeth a sut mae wedi'i d/threfnu (pwy sy'n ymwneud â'r gwaith ac i ba raddau), capasiti'r aelodau i gydweithio;
- **cyflenwi'r** prosiect/bartneriaeth – arweinyddiaeth, ymddygiad ac integreiddio ymhlith yr aelodau;
- y **gefnogaeth** mae'r prosiect yn ei derbyn gan aelodau a thîm cenedlaethol ESF-LSB a Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol; ac
- **effaith** y cyllid a llwyddiant prosiectau o ran y nodau a bennwyd ganddynt.

4.3 Bwriad yr arolwg oedd dadansoddi newid dros amser, drwy greu cymariaethau â'r arolwg gwaelodlin ac effaith ac ychwanegoldeb y cyllid ESF. Ychydig iawn o amrywiaeth oedd, felly, yn yr holiadur rhwng y cyfnodau ffurfiannol a chrynodol.

4.4 Mae'r bennod hon yn adrodd ynghylch canfyddiadau unigol y rhai sy'n gweithio ar brosiectau cydweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gall ystod eang o ffactorau allanol ddylanwadu ar y canfyddiadau hyn, felly mae'n bwysig triongli'r ffynhonnell hon o dystiolaeth â dadansoddiad o'r dogfennau a'r cyfweliadau yn ein hastudiaethau achos.

4.5 Lle cyfeirir at wahaniaethau arwyddocaol, maent wedi'u seilio ar brawf-t sydd â lefel hyder o 95%. Roedd profi arwyddocâd yn bwysig er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw wahaniaethau canfyddedig yn digwydd yn syml oherwydd nad oedd samplau'r arolwg yn cyfateb i'w gilydd.

### *Methodoleg*

4.6 Cynhaliwyd arolwg ar-lein ymhlith uwch-reolwyr ar draws holl wasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, iechyd, yr heddlu, tân ac achub, Cymunedau yn Gyntaf a'r trydydd sector. Roedd yr arolwg ar agor ar gyfer ymatebion rhwng 28ain Ebrill a 5ed Mehefin 2015. Anfonwyd pum gwahoddiad/nodyn atgoffa at y rhai oedd heb ymateb. Pan oedd rhif ffôn ar gael, ffoniwyd darpar gyfranogwyr i'w hatgoffa am yr arolwg ac i roi cyfle iddyn nhw gwblhau'r arolwg dros y ffôn. Derbyniwyd cyfanswm o 312 o ymatebion i'r arolwg, sef cyfradd ymateb o 25%[13]. Derbyniwyd cyfanswm o 82 o ymatebion gan brosiectau cyflenwi ESF-LSB[14] (o'i gymharu â 125 yn 2013) a 210 o ymatebion gan bartneriaethau eraill. Cynhwyswyd partneriaethau eraill oddi mewn i'r arolwg gwaelodlin a'r arolwg dilynol er mwyn gweithredu fel cymhariaeth â'r prosiect cyflenwi ESF-LSB o ran gwaith partneriaeth/prosiect yng Nghymru. Cysylltwyd eto â'r rhai a gwblhaodd yr arolwg gwaelodlin ac a gytunodd i gyfranogi yn yr arolwg dilynol, er mwyn iddynt gwblhau'r arolwg dilynol, a chwblhaodd 102 o'r 312 a ymatebodd i'r arolwg i'r arolygon gwaelodlin a dilynol.


*Proffil yr ymateb*

4.7 Roedd tua chwarter yr ymatebion a dderbyniwyd (82, 26%) gan gyfranogwyr oedd yn ymwneud â phrosiectau cyflenwi ESF-LSB, ac o'r rhain roedd 14 yn ateb mewn perthynas â phrosiectau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol WLGA. Daeth y 230 o ymatebion eraill gan y rhai oedd yn ymwneud â phartneriaethau oedd yn cynnwys eu Bwrdd Gwasanaethau Lleol (110), eu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (43), eu Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf (42) neu â rhyw fath arall o waith partneriaeth (35) (gweler Ffigur 4.1). At ddibenion dadansoddi, cymharwyd prosiectau cyflenwi ESF-LSB â grŵp cyfunol o'r 'partneriaethau eraill', oedd yn cynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf a'r rhai oedd yn ymwneud â gwaith arall mewn partneriaeth.

[13] Mae dau ddeg pump y cant yn gyfradd ymateb dda ar gyfer yr arolwg dilynol, gan fod nifer o aelodau/rheolwyr prosiectau wedi symud ymlaen o'r swyddi oedd ganddynt pan gynhaliwyd yr arolwg gwaelodlin yn 2013.

[14] Roedd yr 82 o gyfweliadau gydag unigolion o brosiectau cyflenwi ESF-LSB yn cwmpasu cyfanswm o 32 prosiect cyflenwi ESF-LSB gwahanol.

**Ffigur 4.1: Proffil o'r ymateb yn ôl y math o bartneriaeth**




**Cefndir, hanes a chefnogaeth**


4.8 Er mwyn deall cyd-destun y Prosiect/bartneriaeth, gofynnwyd i'r cyfranogwyr fesur i ba raddau roeddent yn cytuno â gosodiadau ynghylch cefndir a hanes y Prosiect a phartneriaethau a'r gefnogaeth roeddent wedi'i derbyn. Dangosir cyfran y cyfranogwyr oedd yn cytuno'n bendant (y rhai a roddodd sgôr o chwech neu saith allan o saith) neu'n anghytuno'n bendant (y rhai a roddodd sgôr o un neu ddau allan o saith) yn Ffigur 4.2.

4.9 Yn achos prosiectau cyflenwi ESF-LSB y gosodiad lle cafwyd y lefel uchaf o gytundeb oedd 'Bod ffurfio'r prosiect/partneriaeth(au) wedi'i sbarduno gan gyrff lleol' (56%), tra bod y rhai a atebodd ynghylch partneriaethau eraill yn fwyaf tebygol o gytuno 'Bod gan y boblogaeth a wasanaethwyd gan y prosiect/partneriaeth(au) anghenion amrywiol iawn' (68% - sy'n sylweddol uwch na'r 54% a atebodd ynghylch prosiectau cyflenwi ESF-LSB).

4.10 Roedd ychydig o dan ddau bumed (38%) o'r cyfranogwyr oedd yn ymwneud â phrosiectau ESF-LSB yn cytuno 'Bod gan y prosiect/partneriaeth(au) fynediad

digonol at gyllid. Roedd hyn yn sylweddol uwch na'r gyfran oedd yn cytuno'n bendant â'r gosodiad hwn ymhlith y rhai oedd yn ymwneud â phartneriaethau eraill (10%).

**Ffigur 4.2: Hanes y prosiect neu'r bartneriaeth a'r gefnogaeth a dderbyniwyd**




## Ffocws y Prosiect/Bartneriaeth


4.11 Holwyd yr holl brosiectau cyflenwi ESF-LSB a'r partneriaethau eraill ynghylch prif ffocws eu prosiectau/partneriaethau er mwyn i ni fedru canfod i ba raddau rydym ni'n cymharu tebyg â thebyg ar draws y prosiectau cyflenwi ESF-LSB a phartneriaethau eraill.

4.12 Dengys ffigurau 4.3, 4.4 a 4.5 gyfran y cyfranogwyr a oedd yn dweud bod pob gosodiad yn "ffocws pwysig" (sgôr o un neu ddau – sydd i'w gweld mewn gwyrdd ar ochr dde'r siart) a'r rhai a ddywedodd "nad oedd wir yn ffocws o gwbl" (sgôr o chwech neu saith – a ddangosir mewn coch ar ochr chwith y siart)[15]. Yn 2015, holwyd y cyfranogwyr ynghylch i ba raddau roedd y prosiect yn canolbwyntio ar ddwy elfen


[15] Mae'r raddfa sgorio ar gyfer y gosodiadau ynghylch prif ffocws prosiectau/partneriaethau i'r gwrthwyneb i fwyafrif y graddfeydd a drafodir yn y rhan hon o'r adroddiad (h.y. mae chwech neu saith allan o saith yn ymateb 'negyddol', yn hytrach nag un neu ddau allan o saith, ac mae un neu ddau yn ymateb 'cadarnhaol', yn hytrach na chwech neu saith allan o saith).

ychwanegol: ‘Cynyddu rôl y sector gwirfoddol/trydydd sector yn y gwaith o gynllunio a dylunio gwasanaethau’ a ‘Gwella’r canlyniadau i drigolion yn yr ardal a gwmpasir gan y prosiect/bartneriaeth’.


**Ffigur 4.3: Prif ffocws prosiectau/partneriaethau**



## Ffigur 4.4: Prif ffocws prosiectau/partneriaethau




## Ffigur 4.5: Prif ffocws prosiectau/partneriaethau



4.13 Yn 2015, adroddwyd mai prif ffocws y prosiectau ESF-LSB a ariannwyd oedd ‘darparu gwasanaethau mwy cydlynus’, ‘cyfuno sgiliau ac adnoddau gwahanol sefydliadau’ a ‘chyflenwi gwell gwasanaethau’ (56%, 55% a 52% yn eu tro – fel y gwelir yn Ffigur 4.3).

4.14 Fel yn 2013, nododd llai o brosiectau cyflenwi gynyddu’r broses o gynnwys dinasyddion mewn penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau a chynyddu rôl y sector gwirfoddol/trydydd sector wrth gyflenwi gwasanaethau fel ffocws (dywedodd 28% a 27% o’r prosiectau yn eu tro fod hynny’n ffocws pwysig – gwelir hynny yn Ffigur 4.5). Hefyd yn 2015, adroddodd nifer cymharol fach am gynyddu rôl y sector gwirfoddol/trydydd sector yn y gwaith o gynllunio a dylunio gwasanaethau fel ffocws pwysig (dywedodd 24% o’r prosiectau fod hyn yn ffocws pwysig – gwelir hynny yn Ffigur 4.5), a hynny er gwaethaf y ffaith bod yr elfennau hyn yn nodau allweddol i’r Prosiect ESF yn ei gyfanrwydd.

4.15 Ar y cyfan, roedd cyfran y prosiectau cyflenwi a’r partneriaethau eraill oedd yn canolbwyntio ar bob nod yn eitha tebyg yn yr arolwg gwaelodlin a’r arolwg dilynol. Mae’r saethau glas yn Ffigur 4.5 yn cynrychioli’r gostyngiad arwyddocaol yn nifer ymatebion partneriaethau eraill dros amser.

4.16 Yn arolwg dilynol 2015, roedd nifer o elfennau lle roedd prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn sylweddol fwy tebygol na phartneriaethau eraill i ymateb trwy ddweud nad oedent yn ffocws o gwbl (sgôr o chwech neu saith allan o saith): gan gynnwys ‘gwella’r canlyniadau i drigolion yn yr ardal a gwmpasir gan y prosiect/bartneriaeth’, ‘cyflenwi gwasanaethau mwy cydlynus’, ‘rhannu gwybodaeth’, ‘cael hyd i atebion newydd i’r problemau mae’r ardal yn eu hwynebu’, ‘cyfuno sgiliau ac adnoddau gwahanol sefydliadau’, ‘ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid’, ‘cynnwys dinasyddion mewn penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau’ a ‘lleihau costau darparu gwasanaethau’. Mae’n syndod bod canfyddiad o leihau’r ffocws ar gyflenwi gwasanaethau mwy cydlynus.

**Cyflenwi Prosiectau/Partneriaethau**

4.17 Gofynnodd yr arolwg nifer o gwestiynau ynghylch sut roedd y prosiect/bartneriaeth yn cael eu darparu. Roedd y rhain yn canolbwyntio’n arbennig ar rôl rheolwyr prosiect, natur gweithio mewn partneriaeth a lefel yr integreiddio a gyflawnwyd.

### *Rheolwyr prosiectau cyflenwi ESF-LSB*

4.18 Dangosodd y gwerthusiad ffurfiannol fod rheolwyr prosiectau yn ganolog i'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB. Yn wir, yn achos mwyafrif y prosiectau cyflenwi ESF-LSB, darparwyd y cyllid ESF er mwyn ariannu rôl rheolwr prosiect yn benodol.


4.19 Er mwyn deall effeithiolrwydd rheolwyr prosiectau, gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi i ba raddau roeddent yn cytuno â gosodiadau ynghylch rôl rheolwr y prosiect, ar raddfa o un i saith, lle roedd un yn cynrychioli "anghytuno'n bendant" a saith "cytuno'n bendant". Dengys ffigurau 4.6 a 4.7 isod gyfran y cyfranogwyr a roddodd sgôr o chwech neu saith i nodi faint roeddent yn cytuno â phob un o'r gosodiadau. Mae'n werth nodi, yn achos yr arolwg gwaelodlin a'r arolwg dilynol, mai rheolwr y prosiect ei hun oedd y cyfranogwr mewn rhai achosion (16 o ymatebion yn y ddau arolwg). Er bod rhywfaint o duedd i reolwyr prosiectau fod yn fwy cadarnhaol ynghylch eu hunain nag aelodau eraill y prosiect, nid achosodd hynny newid sylweddol yn y ffigurau cyffredinol.

4.20 Yn 2015, roedd ychydig dros dri phumed o'r cyfranogwyr a oedd yn ymwneud â phrosiectau cyflenwi ESF-LSB yn cytuno'n bendant â'r gosodiadau bod rheolwr eu prosiect hwy 'yn sicrhau bod partneriaid yn parhau'n ymroddedig i'r prosiect' ac yn 'annog y prosiect i ystyried syniadau newydd' (63% a 61% yn eu tro). Roedd rhwng dau bumed a hanner yr ymatebwyr yn cytuno'n bendant â'r holl osodiadau eraill a gynigiwyd ynghylch rheolwr y prosiect. Mae'r rhain yn ganlyniadau cadarnhaol, ond mae'n bwysig cadw mewn cof na fydd y canfyddiad o ran i ba raddau y rheolwyd y prosiect yn dda o reidrwydd bob amser yn adlewyrchu perfformiad y prosiect yn gyffredinol.


4.21 Mae rhai meysydd sy'n destun pryder oddi mewn i gwmpas y cytundeb yn achos rhai o'r gosodiadau ynghylch rôl rheolwr y prosiect. Roedd un o bob 10 prosiect cyflenwi ESF-LSB yn anghytuno bod gan reolwr y prosiect ddylanwad i gyflawni pethau (roedd 10% yn graddio hyn fel un neu ddau allan o saith). Hefyd, o ystyried pwysigrwydd rôl rheolwr y prosiect, mae'n destun pryder mai dau bumed yn unig oedd yn cytuno bod rheolwr y prosiect wedi derbyn yr hyfforddiant priodol (roedd 40% yn graddio hyn fel chwech neu saith allan o saith)[16].

[16] Ni ddarparwyd hyfforddiant ar gyfer staff cyflenwi fel rhan o'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB. Lle darparwyd hyfforddiant penodol i reolwyr prosiectau, ariannwyd hynny gan y corff oedd yn eu cyflogi.

## Ffigur 4.6: Rôl rheolwr y prosiect




## Ffigur 4.7: Rôl rheolwr y prosiect



### *Ymddygiad*


4.22 Gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr nodi i ba raddau roeddent yn cytuno â chyfres o osodiadau oedd yn ymwneud ag ymddygiad a gwaith mewnol eu prosiect neu eu partneriaethau (gan ddefnyddio graddfa o un i saith, lle roedd un yn cynrychioli "anghytuno'n bendant" a saith yn cynrychioli "cytuno'n bendant"). Dengys Ffigurau 4.8, 4.9 a 4.10 gyfran y cyfranogwyr a roddodd sgôr o 'chwech neu saith' neu 'un neu ddau' yng nghyswllt cytuno â phob un o'r gosodiadau.

4.23 Oddi mewn i'r arolygon gwaelodlin a dilynol, gan y rhai oedd yn ymwneud â'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB y gwelwyd y lefelau uchaf o gytuno'n bendant â'r gosodiad 'roedd/mae gan y bartneriaeth weledigaeth glir a gwerthoedd a rennir' (61% yn 2013 a 55% yn 2015 yn rhoi sgôr o chwech neu saith allan o saith – fel y dangosir yn Ffigur 4.8).


4.24 At ei gilydd, roedd ymatebion yr arolwg dilynol yn ddigon tebyg i ymatebion 2013. O ran cytuno'n bendant, dim ond un gwahaniaeth pwysig oedd yn amlwg; roedd prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn fwy tebygol na phartneriaethau eraill i gytuno'n bendant bod lefelau uchel o ymddiriedaeth ymhlith yr aelodau (51% yn achos prosiectau cyflenwi ESF-LSB o'i gymharu â 38% yn achos prosiectau/partneriaethau eraill – fel y dangosir yn Ffigur 4.8). Roedd prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn fwy tebygol na phartneriaethau eraill o anghytuno'n bendant bod y bartneriaeth yn cymryd amser hir i gyflawni unrhyw beth (rhoddodd 30% sgôr o un neu ddau allan o saith, o'i gymharu ag 16%) a bod cyfradd uchel o drosiant ymhlith unigolion yn y bartneriaeth (46% o'i gymharu â 25% - dangosir hyn yn Ffigur 4.10).

4.25 Gwelid prosiectau cyflenwi ESF-LSB fel prosiectau mwy sefydlog, cyflymach i weithredu, ac wedi'u seilio ar lefelau uwch o ymddiriedaeth rhwng yr aelodau na phartneriaethau eraill.


## Ffigur 4.8: Natur gwaith partneriaeth




## Ffigur 4.9: Natur gwaith partneriaeth



**Ffigur 4.10: Natur gwaith partneriaeth**




***Integreiddio***

4.26 Roedd gwelliannau o ran cydweithio ac integreiddio yn nod allweddol i Brosiect ESF-LSB yn gyffredinol. Holwyd y cyfranogwyr ynghylch nifer o osodiadau oedd yn sôn am lefel integreiddio aelodau eu prosiectau a'u partneriaethau, ar raddfa o un i saith, lle roedd un yn cynrychioli "ddim o gwbl" a saith "i raddau helaeth", Dangosir y canlyniadau ar gyfer pob gosodiad yn Ffigurau 4.11, 4.12 a 4.13.

4.27 Y gosodiad a gafodd y sgôr uchaf yn achos prosiectau cyflenwi ESF-LSB a phartneriaethau eraill oedd rhannu gwybodaeth ymhlith ei gilydd (a raddiwyd fel chwech neu saith allan o saith gan 62% o'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB a 43% o'r partneriaethau eraill). Er bod hynny'n galonogol, gellid dadlau bod rhannu gwybodaeth yn fwy o fan cychwyn ar gyfer cydweithio nag yn 'integreiddio' gwirioneddol.


4.28 Yn yr arolwg dilynol yn 2015, roedd nifer o wahaniaethau'n amlwg rhwng yr integreiddio yr adroddwyd amdano yn achos prosiectau cyflenwi ESF-LSB a phartneriaethau eraill, ac roedd lefel yr integreiddio ymhlith prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn uwch nag ymhlith partneriaethau eraill. Roedd prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn sylweddol fwy tebygol na phartneriaethau eraill o raddio 'gwneud defnydd ar y cyd o adeiladau/swyddfeydd/cyfarpar' yn uwch (43% o'i gymharu â 29% - fel y dangosir yn

Ffigur 4.11), a hefyd 'yn meddu ar gynlluniau i sicrhau bod yr integreiddio'n cael ei gynnal y tu hwnt i oes y bartneriaeth ffurfiol' (32% o'i gymharu â 15% - fel y dangosir yn Ffigur 4.12), 'rhannu staff' (32% o'i gymharu â 13% - fel y dangosir yn Ffigur 4.12) ac 'wedi integreiddio'u systemau TG (7% o'i gymharu â 2% - fel y dangosir yn Ffigur 4.13).

4.29 Rhwng 2013 a 2015, gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghyfran y prosiectau cyflenwi ESF-LSB oedd yn rhoi gradd uchel i integreiddio o ran 'rhannu staff' (19% o'i gymharu â 32% - fel y dangosir yn Ffigur 4.12). Roedd y cynnydd hwn, er ei fod yn arwyddocaol, yn dod o fan cychwyn isel (19% yn unig).


4.30 Roedd prosiectau cyflenwi ESF-LSB a phartneriaethau eraill yn cael trafferth i integreiddio'u systemau a'u prosesau mewn gwirionedd, ac fel y dangosir yn Ffigur 4.13, maent yn sgorio'n llawer is am integreiddio'u systemau TG a meddu ar systemau atebolrwydd a rennir. Trafodwyd y materion hyn yn fanylach yn yr adolygiad o'r llenyddiaeth a'r fframwaith gwerthuso yn yr adroddiad ffurfiannol[17].

**Ffigur 4.11: Lefel a math yr integreiddio**





17 http://business.cardiff.ac.uk/sites/default/files/esf-lsb_report_final_0.pdf

## Ffigur 4.12: Lefel a math yr integreiddio




## Ffigur 4.13: Lefel a math yr integreiddio



## Y Gefnogaeth i Brosiect Cyflenwi ESF

4.31 Bu'r arolwg yn casglu barn cyfranogwyr ynghylch lefel y gefnogaeth a gafwyd gan eu Bwrdd Gwasanaethau Lleol a thîm cenedlaethol ESF-LSB Llywodraeth Cymru. Teimlir bod lefel y gefnogaeth a gynigir gan y naill a'r llall yn debygol o gael effaith ar lwyddiant y prosiect yn gyffredinol.

### *Cefnogaeth gan dimau lleol a chenedlaethol*

4.32 Roedd dros hanner y cyfranogwyr a oedd yn ymwneud â phrosiectau cyflenwi ESF-LSB yn cytuno'n bendant (sgôr o chwech neu saith allan o saith) bod eu Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi cefnogi'r prosiect (55%), o'i gymharu ag 1% yn unig a oedd yn anghytuno'n bendant (sgôr o un neu ddau allan o saith). Ar ben yr hanner oedd yn cytuno'n bendant, rhoddodd 13% arall sgôr cytuno gwannach o bump allan o saith. Ymateb pumed ran (20%) o'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB oedd 'ddim yn gwybod' pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn cytuno â'r gosodiad hwn. Gan fod y prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth allweddol o'r BGLl, byddem wedi disgwyl lefelau llawer uwch o gefnogaeth ganfyddedig.

4.33 Os eithrir yr ymatebion a roddwyd gan brosiectau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol WLGA i'r gosodiad hwn, rhoddir hwb bychan i'r gyfran sy'n cytuno bod eu Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi cefnogi'r prosiect (rhoddodd 65% sgôr o chwech neu saith allan o saith yn 2015 a 62% yn 2013).


4.34 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd nodi i ba raddau roeddent yn cytuno bod y prosiect wedi derbyn cefnogaeth gan dîm cenedlaethol ESF-LSB yn Llywodraeth Cymru. Dangosir cyfran y cyfranogwyr a oedd yn cytuno'n bendant (sgôr o chwech neu saith allan o saith) neu a oedd yn anghytuno'n bendant (sgôr o un neu ddau) gyda phob agwedd ar y gefnogaeth a dderbyniwyd yn Ffigur 4.14.

4.35 Yn arolwg 2015, cafwyd y cytundeb uchaf ynghylch cefnogaeth y prosiect gan dîm cenedlaethol ESF-LSB o ran 'monitro perfformiad y prosiect yn fanwl iawn', gydag ychydig dros hanner yn cytuno'n bendant (54%) o'i gymharu â 4% yn unig yn anghytuno'n bendant. Bu cynnydd sylweddol ers yr arolwg gwaelodlin yn y gyfran sy'n cytuno'n bendant â'r gosodiad hwn (40% yn 2013 i 54% yn 2015). Mae'r cynnydd hwn i'w ddisgwyl o ystyried bod y prosiectau'n dod i ben a bod rhaid iddynt adrodd ar berfformiad i Lywodraeth Cymru, oedd yn ei thro yn gorfod adrodd i WEFO.

4.36 Fel y gwelwyd yn yr arolwg gwaelodlin, roedd lefelau'r farn gadarnhaol ynghylch materion cefnogaeth ymarferol rywfaint yn is. Dim ond traean oedd yn cytuno'n

bendant bod y tîm cenedlaethol yn dda am ledaenu arfer da (34%)[18] neu eu bod yn helpu'r prosiect i gyflawni ei ddangosyddion WEFO (32%). Serch hynny, roedd tua chwarter y cyfranogwyr yn cytuno'n bendant eu bod yn rhoi cyngor ar sut i fynd i'r afael â phroblemau (27%).  Roeddem yn disgwyl i'r arolwg dilynol ddatgelu cynnydd yng nghyfran y prosiectau cyflenwi ESF-LSB oedd yn cytuno'n bendant bod tîm cenedlaethol ESF-LSB yn gefnogol yn y meysydd hyn, yn arbennig, wrth ledaenu arfer da o'r prosiectau a gwblhawyd (er nad cyfrifoldeb y tîm cenedlaethol yn unig yw hynny).

**Ffigur 4.14: Cefnogaeth gan y BGLl a thîm cenedlaethol ESF-LSB**




*Capasiti aelodau allweddol o'r prosiect*

4.37 Gofynnwyd i'r rhai oedd yn ymwneud â phrosiectau cyflenwi ESF-LSB a phartneriaethau eraill a oedd cyfres o asiantaethau yn aelodau allweddol o'u prosiect/partneriaeth. Mae'r wybodaeth hon yn gweithredu fel dangosydd arall ar gyfer llwyddiant y prosiect/bartneriaeth i gyflawni gweithio ar y cyd.


[18] Roedd cyfran y prosiectau cyflenwi ESF-LSB yng Ngogledd Cymru oedd yn cytuno'n bendant bod y tîm cenedlaethol yn llwyddo i ledaenu arfer da yn debyg i'r hyn a welwyd y tu allan i Ogledd Cymru (33% a 34% yn eu tro). Y rheswm pam rydym yn edrych ar y rhaniad hwn yw y byddem o bosibl yn disgwyl i'r ymatebion amrywio yn sgîl bodolaeth rhwydwaith Gogledd Cymru, sydd ar gael yn chwech o awdurdodau Gogledd Cymru (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Roedd maint y sylfaen i'r rhai yng Ngogledd Cymru yn fach iawn (15 yn unig)

4.38 Dengys Ffigur 4.15 y gyfran o gyfranogwyr y prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn yr arolwg dilynol oedd yn cytuno'n bendant (sgôr o chwech neu saith allan o saith) bod rhai sefydliadau neu gynrychiolwyr yn aelodau allweddol o'r prosiect, a hefyd y gyfran a adroddodd fod gan bob sefydliad y capasiti i ymgysylltu'n llawn. Dengys y ffigurau ar ochr dde bellaf Ffigur 4.15 gyfran y rhai a ddywedodd fod gan bob sefydliad y capasiti i ymgysylltu'n llawn a oedd yn ymwneud â'r prosiect fel aelodau allweddol.

4.39 Ers yr arolwg gwaelodlin bu gostyngiad yng nghyfran cyfranogwyr y prosiectau cyflenwi ESF-LSB oedd yn nodi bod awdurdodau lleol (o 90% i 80%), cyrff sector cyhoeddus eraill (o 67% i 50%) a chyrff sector gwirfoddol/trydydd sector (o 53% i 39%) yn aelodau allweddol o'u prosiect. Efallai bod hyn yn arwydd o'r ffaith bod maint y timau sy'n gyfrifol am sbarduno'r prosiectau, dros amser, wedi crebachu rhywfaint.

4.40 Fel y dangoswyd yn Ffigur 4.15, gwelwyd awdurdodau lleol yn gyffredinol fel aelodau allweddol o'r prosiect, ac roedd tuedd i'w gweld fel cyrff oedd â'r gallu i ymgysylltu'n llawn. Roedd mathau eraill o sefydliad (gan gynnwys y sector gwirfoddol) yn llai tebygol o gael eu gweld fel aelodau allweddol, a hyd yn oed pan oeddent yn aelodau allweddol, roeddent yn llai tebygol o gael eu hystyried yn rhai oedd â'r gallu i ymgysylltu'n llawn.

**Ffigur 4.15: Aelodau allweddol o'r prosiect**




**Effaith cyllido ar brosiectau cyflenwi ESF-LSB**

*Effaith cyllido*

4.41 Dangoswyd cyfres o osodiadau i gyfranogwyr prosiectau cyflenwi ESF-LSB ynghylch effaith bosibl y cyllid ESF-LSB. Dengys y canlyniadau yn Ffigur 4.16 mai i ba raddau mae'r cyllid wedi galluogi'r partneriaid i 'Gynhyrchu canlyniadau'n gynt nag a fuasai'n bosibl fel arall' y rhoddwyd y sgôr uchaf, gan fod dros hanner (54%) wedi adrodd i hyn gael ei alluogi i raddau helaeth (sgôr o chwech neu saith allan o saith).


4.42 Bu cynnydd sylweddol yng nghyfran y cyfranogwyr oedd yn cytuno bod y cyllid wedi galluogi'r partneriaid i hybu cydraddoldeb (o 22% yn 2013 i 35% yn 2015). Gallai hyn adlewyrchu newidiadau yng ngweithgareddau'r prosiect dros amser a bod mwy o bwyslais wedi cael ei roi ar y mater trawsbynciol hwn yn y cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a phrosiectau cyflenwi. Mae'n bosibl ei fod wedi'i sbarduno hefyd gan fwy o bwyslais ar y themâu trawsbynciol yn ymweliadau monitro 2014 â phrosiectau cyflenwi nag yn 2013, ond mae'r canfyddiadau o ran yr effaith ar gynaliadwyedd amgylcheddol yn dal yn isel.

**Ffigur 4.16: I ba raddau mae cyllid ESF wedi galluogi'r partneriaid i ychwanegu gwerth**



4.43 Mae cyfuno'r ymatebion a roddwyd ar draws gosodiadau tebyg yn golygu bod modd dadansoddi i ba raddau mae cyllid ESF wedi galluogi'r partneriaid i 'gynhyrchu canlyniadau', 'cydweithio' neu fynd i'r afael â materion 'trawsbynciol' (fel y gwelir yn Ffigur 4.17). Roedd tri phumed o'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn cytuno'n bendant bod y cyllid ESF wedi galluogi'r partneriaid i 'gynhyrchu canlyniadau' neu 'gydweithio' (61% a 59% yn eu tro). Roedd dau bumed (43%) o'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn cytuno'n bendant bod y cyllid ESF wedi galluogi'r partneriaid i fynd i'r afael â materion 'trawsbynciol'. Teimlid mai'r agwedd wannaf ar y cyllid ESF oedd wrth alluogi prosiectau cyflenwi ESF-LSB i berfformio yn erbyn nodau allweddol hybu themâu trawsbynciol cydraddoldeb a chynaliadwyedd amgylcheddol. Teimlid bod y cyllid ESF yn gymharol lwyddiannus wrth alluogi'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB i wneud gwelliannau i'r capasiti i gydweithio.

**Ffigur 4.17: I ba raddau mae cyllid ESF wedi galluogi'r partneriaid i ychwanegu gwerth**





*Cynnydd prosiectau/partneriaethau yn erbyn nodau*

4.44 Er mwyn mesur llwyddiant, gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod y prosiect wedi llwyddo i gyflawni ei nodau. Dengys Ffigurau 4.18, 4.19 a 4.20 gyfran y prosiectau cyflenwi ESF-LSB a phartneriaethau


eraill a oedd yn cytuno’n bendant (sgôr o chwech neu saith allan o saith) neu’n anghytuno’n bendant (sgôr o un neu ddau allan o saith) â phob un o’r gosodiadau.

4.45 Sgoriodd prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn sylweddol uwch na phartneriaethau eraill am lwyddiant yng nghyswllt nodau ‘rhannu gwybodaeth’ (66% o’i gymharu â 46%), ‘cyfuno sgiliau ac adnoddau gwahanol sefydliadau’ (61% o’i gymharu â 40%), ‘ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid’ (51% o’i gymharu â 35%), ‘cael hyd i atebion newydd i’r problemau mae’r ardal yn eu hwynebu’ (45% o’i gymharu â 33%) a ‘chyflenwi gwasanaethau mwy cydlynus’ (44% o’i gymharu â 31%).


**Ffigur 4.18: Cyrraedd nodau’r prosiect neu’r bartneriaeth**



**Ffigur 4.19: Cyrraedd nodau'r prosiect neu'r bartneriaeth**




**Ffigur 4.20: Cyrraedd nodau'r prosiect neu'r bartneriaeth**




*Hanes y prosiect/bartneriaeth o gydweithio*

4.46 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr raddio hanes y prosiect/bartneriaeth o rannu adnoddau, cyllid a chael hyd i atebion a fyddai o fudd i'r ardal leol. Dengys Ffigur 4.21 gyfran y cyfranogwyr a oedd yn cytuno'n bendant (sgôr o chwech neu saith allan o saith) neu'n anghytuno'n bendant (sgôr o un neu ddau allan o saith) â phob gosodiad.

4.47 Yn 2015, cynhyrchodd prosiectau cyflenwi ESF-LSB lefelau sylweddol uwch o gytundeb na phartneriaethau eraill am rannu adnoddau (52% o'i gymharu â 21%), cael hyd i atebion newydd i'r problemau y mae'r ardal yn eu hwynebu (52% o'i gymharu â 34%) a chrynhoi cyllid (29% o'i gymharu â 16%). Mae hyn yn ychwanegu tystiolaeth bellach i awgrymu bod yr ymatebwyr yn gweld y prosiectau cyflenwi ESF-LSB, ar y cyfan, fel rhai mwy cydlynus a chydweithredol na phartneriaethau eraill. Mae'r canfyddiadau yma fwy na thebyg yn adlewyrchu'r mandad cryfach ar gyfer rhannu adnoddau, cyllid a chael hyd i atebion a fydd o fudd i'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB gan eu bod yn derbyn grant, a bod yr adnoddau hynny wedi'u neilltuo.

4.48 Yr unig wahaniaeth arwyddocaol rhwng y ddau arolwg fu cynnydd yng nghyfran y prosiectau cyflenwi ESF-LSB oedd yn cytuno'n bendant bod gan y prosiect hanes da o grynhoi cyllid (graddiodd 17% hyn yn chwech neu saith allan o saith yn 2013, o'i gymharu â 29% yn 2015).

**Ffigur 4.21: Hanes y prosiect/bartneriaeth o ran rhannu adnoddau, cyllid, a chael hyd i atebion a fydd o fudd i'r ardal leol**



*Llwyddiant i gyflawni blaenoriaethau'r prosiect*

4.49 Er mwyn mesur llwyddiant yn erbyn rhai o nodau allweddol y prosiect ESF cyffredinol, crynhowyd yr ymatebion i bedwar categori cyffredinol:


- **Integreiddio** (gan gynnwys: 'gwybodaeth a rennir', 'cyfuno sgiliau ac adnoddau gwahanol sefydliadau' a 'sicrhau cyllid allanol gan y llywodraeth'.
- **Gwelliannau o ran capasiti cydweithio/newid sefydliadol** (gan gynnwys: 'cyflenwi gwasanaethau mwy cydlynus', 'mynd i'r afael â materion 'trawsbynciol'', 'cael hyd i atebion newydd i'r problemau mae'r ardal yn eu hwynebu', 'cynnwys dinasyddion mewn penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaeth' ac 'ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid'.
- **Gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus** (gan gynnwys: 'gwell canlyniadau i drigolion yn yr ardal mae'r prosiect yn ei chwmpasu', 'costau is i ddarparu gwasanaeth' a 'chyflenwi gwell gwasanaethau').
- **Mwy o welliant yn y sector gwirfoddol/trydydd sector** (gan gynnwys: 'cynyddu rôl y sector gwirfoddol/trydydd sector wrth gynllunio a dylunio gwasanaethau' a 'chynyddu rôl y sector gwirfoddol/trydydd sector wrth gyflenwi gwasanaethau'.

4.50 Teimlai mwyafrif y prosiectau cyflenwi ESF-LSB a nododd 'integreiddio' neu 'welliannau o ran capasiti cydweithio/newid sefydliadol' fel blaenoriaethau i'r prosiect, eu bod wedi llwyddo i gyflawni o leiaf un elfen o'r rhain (86% ac 81% yn eu tro). Teimlai saith o bob 10 a nododd 'gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus' fel un o flaenoriaethau'r prosiect eu bod wedi llwyddo i gyflawni o leiaf un elfen o hyn (68%). Prosiectau cyflenwi ESF-LSB oedd y lleiaf tebygol o gredu eu bod wedi llwyddo i gyflawni o safbwynt ffocws ar 'fwy o welliant yn y sector gwirfoddol/trydydd sector' (adroddodd 42% o'r rhai a nododd hynny fel blaenoriaeth eu bod wedi llwyddo i'w gyflawni). Roedd y rhai oedd yn ymwneud â phrosiectau cyflenwi ESF-LSB yn fwy tebygol na'r rhai oedd yn ymwneud â phartneriaethau eraill i adrodd am lwyddiant o safbwynt o leiaf un elfen yn achos 'gwelliannau o safbwynt capasiti cydweithio/newid sefydliadol (81% o'i gymharu â 65%) a 'gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus' (68% o'i gymharu â 49%).

4.51 Ar lefel gyffredinol, roedd prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn fwy tebygol na phartneriaethau eraill o adrodd eu bod wedi llwyddo i gyflawni rhai neu'r holl elfennau a nodwyd fel prif flaenoriaethau i'w prosiectau. O ganolbwyntio ar y prosiectau/partneriaethau sy'n adrodd am brif ffocws (h.y. y rhai a nododd o leiaf un elfen a oedd yn brif ffocws – sgôr o un neu ddau allan o saith), teimlai'r cyfranogwyr

fod 88% o'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB wedi llwyddo i gyflawni rhai neu'r cyfan o'u prif flaenoriaethau, o gymharu â 68% o'r partneriaethau eraill.

**Ffigur 4.22: Llwyddiant yr adroddwyd amdano yng nghyswllt blaenoriaethau'r prosiect**




## Dysgu a newid yn sgîl y prosiect

4.52 Un arall o nodau allweddol y prosiect ESF-LSB trosfwaol oedd cynyddu dysgu a rhannu gwybodaeth ac arfer gorau ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr oedd yn ateb am brosiectau cyflenwi ESF-LSB raddio'r sefydliadau oedd yn cyfrannu fwyaf at y dysgu hwn.


*Sefydliadau sydd wedi galluogi neu rwystro dysgu a newid*

4.53 Dengys Ffigur 4.24 fod cyfranogwyr oedd yn ymwneud â phrosiectau cyflenwi ESF-LSB yn gweld awdurdodau lleol fel y sefydliadau oedd yn cael yr effaith fwyaf o ran galluogi dysgu a newid. Rhoddodd ychydig dros dri phumed (62%) o'r cyfranogwyr radd o chwech neu saith allan o saith wrth ystyried i ba raddau roedd awdurdodau lleol wedi galluogi dysgu a newid.

4.54 Arhosodd mwyafrif y cyfranogwyr naill ai'n niwtral, neu nid oeddent yn gwybod a oedd pob math o sefydliad wedi galluogi/rhwystro dysgu a newid yng nghyswllt eu prosiect.

Mae hyn yn destun pryder, gan fod gan y sefydliadau hyn beth cyfrifoldeb am rannu'r dysgu yn sgîl y prosiectau cyflenwi ESF-LSB.

**Ffigur 4.23: Cefnogaeth i ddysgu a newid mewn prosiectau cyflenwi**





*Ffactorau sydd wedi cyfrannu at ddysgu a newid*

4.55 Gofynnwyd i gyfranogwyr prosiectau cyflenwi ESF-LSB ystyried hefyd pa ffactorau oedd yn cyfrannu at ddysgu a newid yn y prosiect cyflenwi. Dengys Ffigur 4.23 y gyfran oedd yn credu bod pob ffactor a awgrymwyd wedi cyfrannu mewn rhyw fodd at ddysgu a newid yn y prosiect cyflenwi.

4.56 Fel yn 2013, roedd yr 'enghreifftiau o arfer da' yn graddio'r ffactor uchaf oedd wedi cyfrannu at ddysgu a newid fel yr adroddwyd gan dri chwarter (74%) o'r cyfranogwyr. Dilynwyd hynny gan 'arweinyddiaeth reolaethol', a gafwyd gan bron ddau draean (63%) o'r cyfranogwyr (cynnydd sylweddol o 48% yn 2013). Cyfeiriodd ychydig dros dri phumed (61%) o'r cyfranogwyr at 'ddata seiliedig ar dystiolaeth' a 'gwerthuso' fel ffactorau a gyfrannodd at ddysgu (cododd cyfran y cyfranogwyr a gyfeiriodd at yr olaf fel ffactor yn sylweddol o 46% yn 2013). Profodd bron yr holl brosiectau cyflenwi ESF-LSB ryw fath o werthusiad ar ddiwedd y prosiect. Cynhaliwyd y gwerthusiadau hyn naill ai'n fewnol neu cawsant eu caffael trwy sefydliad ymchwil allanol.

4.57 Fel y dengys Ffigur 4.24, teimlai'r cyfranogwyr fod ffactorau niferus yn cyfrannu at ddysgu a newid yn y prosiect cyflenwi. Yn wir, dim ond 4% o'r cyfranogwyr oedd yn teimlo nad oedd un o'r ffactorau a awgrymwyd wedi cyfrannu at ddysgu a newid yn eu prosiect.


**Ffigur 4.24: Ffactorau sy'n cyfrannu at ddysgu a newid mewn prosiectau cyflenwi**




*Rhwystrau i ddysgu a newid*

4.58 Fel yn 2013, y prif rwystr i ddysgu a newid yn y prosiect cyflenwi yr adroddwyd amdano gan y cyfranogwyr oedd yn ymwneud â phrosiectau cyflenwi ESF-LSB oedd gwahanol ddiwylliannau sefydliadol, y cyfeiriodd 61% o'r cyfranogwyr ato. Ni theimlai un o bob wyth cyfranogwr fod unrhyw rwystrau i ddysgu a newid yn y prosiect cyflenwi (12%).

**Ffigur 4.25: Rhwystrau i ddysgu a newid mewn prosiectau cyflenwi**[19]




*Dysgu a newid trwy gydweithio*


4.59 Yn 2015, gofynnwyd cwestiwn agored i gyfranogwyr prosiectau cyflenwi ESF-LSB ynghylch yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu am gyflawni canlyniadau trwy gydweithio wrth ymwneud â'r prosiect. (gweler Ffigur 4.26.)

4.60 Isod ceir rhai enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd:

- '*Mae cyfathrebu parhaus a rhannu arfer da yn hanfodol'.*
- *'Pwysigrwydd arweinyddiaeth dda a gweledigaeth glir'.*
- *'Mae'n anodd, ond cyhyd â bod eglurder o ran y canlyniadau i'r cleient, a bod yr holl bartïon yn ymroddedig i hynny, mae modd ei gyflawni'.*
- *'Gall fod yn anodd gweithio mewn partneriaeth oherwydd gwahanol ddiwylliannau a gwahanol flaenoriaethau. Mae'n cymryd amser i gytuno ar newidiadau a'u rhoi ar waith.'*

[19] Mae'r 'ymateb byrfyfyr' a welir yn Ffigur 4.27 yn cyfeirio at atebion a roddwyd i'r cwestiwn nad oeddent yn cael eu dangos/darparu fel opsiwn wrth ateb.


**Ffigur 4.26: Gwersi a ddysgwyd am gyflawni canlyniadau trwy gydweithio**




*Sylfaen: Yr holl brosiectau ESF-LSB; 2015 (82)* *Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2013 ~ymateb byrfyfyr*


4.61 Gofynnwyd i gyfranogwyr a oedd wedi manylu ar yr hyn a ddysgwyd ynghylch cyflawni canlyniadau trwy gydweithio i ba raddau y gallai'r dysgu hwn fod yn ddefnyddiol i bartneriaethau/brosiectau ac i Lywodraeth Cymru. Mae Ffigur 4.27 yn dangos y gyfran oedd yn credu y gallai dysgu trwy gydweithio fod yn ddefnyddiol iawn (rhai a roddodd sgôr o chwech neu saith allan o saith) neu heb fod yn ddefnyddiol o gwbl (rhai a roddodd sgôr o un neu ddau allan o saith).

**Ffigur 4.27: I ba raddau gallai'r dysgu fod o ddefnydd i bartneriaethau/brosiectau a Llywodraeth Cymru**




4.62 Gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr pa ddulliau fyddai orau ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd ar brosiectau cydweithio yn y dyfodol. Dangosir y dulliau a ffafrir ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgwyd wrth gydweithio yn y dyfodol yn Ffigur 4.30. Roedd prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn sylweddol lai tebygol na'r rhai oedd yn ateb am bartneriaethau eraill o gytuno mai newyddlen neu grynodeb ar e-bost yw'r dull rhannu maen nhw'n ei ffafrio.

**Ffigur 4.28: Dulliau a ffafrir ar gyfer rhannu dysgu yn y dyfodol**[20]





4.63 Gofynnwyd i gyfranogwyr prosiectau cyflenwi ESF-LSB hefyd pa agweddau ar y prosiectau fyddai'n addas i'w hestyn yn fwy cyffredinol ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Holwyd y cyfranogwyr a ellid estyn yr agweddau hyn fel yr oeddent, neu gydag addasiadau. Dangosir eu hymatebion yn Ffigur 4.29, sy'n dangos sgôr pob un, ynghyd â'r sgôr cyfun (h.y. cyfran gyfunedig y rhai a ddywedodd 'ydy – fel mae'n sefyll' ac 'ydy – gydag addasiadau').

4.64 Roedd y cyfranogwyr yn fwy tebygol o feddwl bod angen addasu pob agwedd ar y prosiect cyn ei estyn, yn hytrach na'u bod yn barod i'w hestyn fel yr oeddent.

[20] Roedd prosiectau cyflenwi ESF-LSB yng Ngogledd Cymru rywfaint yn fwy tebygol o gyfeirio at ddigwyddiadau dysgu rhanbarthol na'r rhai y tu allan i Ogledd Cymru, er nad oedd y gwahaniaeth yn arwyddocaol (81% o'i gymharu â 73% yn eu tro). Roedd y sylfaen ar gyfer y rhai oddi mewn i Ogledd Cymru yn isel iawn (15 yn unig).

**Ffigur 4.29: Agweddau ar brosiectau sy'n addas i'w hestyn yn ehangach**




*Sylfaen: Yr holl brosiectau ESF-LSB: 2015 (82)*

## Y berthynas â Llywodraeth Cymru

4.65 Dengys Ffigurau 4.30, 4.31 a 4.32 y canfyddiadau o ran y rôl mae Llywodraeth Cymru'n ei chwarae wrth gefnogi prosiectau/partneriaethau. Roedd dros ddau bumed o'r rhai (44%) oedd yn ymwneud â phrosiectau cyflenwi ESF-LSB yn cytuno'n bendant bod 'Gan y prosiect neu'r bartneriaeth berthynas dda gyda Llywodraeth Cymru' (gwelir hyn yn Ffigur 4.30), o'i gymharu â thraean (34%) o'r cyfranogwyr oedd yn ymwneud â phartneriaethau eraill.


4.66 Ymhlith y gwahaniaethau eraill amlwg rhwng prosiectau cyflenwi ESF-LSB a phartneriaethau eraill (a rhwng 2015 a 2013) yng nghyswllt rôl Llywodraeth Cymru mae'r canlynol:

- Adroddodd cyfran sylweddol uwch o'r cyfranogwyr oedd yn ymwneud â phrosiectau cyflenwi ESF-LSB eu bod yn cytuno'n bendant bod '**Llywodraeth Cymru'n rheoli perfformiad y prosiect/bartneriaeth yn fanwl**' o gymharu â'r rhai oedd yn ymwneud â phartneriaethau eraill (41% o'i gymharu â 19% yn eu tro, fel y gwelir yn Ffigur 4.30). Nid yw'r gwahaniaethau hyn yn achosi syndod o reidrwydd, o ystyried trefniadau rheoli rhaglen penodol y prosiectau cyflenwi.
- Roedd cyfranogwyr oedd yn ymwneud â phartneriaethau eraill yn fwy tebygol na'r rhai oedd yn ymwneud â chyflenwi prosiectau ESF-LSB o anghytuno'n bendant


â'r gosodiad bod '**Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r prosiect/bartneriaeth i'w helpu i gael hyd i gyllid**' (31% o'i gymharu â 16% yn eu tro).  Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod yr arian hwn i bob pwrpas yn gronfa grant yn achos prosiectau cyflenwi ESF-LSB.

- Roedd ychydig o dan dri o bob 10 (29%) cyfranogwr a fu'n ymwneud â chyflenwi'r prosiect ESF-LSB yn cytuno'n bendant bod '**Llywodraeth Cymru wedi helpu'r prosiect/bartneriaeth i reoli eu perfformiad eu hunain**'; cyfran sylweddol uwch na'r rhai a fu'n ymwneud â phartneriaethau nad oeddent yn rhan o'r ESF (11%).
- Roedd ychydig dros draean (36%) o'r cyfranogwyr oedd yn ymwneud â chyflenwi partneriaethau eraill yn cytuno'n bendant bod '**Gwahanol bolisïau gan Lywodraeth Cymru yn tynnu'r prosiect/bartneriaeth i wahanol gyfeiriadau',** o gymharu ag un o bob wyth (12%) yn unig o'r rhai oedd yn ymwneud â chyflenwi prosiectau ESF-LSB. Roedd cyfran sylweddol uwch o'r cyfranogwyr o brosiectau cyflenwi ESF-LSB na'r rhai o bartneriaethau eraill yn anghytuno'n bendant â'r gosodiad hwn. (28% o'i gymharu ag 14% yn eu tro).


**Ffigur 4.30: Rôl Llywodraeth Cymru**



## Ffigur 4.31: Rôl Llywodraeth Cymru




## Ffigur 4.32: Rôl Llywodraeth Cymru



**Crynodeb**

4.67 Mae canlyniadau'r arolwg wedi ein galluogi i archwilio sut mae'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB wedi newid dros gyfnod o ddwy flynedd, a sut maen nhw'n cymharu â 'phartneriaethau eraill'. Fel yn yr arolwg gwaelodlin, datgelwyd nifer o wahaniaethau wrth gymharu **blaenoriaethau allweddol** prosiectau cyflenwi ESF-LSB â'r partneriaethau eraill. Yn 2015, roedd y cyfrannau a nododd bob un o'r gwahanol nodau fel 'ffocws pwysig' (er enghraifft 'cyflenwi gwasanaethau mwy cydlynus' a 'darparu gwell gwasanaethau') yn debyg yn achos prosiectau cyflenwi ESF-LSB a phartneriaethau eraill. Roedd nifer o nodau yr oedd prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn sylweddol fwy tebygol na'r partneriaethau eraill i ymateb drwy nodi 'nad oeddent yn ffocws o gwbl'. Fel oedd yn wir yn yr arolwg gwaelodlin, cymharol ychydig o'r prosiectau cyflenwi oedd yn nodi mwy o ymgysylltiad gan ddinasyddion, cynyddu rôl y sector gwirfoddol/trydydd sector wrth gyflenwi gwasanaethau neu gynyddu rôl y sector gwirfoddol/trydydd sector wrth gynllunio a dylunio, er bod y rheiny'n nodau allweddol i'r prosiect ESF yn ei grynswth.

4.68 At ei gilydd, barnwyd bod **rheolwyr prosiect** yn cyflawni eu rôl yn effeithiol, yn arbennig o ran sicrhau bod partneriaid yn parhau'n ymroddedig i'r prosiect ac annog y prosiect i ystyried syniadau newydd.

4.69 Teimlai'r cyfranogwyr eu bod wedi dysgu nifer o wersi ynghylch cyflawni canlyniadau trwy gydweithio. Y gwersi mwyaf cyffredin a ddysgwyd oedd 'pwysigrwydd nodau a rennir/cynllun prosiect clir' a 'phwysigrwydd cyfathrebu rheolaidd/rhannu arfer da'.

4.70 O ran **ymddygiad**, adroddwyd bod mwy o ymddiriedaeth rhwng aelodau prosiectau cyflenwi ESF-LSB nag mewn partneriaethau eraill. Mae tystiolaeth o fodel mwy cydweithredol yn y prosiectau cyflenwi ESF-LSB nag yn y partneriaethau eraill, gan eu bod yn dangos lefelau sylweddol uwch o gytundeb bod gan y prosiect hanes da o ran 'cael hyd i atebion i'r problemau mae'r ardal yn eu hwynebu', 'rhannu adnoddau' neu 'grynhoi cyllid'.

4.71 Ymddangosai lefel yr **integreiddio** ymhlith prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn uwch nag ymhlith partneriaethau eraill, gyda phrosiectau cyflenwi ESF-LSB yn sgorio'n uwch yn achos nifer o'r gosodiadau integreiddio. Gwelwyd y lefel uchaf o gytundeb ynghylch rhannu gwybodaeth, ond cam cyntaf yn unig at integreiddio yw hwn, ac roedd y graddau'n is yn achos yr agweddau eraill ar integreiddio, megis datblygu prosesau newydd i gyfuno gwasanaethau neu weithrediadau neu gyflwyno mecanweithiau rhannu atebolrwydd.

4.72 Gwelid awdurdodau lleol a chyrff eraill sector cyhoeddus fel **aelodau allweddol o'r prosiect**; credid hefyd yn gyffredinol fod ganddynt amser i ymgysylltu'n llawn â'r prosiect. Roedd cyrff trydydd sector, cynrychiolwyr cymunedol a chyrff sector preifat yn llai tebygol o fod wedi teimlo bod ganddynt y gallu i ymgysylltu'n llawn neu i gael eu hystyried yn aelodau allweddol o'r prosiect. Mae hynny er gwaethaf y ffaith mai un o nodau allweddol y cyllid ESF oedd cynyddu'r cydweithio gyda'r trydydd sector.

4.73 Y prif rwystrau i **ddysgu a newid** yn y prosiectau oedd y gwahanol ddiwylliannau sefydliadol (61%), gyda diffyg amser (48%) yn dilyn, a pheidio â gwybod ble i gael hyd i'r wybodaeth (26%). Y ffactorau oedd yn cyfrannu fwyaf at ddysgu a newid oedd rhannu enghreifftiau o arfer da (74%), arweinyddiaeth reolaethol (63%), data seiliedig ar dystiolaeth (61%) a gwerthusiad (61%).

4.74 Dim ond traean o'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB oedd yn cytuno'n bendant bod y tîm cenedlaethol ESF-LSB yn llwyddiannus wrth ledaenu arfer da (34%). Mae'r ffaith bod y prosiectau bellach wedi dod i ben yn amlygu cyfle a gollwyd gan Lywodraeth Cymru (a'r prosiectau eu hunain) i ledaenu'r dysgu. Ar ben hynny, ymateb y prosiectau cyflenwi ESF-LSB oedd nad oedd mwyafrif y sefydliadau yr holwyd yn eu cylch (h.y. Llywodraeth Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Lleol, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sector gwirfoddol/trydydd sector neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) yn weithredol wrth alluogi dysgu a newid. Mae hyn yn destun pryder, gan y dylai'r sefydliadau hyn hefyd fod yn gyfrifol am rannu'r dysgu yn sgîl prosiectau cyflenwi ESF-LSB.

4.75 O ran cynyddu capasiti i gydweithio a chyflawni **canlyniadau**, sgoriodd prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn fwy cadarnhaol na'r partneriaethau eraill o safbwynt 'llwyddiant i rannu gwybodaeth', 'cyfuno sgiliau ac adnoddau gwahanol sefydliadau', 'ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid', 'cael hyd i atebion newydd i'r problemau y mae'r ardal yn eu hwynebu a chyflenwi gwasanaethau mwy cydlynus. Gwelid prosiectau cyflenwi ESF-LSB fel rhai oedd yn fwy tebygol na phartneriaethau eraill o fod yn llwyddiannus wrth gyflawni rhai neu'r cyfan o'r elfennau a nodwyd fel prif flaenoriaethau i'w prosiectau. Gwelid prosiectau cyflawni ESF-LSB fel rhai mwy llwyddiannus o ran eu cyflawniad mewn meysydd yn ymwneud ag 'integreiddio' a 'gwelliannau o safbwynt y gallu i gydweithio/newid sefydliadol', yn hytrach na 'mwy o welliant yn y sector gwirfoddol/trydydd sector.

4.76 Y prosiectau cyflenwi ESF-LSB oedd y rhai mwyaf tebygol o fod wedi llwyddo ym meysydd cydweithio ac integreiddio. Fodd bynnag, prosiectau cyflenwi ESF-LSB oedd â'r perfformiad gwaethaf o ran cynyddu gwelliant yn y sector gwirfoddol/trydydd sector, felly ni welwyd gwell integreiddio i'r trydydd sector yn achos mwyafrif y prosiectau

cyflenwi. Mae modelau darparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol a gwell defnydd o adnoddau yn amlwg ar gyfer rhai o’r prosiectau cyflenwi ESF-LSB, gan i ryw hanner lwyddo i gyflawni o leiaf un elfen o’r gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus.

4.77 Yn gyffredinol, ymddangosai fod prosiectau cyflenwi ESF-LSB heb dderbyn y **gefnogaeth** roedden nhw’n ei dymuno. Roedd ychydig dros hanner y cyfranogwyr o brosiectau cyflenwi ESF-LSB yn cytuno’n bendant bod eu Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi cefnogi’r prosiect. Gan fod y prosiectau’n canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth allweddol y BGLl yn unig, roeddem wedi disgwyl y buasai lefel y cytundeb ynghylch y gefnogaeth a dderbyniwyd yn uwch.

4.78 O ran **cynaliadwyedd**, adroddodd bron saith o bob 10 (68%) o gyfranogwyr prosiectau cyflenwi ESF-LSB fod o leiaf rai elfennau o’r prosiect wedi parhau; ymatebodd 16% fod y prosiect wedi parhau fel yr oedd, ac adroddodd 52% fod elfennau o’r prosiect wedi parhau. Y cyfranogwyr oedd y rhai mwyaf tebygol o gytuno bod cyllid wedi galluogi partneriaid i gyflawni canlyniadau’n gynt nag a fuasai’n bosibl heb gyllid, i gyflawni canlyniadau na fuasent yn bosibl o gwbl heb gyllid (ychwanegedd), ac i wella’r ymddiriedaeth a’r ddealltwriaeth rhwng partneriaid wrth iddynt ddarparu ochr yn ochr (cytunodd tua hanner yr ymatebwyr yn bendant â phob un o’r cyflawniadau hyn. Mae’r ffigurau hyn yn adlewyrchu barn 82 cyfranogwr mewn prosiectau cyflenwi ESF-LSB oedd yn cwmpasu 32 o brosiectau gwahanol.

# 5. Casgliadau ac argymhellion

5.1 Mae'r bennod hon yn cyfuno prif ganfyddiadau a chasgliadau'r gwerthusiad crynodol o'r Prosiect ESF-LSB. Mae hefyd yn amlygu ein hargymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'u partneriaid er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus trwy gydweithio yn y dyfodol.

5.2 Nod y gwerthusiad crynodol oedd asesu pedwar prif fater:

- a yw'r Prosiect ESF-LSB wedi arwain at well gwasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau i ddinasyddion, a sut mae hynny wedi digwydd;
- sut mae'r ffyrdd o roi'r Prosiect ar waith a'i reoli wedi cyfrannu at y canlyniadau hyn;
- a yw'r Prosiect yn cyfathrebu ac yn lledaenu'r dysgu o'r prosiectau cyflenwi, a sut mae hynny'n digwydd, yn genedlaethol ac yn lleol; a
- sut mae'r Prosiect wedi cyfrannu at wella integreiddio'r trydydd sector a BGLlau; a yw hynny wedi arwain at well gwasanaethau a chanlyniadau, ac a yw'r cynnydd hwnnw'n gynaliadwy.

5.3 Rydym wedi strwythuro ein casgliadau a'n hargymhellion ar sail y pedwar mater yma. Mae'r argymhellion ar gyfer rhaglenni penodol a phrosiectau sy'n cael eu hariannu gan neu trwy Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, ac er mwyn gwella effeithiolrwydd gweithio ar y cyd yn fwy cyffredinol. Mae'r rhain yn adeiladu ar yr argymhellion a wnaed gennym yn yr Adroddiad Ffurfiannol Terfynol, y mae Llywodraeth Cymru yn dechrau rhoi sylw iddynt, neu y mae wedi gwneud cynnydd da tuag atynt mewn rhai achosion.

**Gwell gwasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau i ddinasyddion**

5.4 Daethom i'r casgliad yn yr Adroddiad Ffurfiannol Terfynol mai lleiafrif bach o brosiectau yn unig sydd wedi dangos tystiolaeth ddiriaethol o well gwasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau i ddinasyddion. Mae tystiolaeth bellach wedi dod i'r amlwg ers i'r prosiectau ddod i ben, er bod prosesau wedi cael eu rhoi ar waith a bod allbynnau wedi'u cyflenwi, ei bod hi'n dal yn gyffredinol anodd asesu'r canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.

5.5 Dangosodd ein dadansoddiad ym Mhennod 2 fod prosiectau wedi llwyddo i gyrraedd eu targedau WEFO ar draws pob un o'r pedwar dangosydd, a'u bod yn arbennig wedi cynnal nifer llawer mwy o fentrau lledaenu na'r disgwyl. Serch hynny, y mae anawsterau diffinio, gan fod cyflwyniadau i'r BGLl ac i bartneriaid yn cael eu cyfrif yn

fentrau, ond y disgwyl yn y cynnig oedd bod arfer gorau'n cael ei rannu ar sail thematig a daearyddol. Gallesid gwneud mwy yma i rannu arfer da ar draws prosiectau.

5.6 Mae tystiolaeth o Arolwg Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfan 2015 yn awgrymu bod ychydig dros hanner yr ymatebwyr (54%) yn cytuno'n bendant bod y cyllid wedi galluogi partneriaid i 'Gynhyrchu canlyniadau'n gynt nag a fuasai'n bosibl fel arall'. Teimlai cyfran debyg (52%) fod y cyllid wedi galluogi partneriaid i 'Gynhyrchu canlyniadau na fuasent yn bosibl hebddo'.

5.7 Roedd ymatebwyr o'r prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn fwy tebygol o gytuno eu bod wedi cyflawni eu nodau na'u cymheiriaid o bartneriaethau eraill. Fodd bynnag, roedd llawer o'r nodau hyn yn brosesau (rhannu gwybodaeth, ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ac ati), yn hytrach na chanlyniadau. Dim ond traean (34%) o'r ymatebwyr oedd yn cytuno'n bendant bod eu prosiect wedi 'cyflenwi gwasanaethau gwell' (o gymharu â 30% mewn partneriaethau eraill) ac roedd hynny wedi gostwng o 43% yn nhon gyntaf yr arolwg.

5.8 Gan na ellir dibynnu ar ddangosyddion WEFO i asesu perfformiad prosiect ac mae gan ymatebwyr yr arolwg fuddiant breiniol yn y prosiect, mae hynny'n golygu bod mwy o ddibyniaeth ar fonitro a gwerthuso lleol gan brosiectau i fesur canlyniadau.

5.9 Ceisiodd Llywodraeth Cymru sicrhau bod prosiectau'n datblygu fframweithiau damcaniaethol lleol, er mwyn iddynt ddeall sut mae gweithgareddau'n arwain at allbynnau ac at ganlyniadau, a chyflwynodd y tîm gwerthuso eu dull eu hunain o ymdrin â phrosiectau yn 2013, ond roedd y defnydd o'r cyfryw fethodolegau yn anghyson. Dylasai prosiectau gael eu hannog i feddwl am brosesau a'r fath wrth gyflwyno'r cais, ac yna sicrhau cefnogaeth i'w defnyddio ar hyd y prosiect. Fodd bynnag, mae hynny'n galw am gapasiti digonol i ddadansoddi oddi mewn i brosiectau cyflenwi a/neu Fyrddau Gwasanaethau Lleol, a mynegodd y ddau gylch o gyfweliadau rhanddeiliaid bryderon ynghylch y capasiti hwnnw, a chodwyd hynny hefyd gan y prosiectau eu hunain yn y digwyddiadau dysgu cenedlaethol a drefnwyd gan y tîm gwerthuso.

5.10 Datgelodd ein meta-ddadansoddiad fod nifer fawr o brosiectau wedi cael trafferth dylunio a phennu dulliau o fesur y canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a/neu'r boblogaeth ehangach. Hyd yn oed mewn prosiectau lle roedd yn ymarferol bosibl casglu adborth defnyddwyr ar effaith newidiadau, ni fuddsoddwyd digon o amser yn ystyried nac yn casglu data. Roedd y diffyg dangosyddion canlyniadau oedd yn cwmpasu holl rychwant y Prosiect ESF-LSB yn wendid pwysig.

5.11 Rydym eisoes wedi cyfeirio at anhawster pennu mesurau ar gyfer canlyniadau *proses* (e.e. sut mae mesur gwell cydlyniad, arweinyddiaeth, newid diwylliannol, mwy o gyfnewid gwybodaeth, ac ati?) Er bod y rhain yn anodd eu mesur yn ansoddol, dylesid gwneud mwy o ymdrech i bennu'r dangosyddion procsi gorau oedd ar gael a chasglu tystiolaeth ansoddol o'r mannau lle roedd y prosiect yn ychwanegu gwerth o safbwynt mesurau proses.

5.12 Mae wedi bod yn anodd, felly, i werthuswyr ar lefel y prosiect a lefel strategol asesu 'llwyddiant' cymharol prosiectau lle na phennwyd canlyniadau realistig a mesurau cysylltiedig. Heb ystyried y ffaith nad oedd gan y gwerthuswyr lawer i weithio ag ef mewn rhai achosion, roedd ansawdd yr adroddiadau gwerthuso'n amrywio. Cynhaliwyd rhai gwerthusiadau'n fewnol ac eraill gan ymgynghorwyr allanol. Nid oedd rhai gwerthusiadau wedi'u seilio ar fframwaith damcaniaethol lleol, ac felly nid oeddent o reidrwydd yn cysylltu prosesau â chanlyniadau. Roedd llawer o adroddiadau yn canolbwyntio ar allbynnau yn hytrach na chanlyniadau, ac ychydig yn unig fu'n casglu ac yn dadansoddi adborth gan ddefnyddwyr.

5.13 Yng nghyfnod ffurfiannol y gwerthusiad, amlygwyd bod dau brif ffactor sy'n golygu ei bod hi'n anodd sylwi ar newid yn y canlyniadau i ddinasyddion: (a) amseriad – mae gwelliannau o ran rhai canlyniadau, megis statws iechyd, yn debygol o gymryd blynyddoedd i'w cyflawni; a (b) priodoli – mae'n anodd ynysu effaith y prosiect cyflenwi oddi wrth ffactorau eraill. Er mai yn y dyfodol yn unig y daw effaith rhai prosiectau i'r amlwg, yn achos mwyafrif y prosiectau, bu digon o amser i asesu'r effaith, ond nid oes tystiolaeth ddigonol ar gael i wybod a fu llwyddiant o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth.

5.14 Mae ein dadansoddiad yn adleisio casgliadau'r gwerthusiad ffurfiannol, sef mai canlyniadau proses yn bennaf (yn hytrach na chanlyniadau gwasanaeth/dinesydd) a gyflenwyd. Roedd nifer o'r prosiectau'n 'swyddogaethau swyddfa gefn' (e.e. prosiectau cysylltiedig â TGCh) yn hytrach na rhai oedd yn troi o gwmpas y dinesydd, fel gofal cymdeithasol, ac felly roedd canfod gwelliant yn y canlyniadau i ddefnyddwyr yn anodd. Yn achos y gwasanaethau hynny oedd yn canolbwyntio ar y dinesydd, rydym wedi dangos ym Mhennod 3 fod rhai prosiectau fel Cysylltu Teuluoedd Pen-y-bont wedi cyflenwi gwell canlyniadau i ddinasyddion. Ond nid oes fawr ddim tystiolaeth o'r mwyafrif o brosiectau bod gwell prosesau wedi arwain at well canlyniadau i'r cyhoedd.

5.15 Yn hytrach nag awgrymu y gallai gymryd amser i'r canlyniadau ddod i'r amlwg, neu y bydd gwelliannau yn y prosesau yn arwain at welliant yn y gwasanaeth yn y pen draw, mae ein meta-ddadansoddiad yn datgelu bod rhwystrau eraill yn llesteirio'r canlyniadau i ddinasyddion. Ar ben hynny, cododd ein cyfweliadau gyda rhanddeiliaid

cenedlaethol bryderon ynghylch a oedd gan y prosiectau cyflenwi'r gallu i sbarduno newid systemau. Roedd y cyfweliadau hynny hefyd yn cwestiynu a oedd yr arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaethol lefel uwch angenrheidiol yn ei lle i sicrhau proffil a statws digon uchel i'r prosiectau cyflenwi a'u galw i gyfrif o safbwynt eu canlyniadau. Mae ein tystiolaeth yn cefnogi'r farn hon trwy awgrymu bod amrywiol lefelau o arweinyddiaeth reolaethol gan y BGLlau, ac nad oedd fawr ddim arweinyddiaeth wleidyddol.

5.16 Mae nifer o argymhellion y gellir eu hawgrymu o'r casgliadau hyn – o safbwynt Llywodraeth Cymru wrth reoli Prosiect o'r fath yn y dyfodol, ac o safbwynt y rhai sy'n ymwneud â chyflenwi prosiectau.

5.17 **Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:**

- Sicrhau bod modd cyflwyno her a thrylwyredd i brosesau asesu ceisiadau yn gynnar iawn, e.e. er mwyn pwyso a mesur cynigion yn erbyn y dystiolaeth o ran beth sy'n gweithio.
- Rhoi mwy o bwyslais ar werthuso prosiectau yn y broses o gyflwyno cais ac ystyried rhoi gofynion ariannu yn eu lle, e.e. cysylltu cyllid â charreg filltir dylunio fframwaith gwerthuso cadarn.
- Cefnogi prosiectau i ddiffinio nodau, pennu dangosyddion gwaelodlin a chanlyniadau ar ddechrau'r broses.
- Amlinellu meini prawf clir yn y broses ymgeisio, fel bod angen i brosiectau ddangos sut gallent arwain at newid yn y system.
- Rhoi mecanweithiau ar waith sy'n golygu bod gofyn i brosiectau rannu canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru a phrosiectau eraill yn barhaus.
- Cydnabod nad yw rhai prosiectau wedi'u sefydlu i gael effaith uniongyrchol ar ddefnyddwyr gwasanaeth ac y gallai eraill fethu.
- Ystyried dylunio a datblygu rhaglen strwythuredig i adeiladu capasiti gwerthuso a dadansoddi pob Bwrdd Gwasanaethau Lleol/Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn gwella'u ffocws, ymhlith pethau eraill, ar bennu ac arddangos canlyniadau, defnyddio damcaniaethau newid a gwneud defnydd o dystiolaeth ansoddol. Rydym yn nodi y bydd gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag Asesu Llesiant Lleol a Chynlluniau Llesiant Lleol, yn mynd beth o'r ffordd at feithrin capasiti dadansoddi a chyflwyno trylwyredd dadansoddiadol wrth ddylunio a chynllunio gwasanaethau.

**Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid:**

- Rhoi mwy o bwyslais ar ddylunio prosiectau y gellir eu gwerthuso, gan sicrhau bod data monitro ar gael a darparu adnoddau digonol ar gyfer cynnal gwerthusiad. Rhoi mwy o bwyslais ar bennu canlyniadau mesuradwy yng nghyfnod y cynnig, a chasglu tystiolaeth ansoddol lle ceir effeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Sicrhau bod mecanweithiau atebolrwydd clir ar gyfer perfformiad y prosiect – naill ai trwy'r broses graffu neu yn y trefniadau adrodd i'r BGLl.

**Prosesau gweithredu a rheoli**

5.18 Yr ail fater allweddol i'r gwerthusiad oedd asesu a oedd y ffyrdd o weithredu a rheoli'r Prosiect wedi arwain at well gwasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau i ddinasyddion, a sut roedd hynny wedi digwydd.

5.19 Mae ymchwil flaenorol a gynhaliwyd yng Nghymru (Martin et al. 2013) wedi dangos bod nifer o ffactorau sy'n helpu i hwyluso cydweithio effeithiol, gan gynnwys ariannu, arweinyddiaeth, trefniadau llywodraethu clir, atebolrwydd a rheoli perfformiad cadarn, gweledigaeth a chapasiti i gynnwys dinasyddion. Darparodd y Prosiect ESF-LSB gyllid a oedd yn galluogi'r partneriaethau i gyflogi rheolwyr prosiect er mwyn ceisio sicrhau bod y trefniadau cydweithio'n llwyddiannus.

5.20 Defnyddiodd y gwerthusiad ystod eang o ddulliau, gan gynnwys arolygon, astudiaethau achos, cyfweliadau a meta-ddadansoddiad i archwilio arwyddocâd y ffactorau hyn (ac eraill) o ran galluogi cydweithio ac yn y pen draw gyflenwi canlyniadau.

5.21 Dangosodd y dystiolaeth o arolygon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfan fod yr ymatebwyr o brosiectau cyflenwi ESF-LSB yn fwy cadarnhaol na'r rhai o bartneriaethau eraill ar draws amrywiaeth o brosesau cydweithio, megis 'cyfuno sgiliau ac adnoddau gwahanol sefydliadau', 'cael hyd i atebion newydd i'r problemau mae'r ardal yn eu hwynebu' a 'chyflenwi gwasanaethau mwy cydlynus'.

5.22 Dangosodd arolwg 2015 fod prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn cynhyrchu lefelau sylweddol uwch o gytundeb na phartneriaethau eraill yn achos cwestiynau oedd yn mesur lefelau cydweithio ariannol, megis rhannu adnoddau a chrynhoi cyllid mewn modd sy'n argoeli'n dda ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol os bydd cyllidebau'n parhau i grebachu. At ei gilydd, canfyddiad yr ymatebwyr oedd bod prosiectau cyflenwi ESF-LSB yn fwy cydlynus a chydweithredol na phartneriaethau eraill.

5.23 Er y cyfeiriwyd at arweinyddiaeth reolaethol yn yr arolwg fel ffactor pwysig o safbwynt galluogi dysgu a newid, datgelodd ein hastudiaethau achos a'n meta-ddadansoddiad bryderon ynghylch y diffyg arweinyddiaeth strategol mewn prosiectau. I raddau helaeth nid oedd gwleidyddion yn ymwneud rhyw lawer â'r prosiectau a welid fel rhai gweithrediadol, ac yn aml roedd yr adroddiadau i Fyrddau Gwasanaethau Lleol 'yn eithriad'. Ni cafwyd hyd i ond ychydig enghreifftiau o Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn perchnogi'r prosiect mewn modd strategol ac yn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd pan nad oedd y cynnydd yn unol â'r disgwyl, pan fyddai partneriaid yn colli diddordeb, neu os oedd y canlyniadau'n annhebygol o gael eu cyflawni. Gwelsom amrywiaeth mawr hefyd o ran sut roedd BGLlau yn bwriadu cynnal y prosiect ar ôl i'r adnodd ESF ddod i ben.

5.24 Mae'r holl dystiolaeth ynghylch rôl rheolwyr prosiect yn gadarnhaol. Dangosodd yr arolwg fod rheolwyr prosiect yn arbennig 'yn cynnal ymrwymiad partneriaid i'r prosiect' ac yn 'annog y prosiect i ystyried syniadau newydd' (roedd mwy na chwech o bob 10 yn cytuno'n bendant). Roeddent yn defnyddio sgiliau cyffredinol ar gyfer meithrin perthynas (e.e. sgiliau cyfathrebu a chyd-drafod), yn ogystal â sgiliau rheoli prosiect. Y mae pryder, fodd bynnag, ynghylch a oedd gan reolwyr prosiect, ar eu pennau eu hunain, ddylanwad digonol i gyflawni pethau. Gellir cysylltu hyn â'r diffyg arweinyddiaeth strategol y cyfeiriwyd ato uchod.

5.25 O ystyried yr adnoddau a fuddsoddwyd yn rheolwyr y prosiectau, ymddengys na wnaed ymdrech ddigonol i ddatblygu'r unigolion hyn hyd eithaf eu potensial. Dim ond dau bumed o ymatebwyr yr arolwg oedd yn cytuno bod rheolwr y prosiect wedi derbyn hyfforddiant priodol, a datgelodd ein hastudiaethau achos nad yw rheolwyr prosiectau yn arwain prosiectau rheoli cydweithio tebyg, ond yn hytrach eu bod wedi dychwelyd i'w swyddi blaenorol. Mae'n werth nodi bod y prosiectau rhanbarthol, a dderbyniodd gyllid gan WLGA yn ogystal ag ESF, yn gallu cael mynediad i ddigwyddiadau hyfforddi WLGA a fwriadwyd yn benodol i wella sgiliau rheolwyr prosiectau ym maes cydweithio. Gwaetha'r modd, nid ydym yn gwybod i ba raddau y mae'r sgiliau hyn wedi cael eu cadw a'u defnyddio gan awdurdodau lleol a BGLlau wedi i'r prosiectau cyflenwi a ariannwyd gan ESF ddod i ben.

5.26 Roedd gan dîm cenedlaethol ESF-LSB botensial i chwarae rôl bwysig yn y gwaith o hwyluso prosiectau er mwyn cyflenwi gwell gwasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau i ddinasyddion. Dangosodd yr arolwg ganfyddiad mai'r tîm hwn oedd y cryfaf o ran 'monitro perfformiad y prosiect' a'r gwannaf o ran 'lledaenu arfer da', sy'n fater yr edrychwn arno ymhellach isod.

5.27 Er bod rhaid i'r prosiectau gynhyrchu adroddiadau blynyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid oedd bob amser yn eglur sut roedd perfformiad y prosiectau'n cael ei alw i gyfrif. Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai prosiectau cyflenwi yn destun craffu lleol ac yn cael eu galw i gyfrif gan y BGLl. Nid oedd rôl craffu wedi'i gwreiddio ym mecanweithiau atebolrwydd prosiectau cyflenwi, ac roedd y craffu cyffredinol a ddarparwyd gan y BGLl yn ddarniog.

5.28 **Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:**

- Mynnu bod gweithdrefnau llywodraethu a chraffu ar gyfer prosiectau yn gadarn o ran darparu arweinyddiaeth ac atebolrwydd, 'ychwanegu gwerth' a monitro'r trefniadau hyn yn erbyn y meini prawf dan sylw.
- Sicrhau bod 'perchnogaeth' ar bob prosiect a/neu themâu cyffredinol gan uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru
- Gofyn bod y corff arweiniol yn cymryd cyfrifoldeb am gynhyrchu a gweithredu 'cynllun etifeddiaeth' i gynnal y cynnydd o ran canlyniadau a gwreiddio arfer da trwy ffyrdd newydd o weithio wedi i'r cyllid ddod i ben.

5.29 **Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid**:

- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu a chraffu clir yn eu lle, fel bod modd datrys anawsterau gweithrediadol yn gyflym.
- Bod yn eglur ynghylch pa sefydliadau ac unigolion sydd i fod i arwain, a beth mae hynny'n ei olygu.
- Sicrhau bod uwch-swyddog cyfrifol sydd â 'pherchnogaeth' ffurfiol ar y prosiect. Ei rôl fyddai gyrru'r prosiect ar lefel strategol a chefnogi rheolwr y prosiect i sicrhau bod prosiect yn cyflawni ei amcanion.
- Cynhyrchu 'cynllun etifeddiaeth' ar gyfer y prosiect, fel bod sylw'n cael ei roi i sut gallai peth (neu'r cyfan) o'r gwaith barhau yn y dyfodol.

**Dysgu o'r prosiectau cyflenwi**

5.30 Roedd disgwyl i'r Prosiect ESF-LSB gynhyrchu dysgu a allai helpu i wella'r broses o gyflenwi gwasanaethau prif ffrwd trwy gydweithio ac yn ei dro gyfrannu at well canlyniadau i ddinasyddion.

5.31 Dangosodd canlyniadau arolwg 2015 fod prosiectau cyflenwi'n gweld awdurdodau lleol fel y cyrff oedd yn cael yr effaith fwyaf o ran galluogi dysgu a newid wrth gyflenwi'r prosiect. Roedd bron dau draean o'r ymatebwyr yn meddwl bod y rhain wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i alluogi dysgu a newid, o'i gymharu â rhyw draean oedd yn

teimlo'r un fath ynghylch Llywodraeth Cymru, Byrddau Gwasanaethau Lleol neu Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r trydydd sector.

5.32 Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'n fras ganfyddiadau arolwg 2013, fel y mae'r ddau ffactor yr adroddwyd eu bod yn dylanwadu fwyaf ar y dysgu: 'enghreifftiau o arfer da' ac 'arweinyddiaeth reolaethol'. Yn arolwg 2015, cyfeiriodd yr ymatebwyr at 'ddata seiliedig ar dystiolaeth' a 'gwerthuso' fel y ffactorau nesaf pwysicaf a gyfrannodd at y dysgu – cynnydd sylweddol ers 2013. Gallai hyn ddeillio o'r ffaith bod bron yr holl brosiectau wedi profi rhyw fath o werthusiad ar derfyn y prosiect, naill ai yn fewnol, neu wedi'i gaffael trwy gorff ymchwil allanol. Gallai hefyd adlewyrchu'r adborth cadarnhaol am y digwyddiadau dysgu a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad cenedlaethol.

5.33 Lle dywedodd cyfranogwyr fod rhwydweithio â phrosiectau cyflenwi eraill wedi cyfrannu at ddysgu a newid, roedd hynny wedi digwydd amlaf trwy gynhyrchu 'mwy o ffocws/darged i'r gweithgaredd', 'amcanion/canlyniadau cliriach', 'perchnogaeth/meddiant partneriaid' a 'chyflawni canlyniadau' – y cyfeiriwyd at bob un ohonynt gan fwy na hanner yr ymatebwyr yn 2015. Pan holwyd a oeddent wedi dysgu am gyflawni canlyniadau trwy gydweithio, dywedodd dros 80% eu bod wedi dysgu rhywbeth, a'r gwersi yr adroddwyd amdanynt amlaf oedd 'pwysigrwydd nodau a rennir/cynllun prosiect clir' (37%), bod 'cydweithio ar waith heriol/caled yn galw am amser/ymdrech i'w ddatblygu' (24%) a 'phwysigrwydd cyfathrebu rheolaidd/rhannu arfer da' (21%).

5.34 Dangosodd yr arolwg y gallai'r dysgu o brofiadau prosiectau cyflenwi o gydweithio fod yn drosglwyddadwy i ystod o gyd-destunau a lleoliadau sefydliadol. Roedd dros ddau draean o'r prosiectau'n meddwl y gallai'r dysgu o'u prosiect fod yn ddefnyddiol iawn i Lywodraeth Cymru – o ran pennu cyfeiriad a llunio polisi ar weithio ar y cyd o fewn y sector – a hefyd i bartneriaethau lleol eraill yn ardal neu ranbarth yr un awdurdod lleol, yn ogystal ag yn fwy eang.

5.35 Fel yn 2013, y prif rwystr i ddysgu a newid yr adroddwyd amdano gan y prosiectau cyflenwi oedd 'diwylliannau sefydliadol gwahanol' (61% o'r ymatebwyr), gyda diffyg amser yn dilyn (48%). Yn y cyd-destun hwn, mae'n ddiddorol mai 'digwyddiadau dysgu rhanbarthol' a ddewiswyd fel dull a ffafrir o rannu dysgu yn y dyfodol gan bron 80% o'r ymatebwyr. Hwyluswyd y rhain trwy aelod o dîm cenedlaethol ESF-LSB yng Ngogledd Cymru, er bod cyfyngiadau adnoddau yn eu hatal rhag datblygu mewn modd tebyg yn Ne-ddwyrain a De-orllewin Cymru.

5.36 Roedd dros hanner yr ymatebwyr oedd yn ymwneud â phrosiectau cyflenwi yn credu y byddai newyddlen neu grynodeb e-bost ymhlith y dulliau gorau o rannu gwersi a ddysgwyd o brosiectau cydweithredu yn y dyfodol; roedd hyn yn nifer sylweddol lai na

bron tri chwarter y rhai oedd yn ymwneud â phartneriaethau eraill. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r ddau fath o bartneriaeth yn gadarnhaol ynghylch defnyddio sesiynau mewn cynadleddau oedd yn berthnasol i'w sectorau i ledaenu'r dysgu ynghylch cydweithio. Mae'r ymatebion hyn yn codi cwestiynau ynghylch gwahanol ffyrdd o ddeall 'dysgu' a 'lledaenu'. Er y gall yr olaf fod yn weithgaredd a luniwyd i rannu'r dysgu am brosiect, nid oes gwarant bod y cyfranogwyr yn dysgu o brosiectau eraill mewn modd sy'n eu helpu i ddefnyddio'r wybodaeth hon mewn cyd-destunau eraill.

5.37 O edrych arnynt gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau ynghylch dysgu o arolwg 2015 yn codi'r cwestiwn pwy sydd – neu pwy ddylai fod – yn derbyn cyfrifoldeb ac yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer rhannu dysgu. Mae'r canfyddiadau o'r adroddiad ffurfiannol a'r meta-ddadansoddiad yn awgrymu bod arweinyddiaeth gref, sy'n darparu awdurdod a hygrededd i ymgysylltu â phartneriaid a'u sbarduno, yn hanfodol i hwyluso'r dysgu o fewn a rhwng ardaloedd lleol *a* throsglwyddo gwybodaeth am gydweithio i Lywodraeth Cymru.

5.38 Heb yr arweinyddiaeth benodol hon, mae'r gwerthusiad yn awgrymu y bydd llawer o'r dysgu sy'n digwydd ynghylch cydweithio ar gyfer cyflawni canlyniadau yn bennaf oddi mewn i brosiectau neu bartneriaethau, wrth i gydweithwyr weithio gyda'i gilydd am y tro cyntaf a 'chodi pethau oddi wrth ei gilydd' neu'n digwydd ar hap rhwng prosiectau. Gall y dysgu dealledig, ad hoc hwn ddigwydd yn hwylus ac yn naturiol, ond mae'n fregus gan ei fod yn dibynnu ar unigolion ac yn annhebygol o fod ar gael yn ehangach i brosiectau a gweithwyr proffesiynol eraill, felly mae'n bosibl na fydd yn cael ei gynnal.

5.39 Fel y gwelwyd trwy'r meta-ddadansoddiad, darparwyd cyfleoedd ar gyfer dysgu mwy strwythuredig trwy Fyrddau Gwasanaethau Lleol a/neu brosiectau cyflenwi sy'n cynnal digwyddiadau etifeddiaeth i rannu cynnyrch a chanlyniadau eu prosiectau gyda phartneriaid ac unigolion ar draws y sector cyhoeddus. Er y gallai hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer dysgu lleol neu, mewn rhai achosion, ddysgu rhanbarthol, ni chasglwyd llawer o dystiolaeth ynghylch effaith digwyddiadau o'r fath ar ddysgu'r cyfranogwyr a sut gallent ddefnyddio hynny.

5.40 Er bod y prosiectau cyflenwi, mewn rhai achosion, wedi profi dulliau gweithredu arloesol wrth gyflenwi gwasanaeth penodol, dim ond mewn meysydd lle bu diddordeb polisi brwd (e.e. y Tîm o Gwmpas y Teulu) y cafwyd dysgu systematig, a gafodd effaith. Yn gyffredinol, nid yw'r dysgu o brosiectau wedi cael ei ledaenu'n systematig ar draws Cymru (a'r tu hwnt) gan Lywodraeth Cymru, WLGA a/na'r prosiectau cyflenwi eu hunain. Rydym ni'n credu bod y cyfrifoldeb am ddysgu yn cael ei rannu. Mae angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o bwyslais ar ddysgu a rhannu arfer da yn y

gwasanaethau cyhoeddus, ond mae cyfrifoldeb hefyd ar y rhai sy'n derbyn cyllid i rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu gydag eraill.

5.41 Mae'r dysgu cymharol ddarniog ac ad hoc sydd wedi digwydd hyd yma yn golygu bod cyfleoedd i Lywodraeth Cymru fynd ati'n rhagweithiol i annog BGLlau ac awdurdodau lleol i ddysgu mwy o'r Prosiect ESF-LSB a phrosiectau cysylltiedig. Gallai'r arweinyddiaeth a'r gefnogaeth yma gynorthwyo partneriaethau i ganolbwyntio mwy ar y canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u helpu i ddeall yn well 'beth sy'n llwyddo' o ran y prosesau cydweithredol sy'n debygol o'u cyflawni.

5.42 **Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:**

- Rhoi mwy o bwyslais ar ddylunio rhaglen o ddysgu a lledaenu er mwyn hybu mwy o gyfleoedd i ddysgu o Brosiectau'r UE (a phrosiectau eraill a ariannir). Dylai hyn helpu'r sector cyhoeddus i ganolbwyntio ar gyflenwi canlyniadau cytunedig a rennir ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a dysgu 'beth sy'n llwyddo' wrth eu cyflawni.
- Lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod y dull gweithredu a ddatblygwyd gan brosiect neu grŵp o brosiectau yn effeithiol, mynd ati i ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddylunio polisi yn y dyfodol.
- Datblygu ac ehangu'r gwaith hyd yma i ledaenu'r dysgu am ganlyniadau ac agweddau effeithiol at gydweithio ar themâu polisi penodol.
- Cipio a lledaenu'r dysgu a gynhyrchwyd trwy ddefnyddio cyllid ESF i gyflogi rheolwyr prosiect cydweithredol, gan fod eu sgiliau rheoli prosiectau sy'n rhychwantu sawl sefydliad a sector yn debygol o fod o werth uchel ym maes gwasanaethau cyhoeddus Cymru, lle mae rheoli perthnasoedd yn dod yn fwyfwy pwysig er mwyn symud cydweithio yn ei flaen.

5.43 **Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid:**

- Ymagweddu'n strwythurol at ledaenu canlyniadau a dysgu prosiectau cyflenwi lleol a chytuno ar sut dylid defnyddio hynny i lywio cynlluniau etifeddiaeth a chydweithio yn y dyfodol mewn meysydd gwasanaeth eraill.
- Defnyddio'r adnodd ar-lein presennol (sydd yng ngofal WLGA, Swyddfa Archwilio Cymru ac eraill) i rannu dysgu a throsglwyddo gwybodaeth (gan gynnwys trwy arfer da seiliedig ar dystiolaeth) ynghylch sut gall cydweithio wella'r gwasanaeth a gyflenwir a'r canlyniadau i ddinasyddion.

**Integreiddio'r trydydd sector a BGLlau**

5.44 Un o nodau gwreiddiol y Prosiect ESF-LSB yn genedlaethol oedd gwella’r integreiddio ar y trydydd sector a BGLlau, er mwyn cyfrannu at drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, datgelodd ein dau arolwg mai chwarter yn unig o’r ymatebwyr oedd yn teimlo mai prif ffocws eu prosiectau a ariannwyd gan ESF-LSB oedd cynyddu rôl y trydydd sector wrth gyflenwi gwasanaethau.

5.45 Canfu arolwg 2015 fod llai na hanner y prosiectau cyflenwi (46%) yn cytuno’n bendant bod y berthynas rhwng y sector cyhoeddus a’r sector gwirfoddol/y trydydd sector wedi bod yn dda – yn union yr un ganran ag yn 2013. (Roedd hyn yn cymharu â chynnydd sylweddol o 25% yn 2013 i 42% yn 2015 ar gyfer ‘partneriaethau eraill’.)

5.46 Mae hyn yn awgrymu na fu naill ai’r cyllid ESF-LSB na’r cyllid Creu’r Cysylltiadau’n arbennig o effeithiol o ran gwella perthynas BGLlau â’r trydydd sector trwy gydweithio ar brosiectau penodol. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pa mor ddylanwadol yw cynrychiolwyr trydydd sector ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol, yn enwedig gan fod canfyddiadau arolwg 2015 yn dangos mai 39% yn unig o’r prosiectau a ariannwyd gan ESF-LSB oedd yn cytuno bod y trydydd sector yn aelod allweddol o’u partneriaeth (gostyngiad bychan ers 2013), gyda rhyw hanner yn cytuno bod gan y trydydd sector y gallu i ymgysylltu â’r bartneriaeth yn 2013 a 2015.

5.47 Mae’r meta-ddadansoddiad yn bwrw goleuni ar y pwynt hwn ac yn cadarnhau canfyddiadau’r adroddiad ffurfiannol, oedd yn awgrymu nad oedd y Prosiect ond wedi arwain at well ymwneud ac integreiddio i’r trydydd sector yn y prosiectau cyflenwi a oedd naill ai’n cael eu harwain gan y trydydd sector (megis Broceriaid Trydydd Sector yng Ngorllewin Cymru) a/neu oedd yn dibynnu’n drwm ar y trydydd sector i’w cyflenwi (e.e. Partneriaeth Iach Abertawe ac Ymgynghori ac Ymgysylltu RhCT).

5.48 Yn amlwg, mae llai o botensial i’r trydydd sector ymwneud â phrosiect sy’n llai cysylltiedig â chanlyniadau dinasyddion, ac yn ymwneud yn fwy â gwelliannau swyddfa gefn a newid mewnol, megis Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Cymru a phrosiectau Cydweithio TGCh.

5.49 Mae rhanddeiliaid cenedlaethol yn pryderu bod angen i’r trydydd sector lleol chwarae rhan lawn yn y broses o ddylunio gwasanaethau cydweithredol – yn ogystal â’u cyflenwi – ac yn teimlo nad yw hynny wedi bod yn digwydd cymaint ag y dylasai ar draws y Prosiect. Mewn ymateb i’r pryderon hyn, buom yn gofyn cwestiynau ynghylch natur ac effeithiolrwydd rôl y trydydd sector yn y partneriaethau a ariannwyd gan ESF-LSB.

5.50 O’r 24% o brosiectau cyflenwi a nododd fod ‘cynyddu rôl y sector gwirfoddol/trydydd sector o ran cynllunio a dylunio gwasanaethau’ yn brif ffocws, dim ond 30% oedd yn debygol o fod yn llwyddiannus wrth gyflawni yn erbyn y nod hwn. Roedd y ddwy

ganran yn sylweddol is nag yn achos agweddau eraill ar gydweithio (e.e. o'r 55% o'r prosiectau oedd â 'chyfuno sgiliau ac adnoddau gwahanol sefydliadau' yn brif ffocws, roedd 76% yn debygol o fod yn llwyddiannus yn y cyswllt hwn).

5.51 Gellid dadlau mai testun pryder mwy oedd bod canlyniadau'r arolwg yn dangos, yn achos y chwarter o'r partneriaethau ESF-LSB a adroddodd eu bod yn 'cynyddu rôl y trydydd sector wrth *gyflenwi gwasanaethau'* fel prif ffocws yn 2013 a 2015, fod y ganran a oedd wedi llwyddo i wneud hynny wedi gostwng o 55% i 46% dros y cyfnod o ddwy flynedd).

5.52 Cadarneir y casgliad na fu fawr ddim cynnydd, a bod peth gwaethygu o bosibl yn ymwneud effeithiol y trydydd sector â BGLlau a phrosiectau cyflenwi yn ystod y cyfnod ariannu ESF, gan werthusiad Creu'r Cysylltiadau, a ddaeth i'r casgliad: "Fel yn achos cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, cymharol ychydig dystiolaeth sydd fod y gwaith o ddylunio a chynllunio gwasanaethau cyhoeddus wedi gwella trwy sicrhau gwell integreiddio i'r trydydd sector…. er yr ymddengys bod enghreifftiau o swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn cyflawni enillion bychain ond pwysig o ran dull gweithredu mwy cydweithredol wrth ddatblygu mentrau a phrosiectau penodol, nid oes fawr ddim tystiolaeth o newid systemig" (Old Bell 3, 2015).

5.53 Mae tystiolaeth o'n hastudiaethau achos a'n meta-ddadansoddiad yn awgrymu nifer o resymau posibl am hynny. Gallai meddylfryd rhai gwasanaethau statudol olygu na welir y trydydd sector fel un sydd â rôl ddylunio a chynllunio strategol, ac nad ystyrir cynnwys y sector ond pan fydd ganddo ran amlwg i'w chwarae wrth gyflenwi gwasanaethau. Gall hyn, hyd yn oed, fod yn llai tebygol yn wyneb cyni a gostyngiadau yn yr arian sector cyhoeddus, er i rai prosiectau cyflenwi, megis Broceriaid y Trydydd Sector a Phartneriaeth Iach Abertawe, weld y trydydd sector fel elfen bwysig i'r math o newid trawsffurfiannol oedd yn ofynnol i ymdrin â heriau deublyg galw cynyddol ac adnoddau sy'n lleihau.

5.54 Cododd rhai o'n hastudiaethau achos a'r meta-ddadansoddiad bryderon ynghylch capasiti'r trydydd sector i ymgysylltu â phartneriaethau lleol – a chadarnheir hynny gan ganlyniadau ein harolwg. O ystyried bod Creu'r Cysylltiadau wedi cael ei gynnal ochr yn ochr â'r Prosiect ESF-LSB i gynyddu gallu'r trydydd sector yn hyn o beth, mae hynny'n awgrymu bod angen dysgu mwy am y rhesymau dros y diffyg cynnydd o ran integreiddio a chynnwys y trydydd sector i wella gwasanaethau cyhoeddus ac ystyried dulliau mwy radical o ymdrin â'r flaenoriaeth bolisi hon.

5.55 **Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru**:

- Myfyrio ar ganfyddiadau gwerthusiadau'r prosiect ESF-LSB a Chreu'r Cysylltiadau, er mwyn cynhyrchu cynllun o ran sut gellir dylunio rhaglenni yn y dyfodol i integreiddio'r trydydd sector, nid wrth gyflenwi gwasanaethau yn unig, ond hefyd wrth eu dylunio a'u cynllunio.

5.56 **Ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid**:

- Ystyried y ffordd orau o gynnwys y trydydd sector fel mater o drefn ym mhob gweithio ar y cyd er mwyn ceisio gwella'r gwasanaeth a gyflenwir a'r canlyniadau i ddinasyddion, yn unol â'r ddeddfwriaeth llywodraeth leol ddiweddar.
- Adolygu capasiti'r trydydd sector lleol i ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau eraill, a gweithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) a phartneriaid eraill i gynllunio ffyrdd o gynyddu'r capasiti hwn os bydd angen.

**Dysgu o gyfnod crynodol y gwerthusiad o'r Prosiect ESF-LSB**

5.57 Yn ogystal â'r argymhellion penodol uchod, rydym yn cyflwyno rhai argymhellion trosfwaol i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid ynghylch sut mae lledaenu a defnyddio canfyddiadau'r gwerthusiad crynodol hwn.

5.58 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r gwerthusiad hwn, y gwerthusiad o Waith Rhanbarthol ar y Cyd, sydd ar waith ar hyn o bryd, a gwerthusiadau perthnasol eraill, megis Creu'r Cysylltiadau, i gael hyd i wersi cyffredinol ynghylch cydweithio effeithiol, a all arwain at newid yn y system a'r canlyniadau poblogaeth. Mae cyfleoedd sylweddol i gyfuno'r dysgu ar draws gwahanol lifoedd ariannu, fel nad yw'r dysgu'n digwydd yn ynysig.

5.59 Yn unol â'i hegwyddorion ymchwil a gwerthuso, dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar sut mae am ddefnyddio canfyddiadau'r gwerthusiad hwn i helpu i sicrhau bod etifeddiaeth i'r Prosiect. Mae pwyntiau dysgu i Lywodraeth Cymru ym mhob cam o'r broses, o gefnogi prosiectau i ddylunio fframwaith gwerthuso cadarn a phennu mesurau canlyniadau i wella sut mae'r dysgu a'r arfer da o'r Prosiect yn cael ei rannu. Dylid rhannu'r cyfrifoldeb am wreiddio'r gwersi hyn a gweithredu ar eu sail ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

## Cyfeiriadau


Apteligen (2014) *Evaluation of Third Sector Health and Social Care Brokers.*

Collicott, H. (2013) *Evaluation of the Connecting Families Project: Process and Interim Impact Report*.

Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych (2014a) *Internal evaluation report: Joint Approach to Workforce Development End Project Evaluation.*

Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych (2014b): *Progressive Engagement Pathways Project Evaluation.*

Connell, J. a A. Kubisch (1998) `*Applying a Theory of Change Approach to the Evaluation of Comprehensive Community Initiatives: Progress, Prospects and Problems',* yn K. Fulbright-Anderson, A. Kubisch a J. Connell (gol.) *New Approaches to Evaluating Community Initiatives, cyfrol 2, Theory, Measurement, and Analysis.* Washington, DC: Aspen Institute

Cotyledon (2015): *A summative evaluation of the Environmental Partnership Development Officer*.

Horton, K. (2013) *Establishing a baseline for Local Service Board scrutiny*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Martin, S, J. Downe, T. Entwistle a V. Guarneros-Meza (2013) *Learning to Improve: an independent assessment of Welsh Government's policy for local government - final report.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Old Bell 3 (2015) *Gwerthusiad Annibynnol o Brosiect Creu Cysylltiadau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA): Gwerthusiad Crynodol* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150611-wcva-making-connections-project-summative-evaluation-cy.pdf

Wavehill (2015) *Change Final Evaluation Report*.

Llywodraeth Cymru (2014) *Gwerthusiad o Brosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol Cronfa Gymdeithasol Ewrop: Adroddiad Ffurfiannol Interim*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140606-evaluation-esf-local-service-board-development-interim-cy.pdf

Llywodraeth Cymru (2015) *Gwerthusiad o Brosiect Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol Cronfa Gymdeithasol Ewrop: Adroddiad Ffurfiannol Terfynol*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru. http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150129-evaluation-esf-local-service-board-development-cy.pdf ac atodiad o astudiaethau achos http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150129-evaluation-esf-local-service-board-development-annex-2-en.pdf

## Anecs 1. Rhestr o'r prosiectau ESF-LSB

| Sefydliad / Grant | Disgrifiad Cryno o'r Prosiect |
|---|---|
| **Ynys Môn/ Gwynedd** | **Cyflenwi Fframweithiau Gwella Cydweithio –** Cefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau a gwella'r hyn mae'r sector cyhoeddus yn ei ddarparu trwy well cydweithio a gweithio ar y cyd rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn yr ardal. |
| **Blaenau Gwent (a Merthyr Tudful)** | **Rhaglen Atal NEET Blaenau'r Cymoedd 8-14, y tu allan i Oriau Ysgol (OHSL) –** Lleihau nifer yr achosion o NEET (Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). |
| **Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen** | **Datblygu Gwybodaeth am Nodweddion Bregus i Wasanaethau Cyhoeddus –** Nod trosfwaol y prosiect hwn yw gwella sut mae cyrff sector cyhoeddus yn gwneud defnydd effeithiol o ddata a gwybodaeth sydd ganddynt eisoes mewn systemau swyddfa gefn. |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | **Cysylltu Teuluoedd** – Datblygu a gweithredu model newydd o wasanaeth i ymdrin ag anghenion ac ymddygiad teuluoedd sydd â'r galwadau mwyaf ar wasanaethau cyhoeddus. |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | **Creu'r Cysylltiadau – Menter Gyfathrebu ar y cyd gan Cymunedau yn Gyntaf/BGLI –** Mae'r prosiect wedi ceisio creu cysylltiadau newydd rhwng ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a phartneriaid y BGLI. |
| **Caerffili** | **Datblygu Partneriaeth a Gwella Cydweithio –** Ehangu a dyfnhau capasiti cyrff gwasanaethau cyhoeddus i hwyluso a chyflenwi newid i brosesau busnes, yn unol â gofynion y Cynllun Sengl Integredig. |
| **Caerffili** | **Rhannu gwybodaeth bersonol –** Cefnogi'r broses o rannu data personol ar draws cyrff sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn ardal Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili. |
| **Caerffili** | **Rhaglen Pasbort Caerffili –** Lluniwyd y Rhaglen PASBORT yn benodol i gynorthwyo partneriaid BGLI i ymdrin â materion cynllunio'r gweithlu. |
| **Sir Gaerfyrddin** | **Cyngor a Chymorth –** Bydd y prosiect hwn yn adolygu |

| | |
|---|---|
| | effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darpariaeth gyfredol y gwasanaethau cyngor i ddinasyddion. |
| **Sir Gaerfyrddin** | **Llwyddiant Sir Gaerfyrddin –** Goruchwylio'r gwaith o gyflenwi 40 o gyfleoedd ar y cyd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant bob blwyddyn yn y sector cyhoeddus a gwirfoddol ar gyfer pobl 16-24 oed, yn Sir Gaerfyrddin. |
| **Sir Gaerfyrddin** | **Partneriaeth yr Amgylchedd –** Bydd y prosiect hwn yn darparu cefnogaeth benodol i reoli prosiectau i Bartneriaeth yr Amgylchedd yn Sir Gaerfyrddin. |
| **Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro** | **Broceriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Trydydd Sector yng Ngorllewin Cymru –** Mae nodau'r prosiect hwn yn cynnwys galluogi'r trydydd sector i ddod yn rhan annatod o gyd-ddylunio llwybr pob claf. |
| **Conwy a Sir Ddinbych** | **Cynaliadwyedd –** Cynyddu cynaliadwyedd Prosiectau Cymunedau yn Gyntaf cyfredol. |
| **Conwy a Sir Ddinbych** | **Y Dull Cydlynol o Ddatblygu'r Gweithlu –** Gweithio ar y cyd i gynllunio a datblygu'r gweithlu ar draws y sector cyhoeddus er mwyn crynhoi adnoddau a pharatoi ar gyfer anghenion sgiliau'r dyfodol. |
| **Sir Ddinbych /Conwy** | **Cynhwysiad Ariannol a Gwrthdlodi Conwy a Sir Ddinbych –** Gwella cydlyniad strategol a chydweithrediad gwasanaethau cynhwysiad ariannol ar draws Conwy a Sir Ddinbych. |
| **Sir Ddinbych /Conwy** | **Llwybrau Ymgysylltu Blaengar (PEP) Conwy a Sir Ddinbych –** Cynyddu'r gweithio ar y cyd, y comisiynu callach a'r cydlyniad strategol ar y ddarpariaeth NEET (19 +). |
| **Merthyr Tudful, (Blaenau Gwent, Pen-y-bont, Torfaen a RhCT)** | **Rhaglen Newid –** Trawsnewid y diwylliant a'r agwedd at hybu manteision gwaith ar draws gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd BGLlau. |
| **Castell-nedd Port Talbot** | **Adeiladu Capasiti a Galluedd –** Cyflymu'r broses o drawsnewid gwasanaethau er mwyn ymateb i anghenion pobl. |
| **Castell-nedd Port** | **Datblygu a gwerthuso system rhybudd aer –** Nod y |

| | |
|---|---|
| **Talbot** | prosiect yw gweithredu a gwerthuso system ar gyfer cyfleu gwybodaeth am ansawdd aer er mwyn gwella hunan-reolaeth poblogaethau sy'n agored i'r sefyllfa hon yn ardal Castell-nedd Port Talbot. |
| **Castell-nedd Port Talbot** | **Gwella Gwasanaethau Pobl Hŷn –** Nod y prosiect fydd mapio'r gwasanaethau presennol yn erbyn yr angen i ganfod a chyflenwi camau gweithredu a fydd yn cyfrannu at wella ansawdd bywyd i bobl hŷn. |
| **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru** | **Estyn y gwaith o Ailddylunio ac Ailgyflunio Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghanolbarth Cymru, fel rhan o Raglen ardal gyfan –** Bydd y prosiect yn darparu mwy o gapasiti a galluedd i reoli prosiectau o ran cymhwyso methodoleg systemau diwastraff ar y cyd ar gyfer ardaloedd dau Fwrdd Gwasanaethau Lleol. |
| **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol WLGA Canolbarth Cymru** | **Rhaglen Gwastraff Rhanbarthol Gynhwysfawr ar y Cyd –** Mae'r prosiect hwn yn ceisio capasiti penodol i reoli'r rhaglen, gan ddod â'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwastraff at ei gilydd. |
| **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol WLGA Gogledd Cymru** | **Cydweithio TGCh Gogledd Cymru –** Bydd y prosiect hwn yn rhychwantu ac yn cyflenwi'r potensial ar gyfer gweithio ar y cyd ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ar draws y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru. |
| **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol WLGA Gogledd Cymru** | **Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Cyfreithiol –** Datblygu prosiect Cydweithio Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Cymru o gyfnod datblygu i'w weithredu'n sylweddol. |
| **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol WLGA Gogledd Cymru** | **Trawsnewid a moderneiddio gwasanaethau trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru – Consortiwm Trafnidiaeth Integredig Gogledd Cymru (Taith) –** Y nod cyffredinol yw sefydlu strwythur rheoli rhanbarthol rhesymegol a chynaliadwy, a fydd yn caniatáu ar gyfer rhaglen barhaus o newid a gwelliant i'r gwasanaethau trafnidiaeth. |
| **Bwrdd Partneriaeth** | **Comisiynu Gofal Cymdeithasol ar y Cyd yn Ne-ddwyrain Cymru, gyda ffocws ar Faethu a Mabwysiadu, Tai Gofal** |

| | |
|---|---|
| **Rhanbarthol WLGA De-ddwyrain Cymru** | **Ychwanegol a Teleofal/Teleiechyd** – Gweithredu canfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd gan SEWIC i sicrhau enillion sylweddol o ran effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn sgîl gweithio ar y cyd. |
| **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol WLGA De-ddwyrain Cymru** | **Cynllunio Strategol a Chyflenwi Gwasanaeth Priffyrdd yn Ne-ddwyrain Cymru –** Nod y Prosiect yw cyflenwi'r gwasanaeth cymorth corfforaethol angenrheidiol a rennir, fel bod modd cyflenwi rhaglenni ar y cyd. |
| **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol WLGA De-orllewin Cymru** | **Gwasanaethau Cyfreithiol a TGCh a Rennir –** Cyfnod Gweithredu'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfnod Dichonoldeb Gwasanaethau TGCh a Rennir. Amcan y ddau brosiect yw cyflenwi gwasanaethau mwy effeithlon a chadarn ar gyfer yr awdurdodau cyfranogol, a hynny trwy gydweithio'n agosach. |
| **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol WLGA De-orllewin Cymru** | **Prosiect Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin –** Cefnogi 3 llif gwaith (iechyd meddwl oedolion, gwasanaethau anabledd dysgu i oedolion a phobl hŷn) fel rhan o brosiect ehangach Bae'r Gorllewin, ond heb ei ddyblygu. |
| **Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful** | **Trawsnewid Trafnidiaeth** – Dod â'r holl ddarparwyr trafnidiaeth at ei gilydd oddi mewn i Gwm Taf trwy greu System ganolog, gwbl integredig ar gyfer Archebu a Chynllunio Teithiau mewn Cerbydau at ddibenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a hynny o dan Fframwaith Comisiynu Sengl. |
| **Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful** | **Ymgynghori ac Ymgysylltu -** Nod y prosiect yw darparu dull effeithiol ac effeithlon o ymdrin ag ymgynghori ac ymgysylltu, yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd. |
| **Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful** | **Integreiddio Ardaloedd Lleol Cwm Taf –** Cefnogi'r newidiadau sydd eu hangen o ran strwythurau rheoli a dulliau o sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol diogel, cynaliadwy, sy'n troi o gwmpas y dinesydd, yn cael eu cyflenwi yn y dyfodol. |
| **Abertawe** | **Creu'r Cysylltiadau Lleol –** Mae gwasanaethau lleol yn cael eu dylunio a'u cyflenwi mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu |

| | |
|---|---|
| | persbectif dinasyddion. |
| **Abertawe** | **Y Tîm o Gwmpas y Teulu –** Gweithio ar sail amlasiantaeth i newid diwylliant ac arferion gwaith ac i wella sgiliau wrth ymateb i'r anghenion heb eu diwallu sydd gan deuluoedd. |
| **Abertawe** | **Abertawe Carbon Isel –** Bydd y prosiect yn datblygu dull cynaliadwy o leihau allyriadau carbon ar draws yr holl sectorau yn Ninas a Sir Abertawe. |
| **Abertawe** | **Partneriaethau Iach –** Datblygu model cadarn wedi'i dreialu o drefniadau cydweithio rhwng darparwyr gofal iechyd sylfaenol a'r trydydd sector, er mwyn datblygu ymwybyddiaeth y claf o wasanaethau trydydd sector ategol, a mynediad iddynt. |
| **Torfaen** | **Grymuso Cymunedau yn Gyntaf yn Nhorfaen ('Powering Up') –** Mae'r prosiect yn gynllun tair blynedd sy'n darparu cymorth ymarferol i sicrhau buddsoddiad mewn technoleg ynni gwyrdd a'i gaffael mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. |
| **Torfaen** | **System Cynllunio Bwydlen Unedig –** Bydd y prosiect yn datblygu ac yn helpu i roi ar waith system TGCh syml, ond hawdd ei graddio er mwyn cyflenwi darpariaeth fwyd sy'n gytbwys o ran maeth mewn modd systemaidd, a hynny mewn amrywiaeth o leoliadau sy'n cynnwys cartrefi gofal. |